Sicrhau bod cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**

Making communications work **for everyone**

# Cynllun Blynyddol 2017/18

Datganiad

Dyddiad cyhoeddi: 30 Mawrth 2017

# Gair am y ddogfen hon

Mae Ofcom yn bodoli er mwyn sicrhau bod y marchnadoedd cyfathrebiadau’n gweithio i bawb. I gyflawni hyn, mae gennym dri phrif nod: hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol i ddefnyddwyr; sicrhau safonau a gwella ansawdd; a diogelu defnyddwyr rhag niwed. Mae ein Cynllun Blynyddol yn disgrifio rhai o'r meysydd gwaith allweddol y byddwn yn eu cyflwyno yn 2017/18 i gyflawni'r nodau hyn, ar draws y DU a'i gwledydd. Rydym hefyd yn disgrifio ein gwaith parhaus ehangach sy'n cefnogi'r nodau hyn, a sut byddwn yn gweithio ar ran defnyddwyr ar draws gwledydd y DU.

Mae'r Cynllun Blynyddol hwn yn ystyried ymatebion rhanddeiliaid i'n hymgynghoriad ar y Cynllun arfaethedig, a gyhoeddwyd ar 29 Tachwedd 2016.

# Cynnwys


| Adran | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Beth rydym yn ei wneud | 4 |
| 2 | Newidiadau yn y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio | 7 |
| 3 | Ein nodau ac uchafbwyntiau ar gyfer 2017/18 | 10 |
| 4 | Cyflawni ein nodau ledled y DU | 13 |
| 5 | Gwaith sy'n parhau i gyflawni ein dyletswyddau | 16 |
| 6 | Sicrhau gwerth am arian | 21 |

| Atodiad | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Y rhaglen waith ar gyfer 2017/18 | 23 |
| 2 | Ymatebion i’r Cynllun Blynyddol Arfaethedig | 40 |

Adran 1

# Beth rydym yn ei wneud

1.1 Rydym yn rheoleiddio telegyfathrebiadau llinell sefydlog a symudol, teledu, radio, gwasanaethau fideo-ar-alwad, y post a’r tonnau awyr y mae dyfeisiau di-wifr yn eu defnyddio. Rydym yn helpu unigolion a busnesau yn y DU i gael y gorau o wasanaethau cyfathrebiadau ac yn eu diogelu rhag arferion cyfrwys. Lle bo'n briodol, rydym yn cefnogi cystadleuaeth fel sail ar gyfer rhoi canlyniadau da i ddefnyddwyr.

1.2 Rydym yn gweithredu'n annibynnol ar lywodraethau a buddiannau masnachol i gyflawni ein dyletswyddau. Fodd bynnag, rydym yn atebol i'r Senedd ac, i gyflawni ein rôl yn effeithiol, mae angen i ni ymgysylltu'n agored ac yn adeiladol gyda llywodraethau. Rydym yn darparu cyngor technegol i lywodraethau (er enghraifft, ein hadolygiadau rheolaidd o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus) ac, mewn rhai achosion, rydym yn gweithredu fel cynrychiolydd ffurfiol llywodraeth y DU (er enghraifft, mewn trafodaethau rhyngwladol ar sbectrwm).

## Ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr

1.3 Sefydlwyd Ofcom gan Ddeddf Swyddfa Cyfathrebiadau 2002, ac mae’n gweithredu’n unol â nifer o Ddeddfau Seneddol[1]. Dywed Deddf Cyfathrebiadau 2003 mai ein prif ddyletswydd yw hyrwyddo buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny’n briodol. Gyda gwasanaethau post, ein dyletswydd yw cyflawni ein swyddogaethau mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn diogelu’r gwasanaeth post cyffredinol yn y DU. Rydym yn gweithredu ac yn gorfodi cyfreithiau’n ymwneud â diogelu defnyddwyr, cyfathrebiadau a chystadleuaeth, ac mae ein pwerau cystadleuaeth yn cael eu hamlinellu yn nes ymlaen yn yr adran hon.

## Ein prif ddyletswyddau cyfreithiol sy'n tywys cyfeiriad ein gwaith

1.4 Ein prif ddyletswyddau cyfreithiol yw:

- sicrhau bod gan y DU amrywiaeth eang o wasanaethau cyfathrebiadau electronig;
- sicrhau bod y sbectrwm radio yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol;
- sicrhau bod amrywiaeth eang o raglenni radio a theledu o ansawdd uchel yn cael eu darparu gan nifer o sefydliadau gwahanol, gan apelio at amrywiaeth o ddiddordebau a chwaethau;
- sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu rhag deunydd niweidiol neu dramgwyddus, triniaeth annheg, ac ymyrraeth ar breifatrwydd ar y radio a'r teledu;

[1] Mae’r rhain yn cynnwys Deddf Cyfathrebiadau 2003, Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, Deddfau Darlledu 1990 a 1996, Deddf yr Economi Ddigidol 2010 a Deddf Gwasanaethau Post 2011.

- mae'r BBC yn cael ei ddal i gyfrif am ei gydymffurfiad â safonau priodol, ei berfformiad yn erbyn ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, ac effaith ei weithgareddau ar gystadleuaeth deg ac effeithiol; a

- sicrhau bod y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol ar wasanaethau post yn cael ei diogelu yn y DU.

1.5 Gall Ofcom orfodi cyfraith defnyddwyr ar ran defnyddwyr. Ond nid oes ganddo'r pŵer i ddatrys cwynion gan ddefnyddwyr unigol am y gwasanaeth post a'r gwasanaeth telegyfathrebiadau, yn wahanol i'r radio a theledu. Pan fo'n briodol, rydym yn darparu cyngor i'r rhai sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at gynlluniau dulliau amgen o ddatrys anghydfod (ADR) yr ydym wedi'u cymeradwyo.

## Integreiddio ein cyfrifoldebau rheoleiddio newydd dros y BBC

1.6 Ers 2015 bu Llywodraeth y DU yn cynnal proses i adolygu ac i ddisodli Siarter Frenhinol y BBC, a ddaeth i ben ddiwedd 2016. Fel rhan o'r broses hon o Adolygu'r Siarter, cyhoeddodd y Llywodraeth Bapur Gwyn ym mis Mai 2016 yn gosod ei phrif gynigion polisi. Yn ganolog i'r trefniadau newydd yn y Siarter a'r Cytundeb newydd oedd diwygio'r ffordd caiff y BBC ei lywodraethu a'i reoleiddio, gan gynnwys creu Bwrdd unedol newydd i redeg y BBC a throsglwyddo'r cyfrifoldeb dros reoleiddio'r BBC yn allanol i Ofcom.

1.7 O dan y Siarter flaenorol, Ymddiriedolaeth y BBC oedd prif reoleiddiwr a chorff llywodraethu'r BBC. Roedd Ofcom yn rheoleiddio'r BBC ond dim ond mewn perthynas â rhai safonau golygyddol (ond dim cwynion ynghylch cywirdeb a didueddrwydd), yn cefnogi Ymddiriedolaeth y BBC i wneud penderfyniadau ynghylch pryderon am gystadleuaeth, ac o bryd i'w gilydd yn cyflwyno adroddiadau am berfformiad y BBC fel rhan o'n Hadolygiadau o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus.

1.8 O dan Siarter newydd y BBC, o 3 Ebrill 2017 ymlaen mae cyfrifoldebau Ofcom yn cynnwys tri maes allweddol: cyfrifoldeb ar gyfer ymchwilio i'r ystod lawn o gwynion am safonau golygyddol cynnwys (gan gynnwys cwynion ynghylch cywirdeb a didueddrwydd); asesu perfformiad y BBC yn ôl ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus; a rheoleiddio effaith gweithgareddau'r BBC ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

1.9 Rydym wedi ymgynghori ynghylch fframweithiau a gweithdrefnau newydd sy'n ymwneud â'n rôl yn goruchwylio safonau darlledu'r BBC, ac effaith y BBC ar gystadleuaeth yn y farchnad ehangach, ac wedi'u cyhoeddi. Rydym hefyd wedi dechrau ymgynghori ynghylch fframwaith perfformio ar gyfer y BBC, gan gynnwys trwydded weithredu ddrafft. Yn 2017/18 byddwn yn cwblhau ein gwaith paratoi, gan gynnwys cyhoeddi trwydded weithredu derfynol, ac yn ymgorffori a chyflawni ein cyfrifoldebau newydd i sicrhau bod y BBC yn cael ei ddal i gyfrif drwy fframwaith rheoleiddio cryf ac effeithiol sy'n cydnabod rôl y BBC fel conglfaen Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn y DU.

## Pwerau Ofcom o dan y gyfraith cystadleuaeth

1.10 Yn ogystal â'n cyfrifoldebau rheoleiddio a nodir uchod, mae gennym bwerau yng nghyswllt materion cyfathrebiadau;[2] i

- orfodi gwaharddiadau ar gytundebau gwrthgystadleuol a'r camddefnydd o safle goruchafol a nodir yn Neddf Cystadleuaeth 1998 a'r darpariaethau cyfatebol o dan y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd; ac

- ymchwilio i farchnadoedd a chyfeirio materion o dan Ddeddf Menter 2002 at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA).

1.11 Bydd Ofcom yn ystyried a yw'n fwy priodol arfer pwerau'r Ddeddf Cystadleuaeth neu'r pwerau sectoraidd mewn unrhyw achos penodol, yn amodol ar ofynion deddfwriaethol penodol.

1.12 Rydym wrthi'n ymchwilio i un achos o dan ein pwerau cyfraith cystadleuaeth: cwyn gan Whistl UK ynghylch y prisiau a'r telerau ac amodau a gynigir gan y Post Brenhinol ar gyfer rhoi mynediad at wasanaethau danfon llythyrau penodol.

---

[2] Mae'r term 'materion cyfathrebiadau' yn cynnwys gwahanol agweddau ar gyfathrebiadau electronig, yn ogystal â darlledu a darparu gwasanaethau post. Rydym yn defnyddio'r pwerau hyn ar y cyd â'r CMA.

## Adran 2

# Newidiadau yn y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio

2.1 Wrth osod ein nodau a'n Cynllun Blynyddol, rydym wedi ystyried yr amgylchedd yr ydym yn gweithredu ynddo. Mae marchnadoedd cyfathrebiadau yn datblygu yn gyflym, mae anghenion defnyddwyr a busnesau yn newid ac mae rhwydweithiau, dyfeisiau a gwasanaethau yn arloesi yn gyson. Mae'r adran hon yn edrych ar y ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar y marchnadoedd cyfathrebiadau yr ydym yn eu rheoleiddio.

## Anghenion defnyddwyr a busnesau sy'n newid

### Mae cysylltedd yn dod yn fwyfwy canolog i ddefnyddwyr a busnesau yn y DU

2.2 Mae'r rhyngrwyd yn chwarae rhan fwy canolog ym mywydau pobl yn y DU. Ym mis Awst 2016, roedd gan 86% o oedolion y DU fynediad i'r rhyngrwyd yn eu cartref, ar gyfartaledd roedd defnyddiwr cyffredin o'r rhyngrwyd yn y DU yn treulio 25 awr ar-lein bob wythnos, ac roedd 75% yn credu bod y rhyngrwyd yn "bwysig" i'w bywyd bob dydd.[3] Mae pobl yn defnyddio'r rhyngrwyd ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys cyfathrebu person-i-berson, rhwydweithio cymdeithasol, cael newyddion a gwylio teledu. Mae'r rhyngrwyd hefyd wedi gweddnewid sut mae cynulleidfaoedd yn cael gafael ar newyddion, ac mae'n newid y ffordd rydym yn gwylio rhaglenni teledu'n raddol hefyd. Er enghraifft, yn 2016, roedd tua chwe oedolyn o bob deg yn y DU yn defnyddio gwasanaethau fideo ar-alwad fel BBC iPlayer, All4, Netflix neu Amazon,[4] gyda 6 miliwn o aelwydydd wedi tanysgrifio i Netflix.[5] Rhwng 2015 a 2016, tyfodd y defnydd o ddata symudol yn y DU dros 40% a defnydd misol cyfartalog cartrefi/busnesau bach o ddata sefydlog 36%.[6]

2.3 Mae pwysigrwydd cysylltedd hefyd ar gynnydd i fusnesau yn y DU. Er enghraifft, mae teleweithio, mynediad ar-lein i wasanaethau cyhoeddus ac ar gyfer cwsmeriaid, e-fasnach a meddalwedd swyddfa yn y cwmwl yn dod yn fwy cyffredin. Ar ben hynny, mae cyfathrebu peiriant i beiriant (M2M) – gyda rhaglenni'n amrywio o fesuryddion cyfleustodau 'clyfar' i geir cysylltiedig – yn dod yn fwy cyffredin, gyda bron i 7 miliwn o gysylltiadau yn y DU.[7]

## Buddsoddi mewn technolegau rhwydwaith newydd a thechnolegau sy'n datblygu

### Mae gweithredwyr yn buddsoddi mewn rhwydweithiau i wella cyflymder a diwallu anghenion defnyddwyr

2.4 Er mwyn ymateb i'r gofynion hyn, mae gweithredwyr rhwydweithiau sefydlog yn buddsoddi er mwyn gwella cyflymder rhwydweithiau presennol, gan gynnwys drwy

---

[3] Ofcom, Adroddiad ar y Farchnad Gyfathrebu 2016, tt. 31, 179-187.
[4] Ofcom, Adroddiad Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus 2016, t. 12.
[5] Arolwg Sefydlu BARB 2016.
[6] Ofcom, Cysylltu'r Gwledydd 2016, tt. 1, 2.
[7] Ofcom, Cysylltu'r Gwledydd 2016, t. 59.

ddefnyddio ffibr i'r eiddo er mwyn darparu cyflymder uwch yn uniongyrchol i gartrefi ac i fusnesau. Er enghraifft, mae BT wedi cyhoeddi cynlluniau i ddarparu ffibr i'r eiddo i ddwy filiwn o eiddo erbyn 2020, a G.FAST i 10 miliwn arall. Bydd 'Project Lightning' Virgin Media yn ymestyn darpariaeth cebl i 60% o eiddo, gan fwriadu adeiladu 800k o gartrefi eleni. O ganlyniad i fuddsoddiad, mae cyflymderau band eang 'cyflym iawn' o 30Mbit yr eiliad o leiaf nawr ar gael i 89% o eiddo yn y DU.[8] Yn Natganiad yr Hydref[9], cyhoeddodd y Llywodraeth gronfa buddsoddiad band eang gwerth £400m i gefnogi defnyddio rhwydweithiau ffibr ymhellach.

2.5 Mae gweithredwyr rhwydweithiau symudol hefyd yn uwchraddio eu rhwydweithiau, gan gyflwyno 4G a defnyddio WiFi a chelloedd bach i wella darpariaeth data symudol. Mae ymchwil yn parhau i rwydweithiau 5G yn y dyfodol a gwaith paratoi ar gyfer hynny, gyda'r posibilrwydd o ddarparu cyflymder hyd at 40 gwaith yn gynt na rhwydweithiau 4G presennol. Mae gwelliannau symudol, gan gynnwys 5G, yn cael eu dylunio i sicrhau rhagor o gapasiti a gwell dibynadwyedd, gan alluogi gwasanaethau arloesol newydd ar draws sectorau gwahanol y diwydiant. Disgwylir y bydd y safon '5G' ryngwladol gyntaf yn cael ei chyflwyno erbyn 2020, ond y bydd yn datblygu ymhellach (er enghraifft i gelloedd llai) wedi hynny.

### Serch hynny, mae pryderon o hyd ynghylch argaeledd ac ansawdd cysylltiad

2.6 Er gwaethaf cynnydd yn y buddsoddiad mewn rhwydwaith, amcangyfrifir bod 1.4 miliwn neu 5% o aelwydydd y DU yn methu cael cyflymder band eang teilwng o 10Mbit yr eiliad er mwyn gallu defnyddio'r rhyngrwyd yn effeithiol.[10] Mae hyn yn beryg o greu rhaniad digidol rhwng y rheini sy'n gallu ymwneud yn llawn â gwasanaethau cyfathrebu newydd a'r rheini sy'n methu gwneud hynny. Ar ben hynny, mae ansawdd gwasanaeth telegyfathrebu wedi methu bodloni disgwyliadau pobl a busnesau. Mae cyfraddau namau a'r amser mae'n ei gymryd i drwsio pethau yn achosi cryn bryder ac anfodlonrwydd.

## Mae tirwedd gyfathrebu gydgyfeiriol yn datblygu

### Mae cyfryngau ar-lein yn newid y dirwedd gystadleuol ar gyfer chwaraewyr sydd wedi bod ar waith ers tro byd

2.7 Wrth i ddefnyddwyr ddefnyddio mwy a mwy o wasanaethau sy'n cael eu darparu dros y rhyngrwyd ar gyfer cyfryngau, mae darparwyr gwasanaethau dros y rhyngrwyd wedi dechrau buddsoddi mewn cynhyrchu cynnwys, gan gynnwys rhaglenni gwreiddiol o'r DU, gan herio darparwyr cyfryngau sydd wedi bod ar waith ers tro byd. Er enghraifft, ym mis Rhagfyr fe lansiodd Amazon gystadleuydd i raglen *Top Gear* y BBC, ac mae Netflix wedi buddsoddi yn *The Crown*, drama wreiddiol a chafodd ei rhyddhau ym mis Tachwedd. Ym mis Mawrth, cyhoeddodd YouTube ei gynlluniau i lansio gwasanaeth tanysgrifio 40 sianel newydd i deledu, a fydd yn cystadlu'n uniongyrchol â rhwydweithiau cebl Unol Daleithiau America.[11] Mae darlledwyr sydd wedi bod ar waith ers tro byd a gweithredwyr teledu drwy dalu hefyd wedi ymuno â'r farchnad fideo ar-alwad, gan arwain at dirwedd gystadleuol sy'n fwy cymhleth ac sy'n newid. Wrth i'r BBC ddefnyddio cyfleoedd newydd ar-lein i gyflawni ei ddibenion cyhoeddus, mae effaith gystadleuol y gweithgareddau hyn wedi dod yn destun pryder i rai rhanddeiliaid.

[8] Ofcom, Cysylltu'r Gwledydd 2016, t. 1.
[9] Trysorlys EM, Datganiad yr Hydref 2016, 23 Tachwedd 2016
[10] Ofcom, Cysylltu'r Gwledydd 2016, t. 3.
[11] BBC News, YouTube yn cystadlu â chebl gyda gwasanaeth newydd i deledu, 1 Mawrth 2017

### Mae gweithgareddau uno a phrynu yn dal i addasu'r diwydiant cyfathrebu

2.8 Dros y blynyddoedd diwethaf bu llawer o uno a phrynu ymysg cwmnïau cyfathrebu Ewropeaidd, sydd wedi cael ei sbarduno gan gyfuno gwasanaethau a phwysigrwydd parhaus graddfa. Mae enghreifftiau yn cynnwys uno 'pedwar gwasanaeth' yn cyfuno gweithredwyr gwasanaethau sefydlog a symudol (ee BT yn prynu EE); uno rhyngwladol llorweddol (ee Virgin Media yn cael ei brynu gan Liberty Global, a BSkyB yn uno â Sky Deutschland a Sky Italia) a phrynu fertigol gan weithredwyr teledu drwy dalu yn buddsoddi mewn cwmnïau cynnwys (ee Liberty Global yn buddsoddi yn All3Media ac yn anuniongyrchol yn Eurosport).

2.9 Ar 3 Mawrth 2017 cyflwynodd 21$^{st}$ Century Fox hysbysiad ffurfiol i'r Comisiwn Ewropeaidd yn nodi ei fwriad i brynu'r cyfrannau yn Sky nad yw'n berchen arnynt yn barod. Ar 16 Mawrth 2017, cyflwynodd yr Ysgrifennydd Gwladol hysbysiad ymyriad Ewropeaidd ynghylch y pryniant arfaethedig. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom ystyried dwy elfen, lluosogrwydd yn y cyfryngau ac ymrwymiad i safonau darlledu, ac i ddarparu cyngor ac argymhelliad ynghylch unrhyw faterion sy'n ymwneud â lles y cyhoedd a godir yn sgil yr uno yng nghyswllt yr elfennau hyn. Mae'n rhaid i ni ddarparu ein cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol erbyn 16 Mai 2017. Rydym wedi cyhoeddi nodyn cyfarwyddyd[12] yn amlinellu sut rydym yn cyflawni'r broses hon.

## Newidiadau o ran polisi a rheoleiddio

2.10 Ym mis Gorffennaf 2016, cyflwynodd y Llywodraeth y Bil Economi Ddigidol i'r Senedd. Mae'r Bil yn cynnwys amrywiaeth o ddarpariaethau sydd wedi'u dylunio i helpu Ofcom i gyflawni ei swyddogaethau a darparu gwasanaethau cyfathrebiadau gwell i ddinasyddion a defnyddwyr. Mae'r rhain yn cynnwys cadarnhau ein pwerau i greu rheolau sy'n ymwneud a newid ac iawndal awtomatig; i gasglu a chyhoeddi gwybodaeth gan ddarparwyr cyfathrebiadau; ac i reoleiddio'r BBC. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys newidiadau i'n pwerau i reoleiddio'r sbectrwm electromagnetig.

2.11 Yn dilyn y refferendwm ym mis Mehefin 2016, mae Llywodraeth y DU yn bwriadu dechrau'r broses gyfreithiol ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE) ar 29 Mawrth 2017. Mae effaith Brexit ar farchnad cyfathrebiadau'r DU yn dal heb ei phennu, a bydd yn dibynnu ar drefniadau rhwng y DU a'r UE nad ydynt wedi cael eu trafod eto.

2.12 Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r Llywodraeth, rhanddeiliaid rhyngwladol perthnasol a chyrff rheoleiddio i gefnogi ac i amddiffyn buddiannau defnyddwyr a busnesau yn y DU. Bydd hyn yn cynnwys cyfrannu at yr adolygiad parhaus o Fframwaith Cyfathrebiadau Electronig yr UE a'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Clyweledol a Chyfryngau, gan y gallai'r darpariaethau hyn effeithio ar drefniadau rheoleiddio'r DU yn y dyfodol.

[12] Ofcom, Nodyn cyfarwyddyd ar brawf lles y cyhoedd ar gyfer pryniant arfaethedig Sky plc gan Twenty-First Century Fox, Inc. , 16 Mawrth 2017.

Adran 3

# Ein nodau ac uchafbwyntiau ar gyfer 2017/18

3.1 Mae Ofcom yn bodoli er mwyn sicrhau bod y marchnadoedd cyfathrebiadau'n gweithio i bawb. I gyflawni hyn, mae gennym dri nod lefel uchel a hirdymor:

| | | |
|---|---|---|
| **Hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol i ddefnyddwyr** | **Sicrhau safonau a gwella ansawdd** | **Diogelu defnyddwyr rhag niwed** |

3.2 Mae'n debygol y bydd y flwyddyn ariannol 2017/18 yn un o newidiadau mawr i Ofcom, wrth i ni roi ein strategaeth cyfathrebiadau digidol ar waith ac ysgwyddo ein cyfrifoldebau BBC newydd. Rydym wedi nodi tri maes isod sy'n arbennig o bwysig i bobl ac i fusnesau yn ein rhaglen waith 2017-18. Bydd Ofcom yn sicrhau bod y meysydd canlynol yn cael eu blaenoriaethu'n ddigonol dros y flwyddyn nesaf:

3.2.1 gweithredu casgliadau ein Hadolygiad o Gyfathrebiadau Digidol, gan gynnwys monitro gweithrediad ac effeithiolrwydd hysbysiad gwirfoddol BT i gryfhau annibyniaeth Openreach.

3.2.2 llwyddo i gwblhau'r gwaith o integreiddio ein cyfrifoldebau BBC newydd. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi a gorfodi fframweithiau rheoleiddio newydd a fydd yn dal y BBC i gyfrif wrth iddo gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, ei effaith ar gystadleuaeth deg ac effeithiol; a'i ddefnydd o safonau cynnwys; a

3.2.3 dyfarnu rhagor o sbectrwm symudol (y bandiau sbectrwm 2.3GHz a 3.4GHz) i helpu i ddiwallu'r galw cynyddol am gapasiti a gwasanaethau symudol.

3.3 Ar yr un pryd, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl ac i fusnesau, bydd angen i ni allu parhau i addasu a bod yn hyblyg wrth gyflawni'r cynllun blynyddol hwn.

3.4 I gyflawni ein nodau, mae angen i ni roi sylw i heriau penodol yn ein sectorau. Ar gyfer pob nod, rydym yn nodi isod y prif feysydd gwaith sy'n arbennig o bwysig yn 2017/18. Mae Atodiad 1 yn cynnwys rhagor o fanylion am ein cynllun gwaith ehangach gan gynnwys y meysydd gwaith hyn a amlygir. Mae ein gwaith rhaglennol ehangach hefyd yn cefnogi'r nodau hyn yn barhaus (Adran 5).

## Hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol i ddefnyddwyr

3.5 **Ein nod** yw sicrhau bod defnyddwyr a busnesau yn gallu elwa o amrywiaeth o gynnyrch a gwasanaethau cyfathrebiadau, gyda'r farchnad yn sicrhau canlyniadau da o ran dewis, pris, ansawdd, buddsoddi ac arloesi.

3.6 **Gwnawn hyn drwy** sicrhau bod marchnadoedd yn gallu gweithio'n effeithiol, drwy reoleiddio lle bo'n briodol, er mwyn i ddefnyddwyr allu elwa o fanteision cystadleuaeth.

### Meysydd i'w hamlygu o'n cynllun gwaith ar gyfer 2017/18:

3.7 **Galluogi gweithredwyr sy'n cystadlu â'i gilydd i fuddsoddi mewn rhwydweithiau llinell sefydlog cyflym iawn a thra chyflym.** Byddwn yn agor ac yn gwella mynediad i bibellau a pholion Openreach ac yn defnyddio rheolyddion prisiau gyda chynnyrch mynediad rhwydwaith BT sy'n cael eu rheoleiddio, er mwyn creu cyfle i bob gweithredwr ddefnyddio eu rhwydweithiau ffibr eu hunain.

3.8 **Hyrwyddo cystadleuaeth mewn gwasanaethau llinell sefydlog**, drwy gryfhau annibyniaeth strategol a gweithredol Openreach ar BT. Yn 2017/18, byddwn yn goruchwylio'r broses o bontio i'r model gwahanu cyfreithiol a nodwyd gan BT ym mis Mawrth 2017. Mae hyn yn cynnwys sefydlu prosesau a swyddogaethau newydd i fonitro cydymffurfiad BT ac Openreach Limited â'r model newydd yn agos.

3.9 **Sicrhau bod gwybodaeth well a manylach ar gael** i bobl a busnesau ynghylch argaeledd, cyflymder, ansawdd y gwasanaeth, a phrisiau gwasanaethau cyfathrebu. Byddwn hefyd yn gwella gallu pobl i ymgysylltu â'r farchnad a newid darparwyr.

3.10 **Sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol er mwyn darparu ystod eang o gynnwys amrywiol ac o ansawdd uchel ar gyfer cynulleidfaoedd darlledu**, gan gynnwys sesu a ydy darpar werth cyhoeddus gwasanaethau newydd (neu newidiadau mawr i wasanaethau sydd eisoes yn bodoli) a gynigir gan y BBC yn cyfiawnhau unrhyw effaith bosibl ar gystadleuaeth. Mae hyn ar ben ein gwaith ar amrywiaeth a pherfformiad Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus, fel sy'n cael ei drafod yn 3.16 a 3.17 isod.

## Sicrhau safonau a gwella ansawdd

3.11 **Ein nod** yw sicrhau bod gwasanaethau cyfathrebu a darlledu o ansawdd da yn fforddiadwy, yn hygyrch ac ar gael yn eang i ddefnyddwyr a busnesau ledled y DU.

3.12 **Gwnawn hyn drwy** gydnabod na all cystadleuaeth ei hun ddarparu'r ystod lawn o ganlyniadau a ddymunwn. Lle bo hyn yn berthnasol, rydym yn gwneud ymyriadau wedi'u targedu i wella canlyniadau i ddefnyddwyr a dinasyddion.

### Meysydd i'w hamlygu o'n cynllun gwaith ar gyfer 2017/8:

3.13 **Gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau cyfathrebu sefydlog a symudol er mwyn diwallu anghenion pobl a busnesau ar draws y DU**, gan gynnwys mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell lle mae dulliau masnachol yn aml wedi methu â bodloni'r disgwyliadau. Byddwn yn gweithredu unrhyw benderfyniad gan Lywodraeth y DU ynghylch Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol band eang i wella argaeledd gwasanaethau band eang teilwng i bobl ac i fusnesau ar draws y DU. Byddwn hefyd yn ceisio cefnogi'r ddarpariaeth symudol ehangach drwy asesu a gweithredu dulliau rheoleiddio newydd. Gall y rhain gynnwys amodau trwyddedau symudol a rhwymedigaethau o ran darpariaeth mewn trwyddedau newydd ar gyfer y band sbectrwm 700 MHz, a pholisi ar gyfarpar mwyhau symudol.

3.14 **Gwella ansawdd y gwasanaeth mewn gwasanaethau telegyfathrebu sefydlog a symudol i ddefnyddwyr ac i fusnesau** - cyflawni newid pwysig yn ansawdd gwasanaeth Openreach drwy ddefnyddio a gorfodi lefelau gwasanaeth a thargedau

sylfaenol yn drwyadl. Byddwn hefyd yn sicrhau bod defnyddwyr yn cael iawndal yn awtomatig pan fydd pethau'n mynd o chwith.

3.15 **Cynyddu capasiti rhwydweithiau symudol drwy sicrhau bod digon o sbectrwm ar gael** i weithredwyr ddarparu gwasanaethau band eang symudol i bobl ac i fusnesau. Byddwn yn dyfarnu'r bandiau sbectrwm 2.3GHz a 3.4GHz sy'n cael eu rhyddhau gan y Llywodraeth, ac rydym yn paratoi i ddarparu sbectrwm ar gyfer 5G.

3.16 **Sicrhau ansawdd mewn Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus**, drwy: a) dilyn ffordd newydd o asesu perfformiad y BBC, gan gynnwys trwydded weithredu newydd, a fydd yn dal y BBC i gyfrif am y ffordd mae'n darparu i'w gynulleidfaoedd gan gynnwys pa mor unigryw ydy ei allbwn a'i wasanaethau; a b) asesu perfformiad Corfforaeth Channel 4 wrth iddi gyflawni ei dyletswyddau cynnwys cyfryngau drwy'r broses Datganiad o Bolisi Cynnwys Cyfryngau flynyddol. Mae hyn ar ben ein gwaith sy'n ymwneud â chystadleuaeth mewn darlledu fel sy'n cael ei drafod yn 3.10 uchod.

3.17 **Sicrhau bod darlledu yn cynrychioli ac yn portreadu cymdeithas y DU yn gywir**, drwy sicrhau bod allbwn y BBC yn adlewyrchu, yn cynrychioli ac yn gwasanaethu cymunedau amrywiol gwledydd a rhanbarthau'r DU, a drwy fonitro ac adrodd ar amrywiaeth a chyfle cyfartal ar draws y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus.

## Diogelu defnyddwyr rhag niwed

3.18 **Ein nod** yw sicrhau nad yw defnyddwyr yn wynebu arferion cyfrwys a bod defnyddwyr bregus yn cael eu diogelu rhag niwed penodol lle gallent fod mewn perygl.

3.19 **Gwnawn hyn drwy** gamu i mewn yn uniongyrchol i ddiogelu defnyddwyr, yn enwedig grwpiau bregus sydd mewn perygl o gael eu niweidio. Rydym yn rhoi rhagor o fesurau ar waith os oes risg y bydd rhywun yn agored i ymddygiad niweidiol gan gwmnïau neu i gynnwys tramgwyddus ar y teledu a'r radio.

### Meysydd i'w hamlygu o'n cynllun gwaith ar gyfer 2017/18:

3.20 **Amddiffyn cynulleidfaoedd rhag cynnwys niweidiol mewn gwasanaethau teledu, radio ac ar-alwad.** Byddwn yn sicrhau bod cynnwys yn cyrraedd y safonau perthnasol, gan ystyried cwynion gan y gynulleidfa o dan y Cod Darlledu a chodau a chanllawiau perthnasol eraill. Byddwn yn gwreiddio ein dyletswyddau newydd ar gyfer ystyried cwynion yn erbyn y BBC yn ein rhaglen barhaus o waith ar gyfer safonau cynnwys. Eleni am y tro cyntaf byddwn yn gyfrifol am ymchwilio i gwynion ynghylch cywirdeb a didueddrwydd y BBC.

3.21 **Sicrhau bod cwsmeriaid llinell dir yn unig yn cael gwerth am arian gan wasanaethau llais.** Rydym yn poeni nad yw cystadleuaeth yn gweithio'n effeithiol ar gyfer defnyddwyr sy'n prynu gwasanaeth llais sefydlog annibynnol. Ein nod yw sicrhau bod y cwsmeriaid hyn (nifer ohonynt yn gwsmeriaid bregus) yn cael eu hamddiffyn rhag prisiau uchel ac yn elwa o ddewis.

3.22 **Mynd i'r afael â galwadau niwsans**, drwy weithio gyda darparwyr gwasanaethau cyfathrebu yn y DU i fonitro ac i rwystro traffig galwadau trafferthus, a gweithio gyda phartneriaid rhyngwladol ar orfodi ac adnabod y sawl sy'n galw. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a chyrff eraill i leihau galwadau niwsans, sy'n arbennig o niweidiol i ddefnyddwyr bregus.

## Ein hagwedd at reoleiddio yn 2017/18

3.23 I gyflwyno ein pwrpas o sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb, mae'n hanfodol fod y rheoliadau sy'n berthnasol i'r marchnadoedd cyfathrebiadau'n dal yn briodol. O dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, mae'n ofynnol i Ofcom leihau'r baich mae'n ei roi ar y cwmnïau mae'n eu rheoleiddio. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni adolygu'r broses reoleiddio'n gyson er mwyn sicrhau nad yw (a) yn gosod beichiau diangen; neu (b) yn parhau i greu beichiau sydd bellach yn ddiangen. Mae'n rhaid i Ofcom leihau neu gael gwared â beichiau diangen lle mae'n dod ar eu traws. Mae'r gofynion hyn yn sail i'n holl waith rheoleiddio, gan gynnwys ein rhaglen o adolygiadau marchnad. Ar ben hynny, bydd rhai gweithgareddau sydd ar y gweill ar gyfer 2017-18 yn rhoi cyfle i ni ymchwilio i'r posibilrwydd o ddileu neu ddiwygio rheoliadau presennol.

3.24 Mae rheoliadau Ofcom ar gyfer diogelu defnyddwyr yn cael eu hategu gan yr "Amodau Hawliau Cyffredinol", set o ddyletswyddau cyfreithiol y mae'n rhaid i rwydweithiau neu ddarparwyr cyfathrebiadau electronig lynu wrthynt. Rydym yn adolygu'r Amodau Hawliau Cyffredinol er mwyn llunio cyfres resymegol o amodau rheoleiddio sy'n gliriach ac yn fwy ymarferol, yn haws cydymffurfio â nhw ac yn symlach i'w gorfodi.

3.25 Roedd ein hymgynghoriad ynghylch band cul wedi cyflwyno cynigion i ddadreoleiddio wrth ystyried y cynnydd mewn cystadleuaeth a'r dewisiadau newydd o wasanaethau llais sydd ar gael i ddefnyddwyr, gan gynnwys cynigion i roi diwedd ar reolyddion ffioedd ar sail cost ar gyfer Rhentu Llinell Cyfanwerthol a Tharddiad Galwadau Cyfanwerthol. Rydym hefyd yn ymgynghori ynghylch yr achos dros ddadreoleiddio llinellau ISDN sydd newydd eu cysylltu a symleiddio sawl elfen o'r drefn rheoleiddio sy'n berthnasol i linellau ISDN presennol.

3.26 Bydd ein hymgynghoriad ynghylch Mynediad Band Eang Cyfanwerthol yn edrych ar gyfleoedd i ddadreoleiddio mewn ardaloedd daearyddol lle mae cystadleuaeth ar sail rhwydwaith eisoes yn llwyddo i sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr preswyl a busnesau bach.

3.27 Rydym hefyd yn ymchwilio i bosibilrwydd cyfyngu ar gyfyngiadau cyfreithiol ar ddefnyddio cyfarpar mwyhau symudol drwy wahodd cyfraniadau gan ddarparwyr cyfathrebiadau a gwerthwyr offer ynghylch y paramedrau allweddol sydd eu hangen i atal ymyriant niweidiol, gyda golwg ar ddatblygu manyleb genedlaethol wirfoddol. Byddai'r fanyleb hon yn rhoi'r paramedrau ar gyfer dod â chyfarpar mwyhau symudol sydd wedi'u gosod gan ddefnyddwyr i'r farchnad fel dyfeisiau sydd wedi'u heithrio o drwydded.

3.28 Rydym yn edrych ar feysydd newydd lle gallwn rymuso rhanddeiliaid a defnyddwyr drwy ddarparu gwybodaeth sy'n well ac yn fwy hygyrch. Rydym yn parhau i hyrwyddo ein polisi data agored, gyda golwg ar ganfod a chyhoeddi ystod o gyfresi data newydd yn 2017/18. Byddwn hefyd yn ymgysylltu â thrydydd partïon sydd wedi ailddefnyddio ein data, er mwyn deall sut gall rhyddhau yn y dyfodol ddiwallu eu hanghenion yn well a, maes o law, helpu dinasyddion a defnyddwyr.

3.29 Ar ben hynny, rydym yn rhyddhau gwybodaeth er mwyn i randdeiliaid allu deall yn well sut mae sbectrwm yn cael ei ddefnyddio. Rydym wedi dechrau drwy gyhoeddi ein map sbectrwm rhyngweithiol, ac ers hynny rydym wedi rhyddhau gwybodaeth am ddefnyddio sbectrwm mewn fformat agored er mwyn sicrhau ei bod hi'n hawdd ailddefnyddio'r wybodaeth hon.

**Adran 4**

# Cyflawni ein nodau ledled y DU

4.1 Rydym wedi ymrwymo i gyflawni ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr ar draws holl wledydd a rhanbarthau'r DU. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, mae angen i ni ystyried amrywiaeth rhanbarthol a chenedlaethol. Rydym yn gwneud hyn drwy ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid ym mhob gwlad drwy ein swyddfeydd yn y gwledydd, a drwy weithio'n agos gyda phedwar Pwyllgor Cynghori cenedlaethol Ofcom, sy'n cynghori ac yn herio.

4.2 Bydd rhagor o ddatganoli i'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn arwain at newidiadau i'n Bwrdd dros y flwyddyn nesaf, gyda'r gweinyddiaethau yng Nghaeredin, Caerdydd a Belfast i gyd yn penodi aelod Bwrdd Ofcom newydd. Ar ben hynny, bydd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd yn nodi'r trefniadau ffurfiol er mwyn i Ofcom ymgynghori â deddfwrfeydd a llywodraethau datganoledig ynghylch ein blaenoriaethau strategol ac er mwyn darparu tystiolaeth i Bwyllgorau Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn ôl y galw.

## Heriau cyffredin

4.3 Mae ystod lawn gwaith Ofcom ar reoleiddio gwasanaethau cyfathrebu, post a darlledu yn bwysig i bobl ac i fusnesau ar draws y DU. Mae gwasanaethau cyfathrebu o ansawdd da yn hollbwysig i bobl ac i fusnesau lle bynnag y bônt. Dylai Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus adlewyrchu hunaniaeth ddiwylliannol ar lefel y DU, ar lefel genedlaethol ac ar lefel ranbarthol. Mae'r adran hon yn tynnu sylw at rai agweddau o'n gwaith dros y flwyddyn nesaf sy'n gyffredin i bob gwlad, ynghyd â rhywfaint o waith penodol sydd â pherthnasedd penodol i'r gwledydd unigol.

4.4 Mae darparu gwasanaethau band eang sefydlog, symudol a phost sy'n diwallu anghenion defnyddwyr a busnesau bach a chanolig eu maint mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell yn peri heriau penodol, wrth ystyried eu daearyddiaeth economaidd. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u lleoli yn anghymesur yng Nghymru, Gogledd Iwerddon, yr Alban a rhai o ranbarthau Lloegr.

4.5 Yn 2017/18, byddwn yn cyhoeddi adroddiadau ar gyflymder a darpariaeth band eang a symudol, gan gynnwys data ar amrywiaethau rhwng defnyddwyr gwledig a threfol. Byddwn yn sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael ac yn hygyrch drwy gyhoeddiadau a fydd yn rhoi manylion ar gyfer pob gwlad. Ar ben hynny, byddwn yn gweithio i wella argaeledd gwasanaethau band eang drwy weithredu unrhyw benderfyniad gan Lywodraeth y DU ar rwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol band eang. Byddwn hefyd yn gweithio i wella darpariaeth symudol, er enghraifft drwy ragor o rwymedigaethau darpariaeth ar sbectrwm newydd neu gamau polisi ehangach pan fydd hynny'n briodol. Yn olaf, byddwn yn parhau â'n gwaith i ennill gwell dealltwriaeth o achosion ac effeithiau codi tâl ychwanegol am barseli yng Ngogledd Iwerddon ac Ucheldir ac Ynysoedd yr Alban.

4.6 Byddwn yn monitro cydymffurfiad pob Darlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus ag amodau eu trwydded o ran eu rhaglenni sy'n cael eu gwneud y tu allan i Lundain a Lloegr. Ar ben hynny, byddwn yn gyfrifol am ddal y BBC i gyfri am sicrhau bod ei allbwn yn adlewyrchu, yn cynrychioli ac yn gwasanaethu cymunedau amrywiol gwledydd a rhanbarthau'r DU, yn unol â'r Siarter Frenhinol newydd y cytunwyd arni ym mis Tachwedd 2016. Rydym yn ymgynghori ar strwythur Trwydded Gweithredu sy'n adlewyrchu'r gofynion penodol sydd ar y BBC i ddarparu ym mhob un o wledydd y

DU. Roedd *Adolygiad Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus 2015* wedi codi pryderon penodol cynulleidfaoedd nad oedd pobl o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu cynrychioli a'u gwasanaethu'n ddigonol gan gynnwys teledu Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus. Yn 2017/18, byddwn yn monitro ac yn adrodd ar amrywiaeth a chyfle cyfartal ar draws yr holl Ddarlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus.

### Lloegr

4.7 Yn ogystal â'r materion a amlinellir uchod, mae'r dwysedd poblogaeth uchel yn ardaloedd trefol Lloegr yn cyflwyno heriau unigryw i weithredwyr rhwydweithiau. Bydd ein gwaith ar gyflymderau band eang symudol yn ogystal ag ymchwil ymysg defnyddwyr ar dderbyniad a mynediad hwylus yn ein helpu i ganfod problemau posibl yn ymwneud â rhwydwaith ac ansawdd gwasanaeth sy'n benodol i ddefnyddwyr trefol.

### Gogledd Iwerddon

4.8 Byddwn yn parhau i weithio gyda Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Cynulliad Gogledd Iwerddon a chynghorau lleol, gan gynnig cyngor technegol a rheoleiddiol, yn arbennig i gefnogi darpariaeth symudol well a band eang gwell.

4.9 Mae hysbysiad mis Mawrth BT i wahanu Openreach yn gyfreithiol yn cynnwys newidiadau i helpu i sicrhau bod manteision y diwygiadau i Openreach yn cael effaith ar draws y DU gan gynnwys Gogledd Iwerddon, gan ystyried yr amgylchiadau lleol penodol a'r canlyniadau presennol ar gyfer pobl a busnesau.

4.10 Mae ffin Gogledd Iwerddon â Gweriniaeth Iwerddon yn peri heriau unigryw, gyda nifer o wasanaethau ar gael yn y naill awdurdodaeth a'r llall. Er bod hyn yn gallu bod o fudd i ddefnyddwyr, fel drwy fwy o ddewis o orsafoedd teledu a radio, mae hefyd yn gallu achosi niwed, fel pan fydd defnyddwyr yn cael ffioedd crwydro symudol ar draws ffiniau. Byddwn yn parhau â'n perthynas gref gyda'r awdurdodau rheoleiddio Gwyddelig er mwyn cydlynu ein gwaith, cadw gwasanaethau trawsffiniol ac amddiffyn defnyddwyr.

### Yr Alban

4.11 Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth yr Alban, Pwyllgorau ac Aelodau o Senedd yr Alban a Swyddfa'r Alban, gan gynnwys drwy ddarparu cyngor technegol. Byddwn yn gweithio gydag Uned Polisi Cystadleuaeth a Defnyddwyr Llywodraeth yr Alban mewn marchnadoedd perthnasol a Grwpiau Trawsbleidiol yn Holyrood (er enghraifft ar gyfranogiad digidol).

4.12 Mae Ofcom nawr wedi agor swyddfa newydd yng Nghaeredin fel rhan o'n strategaeth i symud rhan o'n gweithrediadau y tu allan i Lundain. Ein nod ydy creu canolfan polisi a gweithrediadau i helpu i sicrhau ein bod yn gallu cynrychioli buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yn effeithiol nid dim ond yn yr Alban ond ar draws y DU.

### Cymru

4.13 Yn 2017/18 byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru a Swyddfa Cymru i wella gwasanaethau cyfathrebu ym mhob rhan o Gymru, drwy gynnig cyngor technegol, yn enwedig i gefnogi'r gwaith o gyflwyno band eang gwell a darpariaeth symudol well.

4.14 Byddwn yn gweithredu'r fframwaith deddfwriaethol Safonau’r Gymraeg newydd fel y nodwyd yn Hysbysiad Cydymffurfio Terfynol Comisiynydd y Gymraeg a gyhoeddwyd ar 25 Gorffennaf 2016 (sy’n disodli Cynllun Iaith Gymraeg presennol Ofcom).

Adran 5

# Gwaith sy'n parhau i gyflawni ein dyletswyddau

5.1 Yn adrannau 3 a 4 uchod, rydym wedi tynnu sylw at feysydd gwaith a fydd yn ein helpu i gyflawni ein nodau yn 2017/18 ar draws y DU. Mae ein rhaglen waith barhaus ehangach hefyd yn ein helpu i gyflawni ein nodau. Mae'n cynnwys gweithgareddau pwysig sy'n hanfodol i sicrhau bod defnyddwyr yn cael canlyniadau da mewn marchnadoedd cyfathrebu. Mae statud yn mynnu bod Ofcom yn gwneud llawer o'r gwaith hwn. Fel arfer, nid yw ein ffordd o gyflwyno'r gwaith hwn yn newid yn sylweddol o flwyddyn i flwyddyn.

## Hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol i ddefnyddwyr

### Dyrannu rhifau

5.2 Mae Ofcom yn dyrannu rhifau ffôn i ddarparwyr cyfathrebiadau, sydd wedyn yn eu rhoi i ddefnyddwyr. Rydym yn sicrhau y gwneir y defnydd effeithlon o rifau, gan leihau'r angen am fesurau costus sy'n tarfu i fynd i'r afael â phrinder rhifau.

### Monitro teledu drwy dalu

5.3 Mae Ofcom yn dilyn datblygiadau'r farchnad ar draws y gadwyn gwerth teledu drwy dalu er mwyn deall profiad y defnyddiwr a chystadleuaeth adwerthu wrth i'r sector esblygu. Byddwn yn parhau i fonitro unrhyw bryderon mewn perthynas â mynediad at gynnwys teledu drwy dalu (gan gynnwys cyflenwi cynnwys chwaraeon premiwm) a llwyfannau teledu, gan ein galluogi i gamu i mewn yn gyflym os bydd angen.

### Monitro effeithiolrwydd y fframwaith rheoleiddio ar gyfer post

5.4 Ar 1 Mawrth 2017, cwblhasom ein hadolygiad sylfaenol o'r gwaith o reoleiddio'r Post Brenhinol. Yn yr adolygiad, rydym wedi penderfynu y dylai'r dull rheoleiddio a sefydlwyd gennym yn 2012 aros mewn lle tan 2022.

5.5 Fel un o'r prif ffyrdd o ddiogelu'r fframwaith rheoleiddio, byddwn yn parhau i fonitro amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys perfformiad y Post Brenhinol ar effeithlonrwydd, ansawdd gwasanaeth, perfformiad ariannol y rhwydwaith gwasanaeth cyffredinol, a chystadleuaeth mewn parseli a llythyrau. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro profiadau defnyddwyr yn y sector post. Byddwn hefyd yn cwblhau ein gwaith o adolygu adroddiadau ariannol rheoleiddiol y Post Brenhinol a modelu cost ei rwydwaith danfon.

### Gorfodi cystadleuaeth

5.6 Mae Ofcom yn gorfodi'r amodau rheoleiddio rydym yn eu gosod ar ddarparwyr cyfathrebu sydd â ffocws cystadleuaeth. Byddwn yn gorfodi gofynion sy'n ymwneud â chystadleuaeth sy'n berthnasol i'r BBC o dan ei Siarter a'i Gytundeb, ac o dan y Fframwaith Gweithredu a osodwyd gan Ofcom. Rydym hefyd yn asesu cwynion ac yn penderfynu ar anghydfodau rhwng gwasanaethau a darparwyr rhwydweithiau cyfathrebu electronig ac rydym yn cynnal ymchwiliadau o dan gyfraith cystadleuaeth.

## Sicrhau safonau a gwella ansawdd

### Rheoli sbectrwm a chynllunio ar gyfer gofynion y dyfodol

5.7 Mae Ofcom yn sicrhau bod sbectrwm radio'r DU yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithlon. Mae hyn yn cynnwys cynllunio ar gyfer gofynion sbectrwm yn y dyfodol, er enghraifft ar gyfer data symudol, lloeren a gofod, ac ôl-gludo di-wifr sefydlog. Byddwn yn parhau i gyfrannu at astudiaethau technegol ar fandiau sbectrwm 5G cyn Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd 2019, ac yn edrych am gyfleoedd i rannu sbectrwm fel rhan o'n hadolygiadau sectoraidd strategol.

### Awdurdodi sbectrwm

5.8 Mae Ofcom yn cynllunio'r defnydd effeithlon o'r sbectrwm radio yn y DU mewn ffyrdd sy'n lleihau ar ymyriant rhwng defnyddwyr ac yn sicrhau'r manteision gorau posibl i ddefnyddwyr. Rydym yn awdurdodi'r defnydd o sbectrwm drwy gyflwyno trwyddedau a drwy wneud rheolau i ganiatáu iddo gael ei ddefnyddio heb drwydded.

### Sicrhau a gorfodi sbectrwm

5.9 Mae Ofcom yn cynghori ac yn helpu defnyddwyr sbectrwm er mwyn cynorthwyo i ddatrys ymyriant niweidiol. Mae ein Timau Gorfodaeth, Peirianneg a Thechnoleg Sbectrwm yn delio ag adroddiadau o ymyriant ac yn ymgymryd â gweithgareddau i ddiogelu a rheoli sbectrwm y DU. Mae'r rhain yn cynnwys ymateb i ymyriant i gyfathrebu diogelwch-bywyd a mynd ati'n rhagweithiol i atal defnyddio sbectrwm heb awdurdod drwy ganfod a mynd i'r afael â defnyddio sbectrwm heb drwydded a gwerthu neu ddefnyddio offer nad yw'n cydymffurfio. Mae ein gorfodaeth yn gymesur, yn unol â'n dyletswyddau statudol a'n hegwyddorion rheoleiddio.

### Rhyddhau gwybodaeth a dadansoddiadau ynghylch defnyddio sbectrwm

5.10 Rydym yn rhyddhau gwybodaeth am ddefnyddio sbectrwm mewn fformat agored, gan gynnwys drwy gyhoeddi mapiau sbectrwm rhyngweithiol i ddadansoddi'r agweddau daearyddol amrywiol o ddefnyddio sbectrwm. Rydym yn cynnal ac yn diweddaru Tabl Dyrannu Amledd y DU. Byddwn yn parhau i ryddhau gwybodaeth a dadansoddi defnydd sectorau penodol o sbectrwm er mwyn cefnogi ein hadolygiadau strategol ein hunain, ac er mwyn rhoi dealltwriaeth well i randdeiliaid o sut caiff sbectrwm ei ddefnyddio.

### Trwyddedau darlledu teledu a radio

5.11 Mae Ofcom yn cyhoeddi trwyddedau ar gyfer pob gwasanaeth teledu masnachol lleol a chenedlaethol yn y DU a phob gwasanaeth radio masnachol a chymunedol analog a digidol. Mewn achosion difrifol o beidio â chydymffurfio â gofynion trwydded, gall Ofcom ddirymu trwyddedau.

### Monitro ansawdd gwasanaeth cynnyrch mynediad copr a ffibr Openreach

5.12 Rydym yn monitro perfformiad Openreach o ran ei wasanaethau llais ar sail copr a'i wasanaethau mynediad band eang a'i wasanaethau mynediad ar sail ffibr (llinellau ar brydles i fusnesau). Byddwn yn sicrhau bod Openreach yn diwallu'r safonau ansawdd sylfaenol a nodir yn ein Datganiad ar yr Adolygiad o'r Farchnad Mynediad Sefydlog yn 2014 a'n Datganiad ar yr Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes yn

2016, ac yn dod o hyd i unrhyw faterion gydag ansawdd cynnyrch mynediad sefydlog Openreach.

### Diogelwch a chadernid rhwydweithiau

5.13 Mae Ofcom yn sicrhau bod gweithredwyr rhwydweithiau yn dylunio ac yn gweithredu rhwydweithiau yn unol ag arferion diogelwch da ac rydym yn gweithio i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'n canllawiau, gan ddefnyddio ein pwerau gorfodi os yw hynny'n briodol. Byddwn hefyd yn casglu adroddiadau ar fethiannau rhwydwaith. Mae crynodebau o'r rhain yn cael eu cyhoeddi yn ein hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd blynyddol a'u darparu i'r Comisiwn Ewropeaidd. Rydym yn mynd ar drywydd digwyddiadau sydd wedi bod yn destun pryder i ddeall y rheswm amdanynt a'r camau a gymerwyd i ymateb, er mwyn lleihau'r risg i'r dyfodol.

## Diogelu defnyddwyr rhag niwed

### Gorfodi safonau rhaglenni

5.14 Mae Ofcom yn sicrhau bod cynnwys gwasanaethau radio a theledu yn cyrraedd safonau penodol. Rydym yn ystyried cwynion a ddaw i law gan aelodau o'r cyhoedd ynghylch cynnwys darlledu mewn rhaglenni teledu a radio os ydy'r sawl sy'n cwyno yn credu bod rhaglen yn methu cyrraedd y safonau hyn. Bydd Ofcom hefyd yn ystyried cwynion sydd wedi'u cyfeirio ynghylch cynnwys a ddangosir ar sianeli'r BBC ac ar BBC iPlayer o 3 Ebrill 2017 ymlaen, os nad yw'r sawl sy'n cwyno yn fodlon ar sut mae'r BBC wedi datrys y gŵyn. Rydym yn ystyried cwynion yn erbyn y Cod Darlledu ac unrhyw ganllawiau a chodau perthnasol eraill.

### Gwasanaethau rhaglenni ar alwad

5.15 Mae Ofcom yn rheoleiddio gwasanaethau dal i fyny a fideo ar-alwad sy'n diwallu'r diffiniad statudol o 'wasanaeth rhaglenni ar-alwad'. Mae'r rheolau perthnasol yn ymwneud â deunydd a allai amharu'n ddifrifol ar ddatblygiad plant; deunydd sy'n cael ei wahardd fel cymhelliant i gasineb; a chyfeiriadau masnachol sy'n cael eu gwahardd.

### Diogelu defnyddwyr ac ymchwiliadau

5.16 Mae Ofcom yn mynd ati'n weithredol i orfodi'r amodau rheoleiddio rydym yn eu gosod ar ddarparwyr cyfathrebu, yn ogystal â chyfraith defnyddwyr gyffredinol. Rydym yn monitro cwynion, yn dadansoddi tystiolaeth ac yn cymryd camau'n ddiymdroi i ddelio yn gadarn ac yn effeithiol pan fyddwn ni'n gweld niwed, gan gynnwys ymchwiliadau ffurfiol a chosbau pan fydd hynny'n briodol.

### Delio â chwynion

5.17 Mae'n rhaid i ddarparwyr cyfathrebiadau gael gweithdrefnau sy'n cydymffurfio â'r *Cod Ymarfer ar gyfer Delio â Chwynion* sydd wedi'i gymeradwyo gan Ofcom. Mae gennym raglen barhaus i sicrhau gwelliannau yn y maes hwn, gan gynnwys sicrhau bod darparwyr yn rhoi gwybod i ddefnyddwyr am y mecanweithiau dulliau amgen o ddatrys anghydfod, yn enwedig drwy lythyrau yn eu hysbysu am eu hawl i ddefnyddio'r drefn dulliau amgen o ddatrys anghydfod ar ôl wyth wythnos, os yw'r gŵyn yn dal heb ei datrys.

## Gwaith arall ar draws ein nodau

### Cynnal ymchwil i'r farchnad a diweddaru gwybodaeth am y farchnad

5.18 Mae Ofcom yn cynnal rhaglen ymchwil eang i farchnadoedd cyfathrebiadau ac ymddygiad defnyddwyr a beth sydd orau ganddynt. Mae'r ymchwil hwn yn sicrhau bod gennym ddealltwriaeth drwyadl a chyfredol o ddefnyddwyr yn y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio. Mae ein gwaith ar wybodaeth am y farchnad yn casglu data'n uniongyrchol gan randdeiliaid y diwydiant ac yn ei darparu drwy gyhoeddiadau a diweddariadau data ar y wefan.[13] Mae ein Calendr Rhyddhau Ystadegau[14] yn rhoi dolenni i'r holl ddata ystadegol yn rheolaidd ac yn gylchol er mwyn cyfrannu at benderfyniadau llywodraeth.

### Ymgysylltu â llywodraeth y DU, llywodraethau a gweinyddiaethau datganoledig a chyrff eraill ynghylch diogelu cynulleidfaoedd

5.19 Mae Ofcom yn ymgysylltu â llywodraethau, diwydiant a chyrff eraill i hyrwyddo diogelwch cynulleidfaoedd, yn enwedig plant ar draws amgylcheddau traddodiadol ac ar-lein. Rydym yn chwarae rhan weithredol i gefnogi Cyngor Diogelwch Rhyngrwyd Plant Llywodraeth y DU (UKCCIS). Rydym hefyd yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill ar draws Ewrop, drwy wasanaethau cyfryngau'r Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Clyweledol (ERGA), i wella'r amddiffyniad ar gyfer gwasanaethau clyweledol.

### Ymgysylltu â llywodraeth y DU, llywodraethau a gweinyddiaethau datganoledig a chyrff eraill ar faterion technegol a sbectrwm

5.20 Mae Ofcom yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU a llywodraethau a gweinyddiaethau datganoledig a nifer o gyrff eraill ar draws y DU, gan roi cyngor ar faterion technegol. Er enghraifft, rydym yn cynghori Llywodraeth y DU a llywodraethau a gweinyddiaethau datganoledig ar faterion sy'n ymwneud ag argaeledd drwy ein gwaith fel rhan o'r Tasglu Seilwaith Digidol ac rydym yn darparu cefnogaeth i wella darpariaeth symudol ar drenau. Rydym yn cefnogi Uned Rheoli Ganolog y Llywodraeth i gyflawni targed y Llywodraeth o ryddhau neu rannu'r sbectrwm mae adrannau'r Llywodraeth yn eu defnyddio ar hyn o bryd. Byddwn hefyd yn gweithio gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a sefydliadau eraill ar faterion megis ystyried atebion i broblemau preifatrwydd data ar gyfer y Rhyngrwyd Pethau.

### Ymgysylltu â rhanddeiliaid rhyngwladol

5.21 Mae Ofcom yn ymgysylltu â nifer o randdeiliaid rhyngwladol ym maes rheoleiddio cyfathrebiadau, i ddysgu o'u profiadau a sicrhau bod syniadau polisi sy'n dod i'r fei yn ymateb i anghenion defnyddwyr y DU. Rydym yn cyfrannu'n frwd at rwydweithiau rheoleiddio Ewropeaidd, gan gynnwys Rheoleiddwyr Cyfathrebiadau Electronig Ewrop (BEREC), y Grŵp Polisi Sbectrwm Radio (RSPG), y Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol (ERGA) a'r Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Post (ERGP). Rydym yn cynrychioli'r DU, o dan Gyfarwyddyd y Gweinidog, yn yr Undeb Telegyfathrebiadau Rhyngwladol (ITU) ac, fel rhan o hwn, yn arwain dirprwyaeth y DU yng

[13] https://www.ofcom.org.uk/cymru/research-and-data/telecoms-research/data-updates/q1-2016
[14] https://www.ofcom.org.uk/cymru/research-and-data/statistics/stats17

Nghynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd (WRC) ac yng Nghynulliad Safoni Telegyfathrebiadau’r Byd (WTSA).

Adran 6

# Sicrhau gwerth am arian

### Byddwn yn parhau i ddarparu arbedion effeithlonrwydd ac arbedion arian

6.1 Mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau ei hymrwymiad parhaus i leihau'r diffyg yn y cyllid cyhoeddus. Yng Nghyllideb y Gwanwyn, a gyhoeddwyd ar 8 Mawrth 2017, nodwyd bod disgwyl i gyrff sector cyhoeddus sicrhau rhagor o arbedion effeithlonrwydd, gan gyrraedd £3.5 biliwn o arbedion adnoddau erbyn 2019-20.

6.2 Bydd Ofcom yn parhau i chwarae ei ran o ran diwallu'r her yng nghyswllt arian cyhoeddus ac mae wedi ymrwymo i gyflawni gostyngiadau mewn termau real dros gyfnod yr Adolygiad o Wariant. Mae'r cynigion sydd wedi'u nodi ar gyfer 2017/18 yn adeiladu ar ein gwaith blaenorol i leihau ein cyllideb; mae Ofcom wedi sicrhau arbedion cyllidebol am 12 mlynedd yn olynol mewn termau real, a bydd yn parhau i leihau ein gwariant lle y gall wneud hynny.

### Ein cyllideb ar gyfer 2017/18

6.3 Mae ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2017/18 yn adlewyrchu'r arbedion effeithlonrwydd roeddem wedi'u nodi a'u gosod mewn Cynlluniau Blynyddol blaenorol, ac yn seiliedig arnynt. Mae hefyd yn adlewyrchu ein hymrwymiad i ddarparu gwerth am arian, sy'n arbennig o bwysig wrth i ni ymateb i heriau newydd yn y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio. Yn y Cynllun Blynyddol Drafft, a oedd yn destun ymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2016, cynigiwyd gennym ein bod yn gosod ein cyllideb yn £120.5m. Roedd hyn yn cynnwys capasiti cynyddrannol ar gyfer ein cyfrifoldebau newydd ar gyfer rheoleiddio'r BBC.

6.4 Ers hynny, rydym wedi bachu ar gyfle i gyflymu'r gwaith addasu rydym yn bwriadu ei wneud ar ein Pencadlys yn Llundain, a'i symud ymlaen o 2018/19 i 2017/18. Bydd dod â'r gwariant hwn ymlaen yn ein galluogi i gyflymu ein cynlluniau i leihau ein hôl troed yn Llundain o bron i 6 mis, a thrwy hynny yn sicrhau arbedion cost ychwanegol yn gynt nag y bwriedir yn wreiddiol. Er mwyn manteisio ar y cyfle hwn, rydym wedi gosod ein cyllideb ar gyfer 2017/18 yn £121.7m.

6.5 Gan eithrio'r costau ychwanegol sy'n ymwneud â'n cyfrifoldebau BBC newydd, a'r costau rydym yn eu symud o 2018/19 yng nghyswllt ein Pencadlys yn Llundain, mae ein cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn cynrychioli gostyngiad termau real o 1.8% ers 2016/17[15].

6.6 Mae'r Bil Economi Ddigidol nawr gerbron y Senedd, ac mae'n rhoi'r mesurau i symleiddio model cyllido Ofcom. Mae'r cynigion hyn yn golygu y byddai Ofcom yn cael ei ariannu'n gyfan gwbl drwy ffioedd a thaliadau gan y diwydiant, model mwy effeithlon sydd hefyd yn helpu i danlinellu ein hannibyniaeth.

6.7 Bydd y costau ar gyfer 2017/18 yn ôl sector rhanddeiliaid yn cael eu cyhoeddi yn ein Tablau Tariff, ochr yn ochr â'r Cynllun Blynyddol hwn. Mae ein cynllun gwaith yn cael ei adlewyrchu yn y tariffau rydym wedi'u gosod, a does dim newid wedi bod yn y dull rydym wedi'i ddefnyddio i gyfrifo'r costau hyn.

---

[15] Seiliedig ar ddatchwyddydd Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) Trysorlys EM.

## Sut byddwn yn rheoli ein hadnoddau yn 2017/18

6.8 Rydynm yn ystyried yn gyson sut yr ydym yn cyflawni ein gwaith i sicrhau bod yr hyn yr ydym yn ei wneud yn cefnogi ein nod i wneud i'r marchnadoedd cyfathrebu weithio i bawb. Os yw'r adnoddau'n gyfyngedig, byddwn yn gwneud dewisiadau, wedi'u tywys gan ein nodau a'n dyletswydd i hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr.

6.9 Rydym wedi datblygu nifer o gynlluniau a fydd yn ein galluogi i gyflawni ein swyddogaethau yn fwy effeithiol, a sicrhau arbedion costau hirdymor. Er enghraifft:

6.9.1 Rydym wedi adleoli nifer o swyddi i'n canolfannau yng Ngogledd Orllewin Lloegr a'r Alban, gan gynnwys Tîm Cyswllt Cwsmeriaid Ofcom a'r gwasanaethau trwyddedu sbectrwm. Yn ogystal â'n helpu ni i gynrychioli'r gwledydd a'r rhanbarthau yn fwy effeithiol, bydd hyn yn ein galluogi ni i leihau ein hôl troed yn Llundain a sicrhau arbedion costau sylweddol parhaus.

6.9.2 Rydym wedi dechrau prosiect gwaith Ystwyth i sicrhau ein bod yn defnyddio'r eiddo sydd ar ôl gennym mor effeithlon ac mor effeithiol ag sy'n bosibl.

6.9.3 Fel rhan o'n strategaeth TGCh, rydym wedi ail-gontractio ein darpariaeth TGCh (a chontractau prif gyflenwyr eraill) ac wedi symud rhai o'n swyddogaethau a'n systemau i lwyfannau yn y cwmwl. Mae hyn yn cefnogi ffordd fwy gydweithredol o weithio a byddwn yn parhau i arbed arian.

6.10 Fel y nodir yn Adran 3, un o'n blaenoriaethau yw darparu'r rhaglen glirio 700 MHz. Mae hyn yn cynnwys rhaglen sylweddol o addasiadau seilwaith i'r seilwaith trawsyrru teledu daearol digidol (DTT). Mae'r Llywodraeth yn ariannu hyn, ac rydym yn gweithredu cynllun grantiau i ddosbarthu'r arian dan sylw.

6.11 Mae sicrhau gwerth am arian wrth galon ein gwaith ar y cynllun grantiau. I'r perwyl hwn, mae gennym fframwaith sicrwydd cadarn ar waith er mwyn gwneud yn siŵr mai dim ond costau clirio cynyddrannol a geir yn effeithlon sy'n cael arian cyhoeddus. Fel rhan o'r fframwaith sicrwydd hwn bydd arbenigwyr technegol a phanel cynghori anweithredol annibynnol yn craffu'n fanwl ar geisiadau am grant.

6.12 Yn fwy cyffredinol, un rhan o'n gwaith y byddwn yn canolbwyntio arno yw sicrhau ein bod yn cwblhau'r rhaglen glirio 700MHz mewn ffordd sy'n sicrhau'r budd mwyaf posib i economi'r DU yn ehangach.

Atodiad 1

# Y rhaglen waith ar gyfer 2017/18

A1.1 Isod, rydym yn nodi ein rhaglen waith arfaethedig ar gyfer 2017/18. Rydym yn darparu manylion am y prosiectau sy'n sail i'n prif feysydd gwaith, fel y nodwyd yn Adran 3, yn ogystal â'n cynllun gwaith ehangach i gyflawni ein nodau.

## Hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol i ddefnyddwyr

### Galluogi gweithredwyr sy'n cystadlu â'i gilydd i fuddsoddi mewn rhwydweithiau llinell sefydlog cyflym iawn a thra chyflym

| Manylion y Prosiect | Cyfarwyddwr y Prosiect | Carreg Filltir |
|---|---|---|
| **Gwella mynediad at bolion telegraff a phibellau Openreach:** er mwyn cyflawni ein nod o'i gwneud hi'n haws ac yn fwy cost-effeithiol i ddarparwyr telegyfathrebiadau fuddsoddi mewn seilwaith rhwydwaith datblygedig lle mae cystadleuaeth gan ddefnyddio seilwaith polion a phibellau sydd eisoes ar gael, byddwn yn ystyried diwygiadau i sut mae darparwyr telegyfathrebiadau eraill yn cael mynediad i bolion a phibellau, gan edrych ar gostau a phrosesau, i sicrhau na fydd darparwyr telegyfathrebiadau o dan anfantais wrth gymharu â BT pan fyddant yn defnyddio polion a phibellau Openreach. | Paul Jacobus | Cyhoeddi ymgynghoriad: Ch1 2017/18; cyhoeddi datganiad: Ch4 2017/18 |
| **Cynnal yr Adolygiad o'r Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol (WLAMR):** mae'r WLAMR yn ymwneud â mynediad i'r seilwaith telegyfathrebiadau sefydlog. Mynediad Lleol Cyfanwerthol yw'r cysylltiad lleol o'r gyfnewidfa leol neu'r cabinet stryd i gartref y cwsmer neu eiddo'r busnes. Gall y cysylltiad hwn fod yn gopr, yn gebl neu'n ffibr ac fe'i defnyddir i ddarparu gwasanaethau llinell sefydlog megis galwadau llais a band eang. Byddwn yn ystyried beth yw'r drefn reoleiddio briodol ar gyfer cynnyrch ffibr, cynnyrch copr a mynediad goddefol (pibellau a pholion) | Timothy Cross | Cyhoeddi datganiad: Ch4 2017/18 |

## Hyrwyddo cystadleuaeth mewn gwasanaethau llinell sefydlog, drwy gryfhau annibyniaeth strategol a gweithredol Openreach ar BT

| | | |
|---|---|---|
| **Gweithredu'r model newydd ar gyfer rheoleiddio Openreach, gan gynnwys monitro cydymffurfiad â'r trefniadau newydd i gryfhau annibyniaeth Openreach:** byddwn yn rheoli'r broses bontio rheoleiddiol i'r model gwahanu cyfreithiol newydd a nodwyd gan BT. Byddwn yn sefydlu prosesau a swyddogaethau newydd i fonitro cydymffurfiad BT ac Openreach â Hysbysiad BT yn agos, er mwyn sicrhau bod y trefniadau newydd yn parhau i fynd i'r afael â'n pryderon o ran cystadleuaeth a'u bod o fudd i'r farchnad ehangach. Byddwn yn cynhyrchu cyfres o adroddiadau blynyddol yn manylu ar ein gwaith monitro ac adrodd. | Gaucho Rasmussen<br>Clive Carter | Datganiad ar y cynnig i ryddhau'r Ymgymeriadau, Ch1 2017/18<br><br>Cyhoeddi adroddiad monitro cychwynnol, chwe mis ar ôl i'r Ymrwymiadau ddod i rym, ac adroddiadau blynyddol parhaus wedi hynny. |

## Sicrhau bod gwybodaeth well a manylach ar gael i bobl ac i fusnesau a gwella eu gallu i ymgysylltu â'r farchnad.

| | | |
|---|---|---|
| **Gwella gallu defnyddwyr i newid:** byddwn yn penderfynu ar ddiwygiadau posibl i'r broses ar gyfer newid rhwng gwasanaethau symudol, ac yn pennu'r camau nesaf ar newid rhwng gwasanaethau tri-gwasanaeth (llinell dir, band eang a/neu wasanaethau teledu drwy dalu) rhwng llwyfannau. | Siobhan Pointer<br>Selina Chadha | Cyhoeddi ymgynghoriad ar newid darparwr gwasanaethau symudol Ch1 2017/18; cyhoeddi datganiad Ch3 2017/18; cyhoeddi'r camau nesaf ar wasanaethau tri-gwasanaeth Ch3 2017/18 |
| **Helpu Busnesau Bach a Chanolig i ymgysylltu â'r marchnadoedd cyfathrebiadau:** rydym yn bwriadu alinio ein gwaith â'r Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes y flwyddyn nesaf, lle byddwn ni'n ystyried sut gallwn ni hyrwyddo ymgysylltiad busnesau bach a chanolig mewn marchnadoedd cyfathrebu. | Jane Rumble | Dechrau asesu ochr yn ochr ag adolygiad o'r marchnadoedd cysylltedd busnes: Ch3 2017/18 |
| **Sicrhau bod gwefannau cymharu prisiau yn gallu helpu defnyddwyr i lywio drwy'r marchnadoedd cyfathrebu:** byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant a gwefannau cymharu prisiau i wella'r wybodaeth sydd ar gael i helpu defnyddwyr i ddewis gwasanaethau, ac yn ymgysylltu ag astudiaeth farchnad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd o offer cymharu digidol, ac yn datblygu camau gweithredu yn dilyn ei gasgliadau. | Elisa Pruvost | Cynnal archwiliadau rheolaidd o wefannau cymharu prisiau sydd wedi cael eu hachredu: Ch1-Ch4 2017/18 |

| | | |
|---|---|---|
| **Gwella'r wybodaeth ar argaeledd a chyflymderau band eang sefydlog**: byddwn yn parhau i ddarparu gwybodaeth hygyrch mae modd ei chymharu i ddefnyddwyr am argaeledd ac amcan ynghylch cyflymderau band eang sefydlog cyflym iawn a gwibgyswllt ac ar gyfer rhwydweithiau symudol. Ar gyfer rhwydweithiau sefydlog, byddwn yn darparu data penodol ar lefel aelwydydd. Bydd data penodol yn cael ei gyhoeddi yn ein hadroddiadau *'Connected Nations'* gydag offer gweledol cysylltiedig.<br><br>Hefyd, byddwn yn parhau i ddarparu diweddariadau i Dasglu Cynhwysiant a Seilwaith Digidol y llywodraeth ar gyflymderau band eang. | Gary Clemo | Cyhoeddi adroddiad Connected Nations a diweddaru'r offer defnyddwyr: Ch3 2017/18 |
| **Gwella'r teclyn i ddefnyddwyr am ddarpariaeth symudol a band eang:** byddwn yn ychwanegu swyddogaeth newydd at ein teclyn gwirio band eang er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth i ddefnyddwyr. Byddwn yn diweddaru'r data sy'n cael ei ddefnyddio yn y teclyn yn rheolaidd, gan weithio gyda'r diwydiant i edrych ar bosibilrwydd crynodebau data amser real. | Gary Clemo | Gwella'r teclyn i ddefnyddwyr: Ch3 2017/18 |
| **Monitro perfformiad band eang cartref**: rydym yn cynnal ymchwil sy'n edrych ar berfformiad cysylltiadau band eang llinell sefydlog preswyl yn y DU o ran nifer o fetrigau, a chyhoeddir y canlyniadau ar lefel DU a thechnoleg/pecyn darparwr gwasanaeth rhyngrwyd. | Nick Collins | Cyhoeddi adroddiad perfformiad: Ch4 2017/18 |
| **Monitro patrymau prisio**: byddwn yn cyhoeddi data ar batrymau mewn prisio, a byddwn yn asesu newidiadau mewn prisiau a strwythurau tariffau cyfathrebu, sut mae'r rhain yn cael eu hysbysebu, a sut maen nhw'n effeithio ar ddefnyddwyr gwahanol. | Nick Collins | Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar batrymau prisio: Ch4 2017/18 |
| **Cynnal yr adroddiad 'Dinasoedd Ffôn Clyfar':** rhaglen o fesur perfformiad rhwydweithiau symudol ar draws pedwar cwmni rhwydwaith symudol y DU. Mae'r prif fetrigau yn cynnwys cyflymder llwytho i lawr, amser llwytho tudalennau gwe a galwadau llais sy'n cael eu gollwng. | Beatrix Kalmar | Cyhoeddi adroddiad: Ch3 2017/18 |
| **Ap ymchwil i wasanaethau ffonau symudol:** rydym yn cynnal prosiect ymchwil ar sail ap sy'n mesur argaeledd rhwydwaith data symudol, perfformiad llais a data, profiad a chanfyddiadau defnyddwyr, a defnydd defnyddwyr o wasanaethau symudol. | Beatrix Kalmar | Cyhoeddi adroddiad: Ch4 2017/2018 |

| | | |
|---|---|---|
| **Darparu adroddiad ar ansawdd y gwasanaethau yn y sectorau symudol a sefydlog:** byddwn yn cyhoeddi amrywiaeth o fesurau ansawdd gwasanaeth i gwsmeriaid a rhwydwaith cymharol i ddarparwyr yn y sectorau cyfathrebu. | Sean O'Hara | Cyhoeddi adroddiad Ansawdd Gwasanaeth Blynyddol: Ch1 2017/18<br><br>Cyhoeddiadau cwynion a dull amgen o ddatrys anghydfod: chwarterol |
| **Diwygio'r cod Cyflymder Band eang yn unol â newidiadau i gyfarwyddebau Ewropeaidd:** byddwn yn diwygio'r Cod Ymarfer cyflymder band eang gwirfoddol ar gyfer busnesau a defnyddwyr preswyl, gan geisio gwella gwybodaeth am gyflymder; drwy newid i amcangyfrifon o gyflymder sy'n gallu adlewyrchu effaith cystadlu; gwella gallu cwsmeriaid i ganfod llwybrau uniongyrchol i wneud iawn pan fydd cyflymder yn disgyn o dan y lefel sylfaenol; sicrhau cysondeb gwybodaeth am gyflymder rhwng y Codau; ymgorffori gofynion gwybodaeth newydd a gyflwynir gan y rheoliad Marchnad Sengl Telegyfathrebu; a darparu arweiniad ar ofynion gwybodaeth am gyflymder y Farchnad Sengl Telegyfathrebu. | Elisa Pruvost | Cyhoeddi codau drafft: Ch2 2017/18; cyhoeddi datganiad Ch3 2017/18 |

### Sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol er mwyn darparu ystod eang o gynnwys amrywiol ac o ansawdd uchel ar gyfer cynulleidfaoedd darlledu

| | | |
|---|---|---|
| **Rheoleiddio effaith y BBC ar gystadleuaeth deg ac effeithiol:** byddwn yn rheoleiddio effaith y BBC ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, gan gynnwys drwy asesu a ydy gwerth cyhoeddus posibl gwasanaethau newydd a gynigir gan y BBC (neu newidiadau sylweddol i wasanaethau sydd eisoes yn bodoli) yn cyfiawnhau unrhyw effaith bosibl ar gystadleuaeth.[16] | Siobhan Walsh | Yn parhau |
| **Cynnal Prawf Lles y Cyhoedd ar gyfer pryniant arfaethedig Sky plc gan Twenty-First Century Fox Inc:** yn unol â hysbysiad ymyriad Ewropeaidd yr Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd ar 16 Mawrth 2017, byddwn yn darparu cyngor ac argymhelliad ar effeithiau'r pryniant arfaethedig ar faterion sy'n ymwneud â lles y cyhoedd yng nghyswllt (i) lluosogrwydd yn y cyfryngau ac (ii) ymrwymiad i safonau darlledu. | Richard Wronka | Byddwn yn darparu ein cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol erbyn 16 Mai 2017. |

[16] Am fanylion ein dull ar gyfer rheoleiddio'r BBC, ewch i https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/ofcom-and-the-bbc

**Prosiectau eraill i hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol**

<u>Rhyngwladol</u>

| | | |
|---|---|---|
| **Fframwaith Cyfathrebiadau Electronig yr UE:** cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd gynigion yn adolygu'r Fframwaith Cyfathrebiadau Electronig ym mis Medi 2016. Rydym yn gweithio gyda sefydliadau Ewropeaidd, rheoleiddwyr Ewropeaidd eraill a Llywodraeth y DU i gyfrannu at y ddadl, i sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaeth newydd yn gymesur, yn adlewyrchu'r heriau sy'n wynebu'r sector ac yn diwallu anghenion defnyddwyr heddiw ac yn y dyfodol. | Camilla Bustani | Disgwyl mabwysiadu'r cynigion: Ch1 2017/18 |
| **Cyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol**: cafodd cynigion yn adolygu'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol eu cyhoeddi ym mis Mai 2016. Mae ein hymgysylltiad Ewropeaidd yn ceisio sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio'n dal i roi'r warchodaeth y mae cynulleidfaoedd yn ei disgwyl ac i hyrwyddo marchnad cynnwys Ewropeaidd fywiog yn yr oes ddigidol. | Jeremy Olivier | Disgwyl mabwysiadu'r cynigion: Ch4 2017/18 |
| **Parseli ar draws ffiniau:** byddwn yn parhau i gynnig cyngor i'r Llywodraeth ynghylch y cynigion ar gyfer Rheoliad i gynyddu goruchwyliaeth a thryloywder gwasanaethau danfon parseli ar draws ffiniau yn yr UE, yn cynnwys y diwygiadau a gynigiwyd yn Senedd Ewrop a Chyngor Ewrop, ac yn gweithio gyda'r Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Post (ERGP) i roi unrhyw fesurau y cytunir arnynt ar waith. | Vince Affleck | Disgwyl mabwysiadu'r cynigion: Ch3 2017/18 |

| | | |
|---|---|---|
| **Gweithredu pecyn Cyfandir Cysylltiedig yr UE:** mae gwaith yn mynd rhagddo i weithredu dwy elfen y Rheoliad Marchnad Sengl Telegyfathrebu.<br><br>Rydym yn monitro cydymffurfiad Darparwyr Gwasanaethau Rhyngrwyd â'r rheolau newydd ynghylch rheoli traffig data, a rhagor o dryloywder i ddefnyddwyr ynghylch cyflymder bang eang, a sut gallai arferion rheoli traffig effeithio ar ansawdd eu gwasanaeth rhyngrwyd.<br><br>O fis Mehefin 2017 ymlaen, bydd defnyddwyr sydd â gwasanaethau crwydro yn gallu defnyddio eu ffonau dramor yn yr UE heb gostau ychwanegol, yn amodol ar rai mesurau diogelu. Rydym yn cyfrannu at ganllawiau BEREC (rhwydwaith yr EE o reoleiddwyr telegyfathrebu) ar y rheolau newydd hyn. Rydym hefyd yn monitro cydymffurfiad â'r rheolau presennol ac, o fis Mehefin 2017 ymlaen, byddwn yn monitro cydymffurfiad â'r rheolau crwydro newydd. | Katherine Morrison, Eric Bash, Brian Potterill, a Camilla Bustani | Gweithredu niwtraliaeth net drwy gydol 2017/18; adroddiad blynyddol cyntaf i'r Comisiwn ym mis Mehefin 2017; rheolau crwydro newydd yn dod i rym ym mis Mehefin 2017 |

<u>Adolygiadau o'r farchnad</u>

| | | |
|---|---|---|
| **Cynnal ein hadolygiad o'r farchnad Mynediad Band Eang Cyfanwerthol**: mae'r farchnad mynediad band eang cyfanwerthol yn ymwneud â chynnyrch band eang cyfanwerthol mae darparwyr cyfathrebiadau'n yn eu cyflenwi, yn eu darparu iddyn nhw eu hunain ac yn eu gwerthu i'w gilydd. Gellir defnyddio'r gwasanaethau hyn fel un o sylfeini'r cynigion band eang adwerthol y mae defnyddwyr yn eu prynu. Un o'r penderfyniadau pwysig i ni yn yr adolygiad hwn fydd i ba raddau y gallwn ddadreoleiddio'r farchnad hon ymhellach. | Caroline Longman | Cyhoeddi ymgynghoriad: Ch1 2017/18<br><br>Cyhoeddi datganiad: Ch4 2017/18 |
| **Cynnal ein Hadolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes:** byddwn yn cynnal asesiad cystadleuaeth o'r farchnad ar gyfer llinellau ar brydles yn y DU. | Keith Hatfield (interim) | Dechrau adolygiad o'r marchnadoedd cysylltedd busnes: Ch3 2017/18 |

| | | |
|---|---|---|
| **Cynnal yr adolygiad o'r farchnad terfynu galwadau symudol:** Bydd prosiect Marchnad Terfynu Galwadau Symudol 2018 yn cynnal adolygiad o'r farchnad o derfynu galwadau symudol yn y DU gyda'r nod o osod rheoliadau newydd, os bydd angen, erbyn 31 Mawrth 2018, pan fydd y rheolaeth bresennol ar ffioedd ar gyfraddau terfynu galwadau symudol yn dod i ben. Mae'r gwasanaeth terfynu galwadau symudol yn wasanaeth cyfanwerthol a ddarperir gan ddarparwyr cyfathrebu symudol i gysylltu galwad â derbynnydd ar ei rwydwaith. Pan fydd darparwyr cyfathrebiadau sefydlog neu symudol yn gadael i'w cwsmeriaid ffonio rhif ffôn symudol yn y DU, maent yn talu ffi gyfanwerthol i'r darparwr cyfathrebiadau symudol sy'n terfynu'r alwad, sef cyfradd terfynu galwadau symudol. Mae'r cyfraddau MTR yn cael eu gosod fesul munud, ac yn cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd. | Valeria Baiamonte | Cyhoeddi ymgynghoriad: Ch1 2017/2018; cyhoeddi datganiad: Ch4 2017/18 |
| **Cynnal adolygiad o'r farchnad band cul**: bydd yr adolygiad yn ystyried y cynnyrch a'r gwasanaethau sy'n sail i ddarparu gwasanaethau ffôn sefydlog adwerthol yn y DU. Byddwn yn cwblhau ein hadolygiad o'r farchnad band cul yn 2017/18. Mae cwmpas yr adolygiad hwn yn ehangach na'n hadolygiad blaenorol yn 2013; mae hwn yn cynnwys tair marchnad mynediad band cul (llinellau cyfnewid analog sefydlog cyfanwerthol, ISDN2 cyfanwerthol ac ISDN30 cyfanwerthol) yn ogystal â tharddiad galwadau cyfanwerthol, terfynu galwadau cyfanwerthol a chylchedau rhyng-gysylltu. | Louise Marriage | Cyhoeddi datganiad: Ch3 2017/18 |

<u>Monitro, modelu cost, adrodd a gorfodi</u>

| | | |
|---|---|---|
| **Monitro teledu drwy dalu:** byddwn yn parhau i fonitro unrhyw bryderon mewn perthynas â mynediad at gynnwys teledu drwy dalu (gan gynnwys cyflenwi cynnwys chwaraeon premiwm) a llwyfannau teledu, gan ein galluogi i gamu i mewn yn gyflym os bydd angen. | Yih-Choung Teh | Yn parhau |
| **Modelu cost y gwasanaeth post**: creu model costio i'n helpu i lunio ein barn ein hunain am gostau rhwydwaith danfon y Post Brenhinol. | Chris Rowsell | Dechrau'r prosiect: Ch1 2017/18 |

| | | |
|---|---|---|
| **Adolygiad o adroddiadau ariannol ôl-reoleiddiol**: ymgynghori ar gynigion ar gyfer diwygio'r Amod Cyfrifyddu USP a'r Canllawiau Cyfrifyddu Rheoleiddio i sicrhau eu bod yn dal yn addas i'r diben a gwneud rhai newidiadau technegol i weithrediad manwl y rheolaeth gwasgu elw (Rhan o'r Amod Mynediad ar Ddarparwyr Gwasanaeth Cyffredinol). | Chris Rowsell | Cyhoeddi datganiad: Ch3 2017/18 |
| **Adolygiad o ansawdd gwasanaeth**: byddwn yn adolygu a yw'r broses reoleiddio o ran ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol yn dal yn briodol yn sgil datblygiadau yn y farchnad. | Chris Rowsell | Cyhoeddi ymgynghoriad: Ch1 2017/18; cyhoeddi datganiad: Ch3 2017/18 |
| **Adolygu'r cyllid ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau post a chyrff eiriolaeth defnyddwyr:** byddwn yn adolygu'r dull o adennill costau rheoleiddio a chostau cyrff eiriolaeth defnyddwyr yng nghyswllt gwasanaethau post. | Chris Rowsell | Cyhoeddi ymgynghoriad: Ch1 2017/18; cyhoeddi datganiad: Ch3 2017/18 |
| **Gorfodi cystadleuaeth:** byddwn yn parhau i orfodi'r amodau rheoleiddio rydym yn eu gosod ar ddarparwyr cyfathrebiadau sydd â ffocws cystadleuaeth, ac i benderfynu ar anghydfodau rhwng gwasanaethau a darparwyr rhwydweithiau cyfathrebu electronig. Byddwn yn gorfodi gofynion sy'n ymwneud â chystadleuaeth sy'n berthnasol i'r BBC o dan ei Siarter a'i Gytundeb, ac o dan y Fframwaith Gweithredu a osodwyd gan Ofcom. Byddwn hefyd yn parhau i asesu cwynion a chynnal ymchwiliadau o dan ddeddf cystadleuaeth. | Gaucho Rasmussen | Yn parhau |
| **Ymchwiliad Whistl UK / y Post Brenhinol:** Ar hyn o bryd rydym yn ymchwilio i un gŵyn o dan ein pwerau cyfraith cystadleuaeth: cwyn gan Whistl UK ynghylch y prisiau a'r telerau ac amodau a gynigir gan y Post Brenhinol ar gyfer rhoi mynediad at wasanaethau danfon llythyrau penodol. | Gaucho Rasmussen | Penderfyniad terfynol 2017/18 |

Radio

| | | |
|---|---|---|
| **Darlledu Sain Ddigidol (DAB) ar Raddfa Fach:** byddwn yn datblygu cynlluniau ar gyfer gweithredu a thrwyddedu DAB ar raddfa fach. | Neil Stock/Peter Madry | Yn parhau |
| Rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Adolygu llwyddiant y cynigion ynghylch rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol:** ym mis Gorffennaf 2015 daeth y rheoliad diwygiedig ynghylch rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol gyda rhannu refeniw a Rhadffôn i rym. Roedden ni wedi ymrwymo i adolygu llwyddiant y newidiadau hyn ar ôl 12 mis o weithredu. Byddwn yn cynnal ymchwil i'r farchnad gyda defnyddwyr ac yn dadansoddi'r traffig gyda'r nod o ddeall sut mae'r newidiadau wedi effeithio ar ymddygiad a dealltwriaeth defnyddwyr. Os daw'r dadansoddiad hwn o hyd i unrhyw feysydd pryder byddwn yn ystyried a oes angen rhagor o newidiadau rheoleiddio. | Markham Sivak | Yn parhau |

## Sicrhau safonau a gwella ansawdd

### Gwella darpariaeth gwasanaethau cyfathrebu sefydlog a symudol i ddiwallu anghenion defnyddwyr a busnesau ledled y DU

| | | |
|---|---|---|
| **Y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol:** byddwn yn cefnogi unrhyw benderfyniad gan y Llywodraeth ynghylch polisi Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol band eang, gan gynnwys, os yw'n briodol, llunio rheoliadau ar gyfer dynodi darparwyr gwasanaeth cyffredinol, dynodi darparwyr gwasanaeth cyffredinol fel sy'n briodol a sefydlu mecanwaith cyllido. | Ana Serodio | I'w gadarnhau (yn amodol ar benderfyniad y Llywodraeth) |
| **Gwella darpariaeth symudol:** byddwn yn datblygu polisïau i sicrhau darpariaeth symudol well dan do ac yn yr awyr agored. Byddwn yn gwneud hyn drwy sicrhau bod rhwymedigaethau darpariaeth presennol yn cael eu diwallu, cyflwyno rhwymedigaethau newydd wedi'u targedu pan fo hynny'n briodol a drwy ystyried dewisiadau sbectrwm i gefnogi cysylltedd ar drenau. Mae mesurau eraill yn cynnwys datblygu rheolau newydd i ganiatáu defnyddio cyfarpar mwyhau symudol sydd wedi'u heithrio o drwydded er mwyn helpu defnyddwyr i wella'r ddarpariaeth yn eu cartref. | Charles Jenne | Cyhoeddi ymgynghoriad ynghylch rhwymedigaeth newydd mewn trwyddedau 700 MHz: Ch3-Ch4 2017/2018 |
| **Clirio Sbectrwm 700 MHz:** byddwn yn parhau i weithio i glirio gwasanaethau teledu daearol digidol a gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig oddi ar y band 700 MHz er mwyn rhyddhau'r sbectrwm hwn ar gyfer data symudol. Fel rhan o'n gwaith yn y maes hwn byddwn yn parhau i weinyddu cynllun grantiau i ariannu'r costau ychwanegol a gaiff darlledwyr o ganlyniad i'r newidiadau mewn seilwaith sy'n gysylltiedig â chlirio 700 MHz. Byddwn hefyd yn gweithio i ddatblygu cynllun | Mark Walls/Graham Plumb/Helen Hearn | Cyhoeddi ymgynghoriad ar gydfodoli a dewisiadau adfer, Ch1 2017/18<br><br>Cyhoeddi adolygiad ffurfiol o amseriad y clirio: Ch2 2017/18 |

| | | |
|---|---|---|
| grantiau i ariannu cyfran o'r costau mae defnyddwyr gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig yn eu hwynebu o ganlyniad i golli mynediad at y band 700 MHz. Byddwn yn adolygu'r dyddiad targed ar gyfer clirio sbectrwm 700 MHz yn ystod haf 2017. Ein hamcan ar hyn o bryd ydy sicrhau bod y band 700 MHz ar gael i wasanaethau symudol erbyn mis Mai 2020. | | |
| **Dyfarnu sbectrwm 700 MHz:** byddwn yn dechrau gweithio i baratoi arwerthiant ar gyfer y band 700 MHz. Mae'r materion byddwn ni'n eu hystyried fel rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys: dyluniad yr arwerthiant; beth fydd ffurf unrhyw rwymedigaethau darpariaeth a fydd yn y trwyddedau 700 MHz; a pa fesurau, os o gwbl, dylen ni eu cymryd i sicrhau bod yr arwerthiant yn hyrwyddo cystadleuaeth yn y farchnad symudol. Rydym yn disgwyl cynnal yr arwerthiant ddiwedd 2018 neu 2019. | Mark Caines/Luis Gaspar | Yn parhau |
| **Cefnogi'r diwygiadau i'r Cod Cyfathrebiadau Electronig:** mae'r Bil Economi Ddigidol, sydd wrthi'n symud drwy'r Senedd, yn cynnwys mesurau i ddiwygio'r Cod Cyfathrebiadau Electronig, sy'n ei gwneud yn haws i weithredwyr rhwydwaith gyflwyno seilwaith ar dir preifat a thir cyhoeddus. Mae'r Bil yn cynnwys rhwymedigaethau ar Ofcom i gyhoeddi cod ymarfer i gyd-fynd â'r newidiadau arfaethedig i'r Cod Cyfathrebiadau Electronig, ochr yn ochr â hysbysiadau templed a thelerau cytundeb safonol. Cyhoeddon ni ein hymgynghoriad sy'n cynnwys fersiynau drafft o'r dogfennau hyn ar 24 Mawrth 2017. | Huw Saunders | Cyhoeddi datganiad Ch3 2017/18 |

**Gwella ansawdd gwasanaeth mewn gwasanaethau telegyfathrebiadau sefydlog a symudol ar gyfer defnyddwyr a busnesau**

| | | |
|---|---|---|
| **Ansawdd gwasanaeth band eang sefydlog a llinell dir cyfanwerthol:** byddwn yn parhau i fonitro ansawdd gwasanaeth Openreach yn y farchnad mynediad sefydlog. Yn dilyn cyhoeddi casgliadau cychwynnol ein hadolygiad strategol o Gyfathrebiadau Digidol, bwriadwn osod a gorfodi targedau ansawdd mwy llym ar rwydwaith Openreach drwy'r adolygiad o'r farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol. Ar ben ein gwaith ar yr adolygiad o'r farchnad, byddwn yn ystyried sut i annog darparwyr cyfathrebiadau i rannu gwybodaeth a throsglwyddo'r wybodaeth hon i ddefnyddwyr er mwyn gwella canlyniadau. | Ali Abbas-Ali | Cyhoeddi datganiad: Ch4 2017/18 |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyflwyno iawndal awtomatig ar gyfer defnyddwyr:** byddwn yn cwblhau ein gwaith o gyflwyno gofynion i ddarparwyr cyfathrebiadau roi iawndal yn awtomatig i ddefnyddwyr pan fydd pethau'n mynd o chwith. | Tanja Salem | Cyhoeddi datganiad: Ch3 2017/18 |

**Cynyddu capasiti rhwydweithiau symudol drwy sicrhau bod digon o sbectrwm ar gael**

| | | |
|---|---|---|
| **Dyfarnu'r bandiau sbectrwm 2.3 a 3.4GHz:** byddwn yn bwrw ymlaen ag arwerthiant o'r sbectrwm 2.3 a 3.4 GHz – sydd wedi cael ei ryddhau i Ofcom o dan raglen Rhyddhau Sbectrwm Sector Cyhoeddus y Llywodraeth. | Mark Caines | Cyhoeddi datganiad yn nodi trefniadau arwerthiant: Ch1 2017/18 |
| **Sicrhau ansawdd mewn Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus** | | |
| **Dal y BBC i gyfrif am berfformiad**: byddwn yn ymgynghori ynghylch ein ffordd o ddal y BBC i gyfrif am gyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus. Bydd hyn yn cynnwys Trwydded Weithredu ddrafft ar gyfer trefn Gwasanaethau Cyhoeddus y DU yn ogystal â mesurau a fydd wedi'u hanelu at sicrhau bod allbwn y BBC yn unigryw, yn cynrychioli amrywiaeth y DU ac yn cynrychioli ac yn portreadu pobl yn y DU yn gywir ac yn ddilys yn ei allbwn a'i wasanaethau. | Jacquie Hughes | Trwydded weithredu mewn lle Ch2/Ch3 2017/18 |
| **Ymateb i Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau blynyddol Corfforaeth Channel 4:** byddwn yn cyhoeddi dadansoddiad ynghylch sut mae Corfforaeth Channel 4 yn cyflawni ei dyletswyddau mewn perthynas â chynnwys cyfryngau. | Simon Terrington | Cyhoeddi adroddiad: Ch1 2017/18 |

**Sicrhau bod darlledu yn cynrychioli ac yn portreadu cymdeithas y DU yn gywir**

| | | |
|---|---|---|
| **Monitro amrywiaeth a chyfle cyfartal yn y maes darlledu:** byddwn yn cyhoeddi adroddiad monitro blynyddol newydd ar Amrywiaeth mewn Darlledu, ar sail data cyfle cyfartal a gwybodaeth am gynlluniau amrywiaeth gan ddarlledwyr. Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi darlun cynhwysfawr o sut mae pob darlledwr – a'r diwydiant drwyddo draw – yn perfformio yng nghyswllt amrywiaeth staff. | Tony Close | Cyhoeddi adroddiad monitro: Ch2 2017/18 |

## Prosiectau eraill i sicrhau safonau a gwella ansawdd

Diogelwch, monitro, prisio a hygyrchedd

| | | |
|---|---|---|
| **Diogelwch a chadernid rhwydweithiau:** rydym ar ganol diweddaru ein canllawiau ar yr ystod lawn o ofynion diogelwch ar gyfer gweithredwyr rhwydweithiau mewn perthynas â phatrymau a materion technoleg newydd, yn enwedig wrth ystyried seiberddiogelwch a pheryglon cysylltiedig. Bydd yr arweiniad yn nodi ein disgwyliadau ar gyfer dull gweithredu sy'n seiliedig ar risg ar gyfer rheoli diogelwch, yn tynnu sylw at ffynonellau priodol o ymarfer gorau yn y diwydiant ac yn rhoi manylion ein gofynion o ran adrodd ar ddigwyddiadau. | Huw Saunders | Cyhoeddi ymgynghoriad: Ch1 2017/18; cyhoeddi canllawiau: Ch2 2017/18 |
| **Monitro ansawdd gwasanaeth cynnyrch mynediad copr a ffibr Openreach:** byddwn yn sicrhau bod Openreach yn diwallu'r safonau ansawdd sylfaenol a nodir yn ein Datganiad ar yr Adolygiad o'r Farchnad Mynediad Sefydlog a'n Datganiad ar yr Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes, ac yn dod o hyd i unrhyw faterion gydag ansawdd cynnyrch mynediad sefydlog Openreach. | Gideon Senensieb | Yn parhau |
| **Codi tâl ychwanegol am barseli:** Bydd Ofcom yn parhau i weithio gyda Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor Defnyddwyr Cyffredinol Gogledd Iwerddon er mwyn ceisio deall yn well beth yw achos ac effaith codi tâl ychwanegol ar barseli yng Ngogledd Iwerddon ac yn Ucheldir ac Ynysoedd yr Alban. | Chris Rowsell | Yn parhau |
| **Hyrwyddo hygyrchedd ar deledu a Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad:** gan gynnwys gweithredu gofynion arwyddo ar gyfer sianeli annomestig, a gweithio gyda'r diwydiant i wella ansawdd is-deitlo byw. | Tony Close | Yn parhau |

Adrodd ar y meysydd telegyfathrebiadau, y cyfryngau, darlledu a phost

| | | |
|---|---|---|
| **Adrodd ar farchnad gyfathrebu'r DU:** byddwn yn parhau i gynhyrchu ein cyfres reolaidd o adroddiadau blynyddol yn edrych ar y sector cyfathrebu ledled y DU ac yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r adroddiadau'n cynnwys data ar ddarllediadau teledu a radio, ffonau llinellau sefydlog a symudol, y defnydd o'r rhyngrwyd a'r | Ian Macrae | Cyhoeddi adroddiad ar y farchnad gyfathrebu: Ch2 2017/18 |

| | | |
|---|---|---|
| post, ynghyd â dadansoddiad ohonynt. | | |
| **Adrodd ar y farchnad gyfathrebu ryngwladol:** byddwn yn parhau i gynhyrchu ein hadroddiad blynyddol rheolaidd a fydd yn darparu data rhyngwladol mae modd ei gymharu ynghylch y sector cyfathrebiadau. Nod yr adroddiad yw meincnodi sector cyfathrebiadau'r DU yn erbyn nifer o wledydd cymharol er mwyn asesu sut mae'r DU yn perfformio mewn cyd-destun rhyngwladol. | Ian Macrae | Cyhoeddi adroddiad ar y farchnad gyfathrebu ryngwladol: Ch3 2017/18 |
| **Adroddiad Blynyddol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus 2017:** mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer asesu'r gwaith o gyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus (PSB) gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar y sianeli PSB. | Guy Holcroft | Cyhoeddi adroddiad: Ch2 2017/18 |
| **Adrodd ar Gydymffurfiad Gwasanaeth Cyhoeddus, Rhaglenni sy'n cael eu gwneud y tu allan i Lundain, a Gwasanaethau Mynediad:** byddwn yn cyhoeddi nifer o adroddiadau ar gydymffurfiad darlledwyr gyda gofynion penodol. Mae'r Adroddiad Cydymffurfiad Gwasanaeth Cyhoeddus Blynyddol yn crynhoi perfformiad y sianeli Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus ar amrywiaeth o gwotâu. Mae'r Gofrestr Rhaglenni a wneir y Tu Allan i Lundain yn cofnodi teitlau rhaglenni mae Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus wedi ardystio eu bod wedi "Cael eu gwneud y tu allan i Lundain" a'u darlledu yn ystod 2016. Yn olaf, mae'r Adroddiadau Gwasanaethau Mynediad Teledu yn nodi cydymffurfiad darlledwyr â'r gofyniad i sicrhau bod cyfran benodol o'u rhaglenni yn cynnwys is-deitlau, iaith arwyddion a disgrifiadau sain. | Stephen Barrett | Cyhoeddi adroddiadau:<br><br>Ch2 a Ch4 2017/18 |
| **Adrodd ar agweddau a defnydd oedolion a phlant o gyfryngau:** fel rhan o'n dyletswyddau llythrennedd yn y cyfryngau, byddwn yn cyhoeddi adroddiadau a fydd yn rhoi data ar agweddau a defnydd oedolion a phlant ar draws teledu, radio, gemau, darpariaeth symudol a'r rhyngrwyd, gan ganolbwyntio'n benodol ar agweddau a defnydd ar-lein. | Alison Preston | Cyhoeddi adroddiad oedolion: Ch1 2017/18<br><br>Cyhoeddi adroddiad plant: Ch3 2017/18 |
| **Adroddiad ar Gael Gafael ar Newyddion 2017:** bydd yr adroddiad hwn yn rhoi data am amrywiol fesurau o ran cael gafael ar newyddion, gan gynnwys y ffynonellau a'r llwyfannau sy'n cael eu defnyddio, y defnydd a wneir o newyddion lleol, a phwysigrwydd tybiedig darparwyr newyddion | Alison Preston | Cyhoeddi adroddiad: Ch1 2017/2018 |

| | | |
|---|---|---|
| gwahanol, agweddau at ffynonellau newyddion unigol, y rhesymau mae pobl yn dilyn newyddion, a chael gafael ar newyddion yn y gwledydd. | | |
| Sbectrwm | | |
| **Paratoi i ddarparu sbectrwm ar gyfer 5G:** rydym yn paratoi i ddarparu sbectrwm ar gyfer 5G mewn ffordd briodol ac amserol. Rydym wedi dechrau ar raglen waith sy'n canolbwyntio ar ddewisiadau i wneud y band 26 GHz cyfan ar gael ar gyfer 5G yn y DU, neu ran ohono. Mae'r band hwn wedi cael ei adnabod fel band "arloesol" ar gyfer Ewrop. Byddwn yn parhau i chwarae rôl allweddol yn y trafodaethau rhyngwladol ar fandiau ar gyfer 5G yn y Gynhadledd Ewropeaidd ar Weinyddiaethau Post a Thelegyfathrebu a'r Undeb Telegyfathrebiadau Rhyngwladol, ac yn paratoi ar gyfer y Gynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd nesaf yn 2019, lle mae disgwyl adnabod bandiau sbectrwm ar gyfer 5G yn fyd-eang. | Cristina Data | Cyhoeddi ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer 26 GHz: Ch1 2017/18<br><br>Cyhoeddi map ar gyfer rhagor o fandiau ar gyfer 5G: Ch1 2017/18 |
| **Ehangu mynediad symudol mewn Cynnig 3.6-3.8 GHz:** byddwn yn datblygu cynnig i ehangu mynediad data symudol/5G yn y band 3.6-3.8 GHz. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys paratoi i ddyfarnu'r band, yn amodol ar ymgynghoriad. | Cristina Data | Ch2 2017/18 |
| Strategaeth Sbectrwm Di-wifr Sefydlog: rydym yn cynnal adolygiad o'r sbectrwm sydd ar gael ac sydd ei angen ar gyfer ôl-gludo di-wifr sefydlog a defnyddiau di-wifr sefydlog eraill, yn arbennig yng nghyd-destun y galw cynyddol am systemau 5G a'r diddordeb mewn bandiau uwch. Bydd ein canfyddiadau'n dylanwadau ar ein polisi yn y sector hwn. | Alex Dixon | Cyhoeddi'r Ymgynghoriad ar Strategaeth Sbectrwm Di-wifr Sefydlog, Ch2 2017/18; cyhoeddi datganiad Ch4 2017/18 |
| **Y Gyfarwyddeb Offer Radio 2014/53/EU:** Mae'r gyfarwyddeb hon yn cysoni cyfreithiau'r Aelod-wladwriaethau o ran cyflwyno offer radio ar y farchnad. Mae Ofcom yn awdurdod gorfodi gyda dyletswydd i orfodi, diogelu a rheoli'r sbectrwm radio. Rydym yn paratoi ar gyfer cyflawni ein rhwymedigaethau statudol ar ôl y trosi i gyfraith genedlaethol. | Clive Corrie | Cyflawni ein cyfrifoldebau newydd o 13 Mehefin 2017 ymlaen |
| **Strategaeth Data Symudol:** byddwn yn parhau i ddiweddaru ein map sbectrwm i gefnogi'r twf mewn data symudol. | Cristina Data | Yn parhau |

| | | |
|---|---|---|
| **Cefnogi sbectrwm sydd wedi'i eithrio o drwydded ar gyfer y twf mewn data di-wifr:** byddwn yn parhau i adolygu gofynion sbectrwm i gefnogi'r galw gan ddefnyddwyr am WiFi. | Cristina Data | Cyhoeddi datganiad ar Wi-Fi 5.8 GHz: Ch1 2017/18 |
| **Rhannu gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig yn y band 960 i 1164 MHz:** yn dilyn ein penderfyniad i ganiatáu i raglenni pŵer isel sain gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig weithredu yn y band 960 i 1164 MHz rydym nawr yn gweithio ar roi'r trefniant hwn ar waith. Mae modd awdurdodi mynediad i'r sbectrwm nawr, ac rydym yn integreiddio hyn i'n system trwyddedu ar-lein. | Helen Hearn | Yn parhau |

## Diogelu defnyddwyr rhag niwed

### Amddiffyn cynulleidfaoedd rhag cynnwys niweidiol mewn gwasanaethau teledu, radio ac ar-alwad

| | | |
|---|---|---|
| **Parhau i sicrhau bod cynnwys darlledu ac ar-alwad yn diwallu safonau perthnasol:** mae hyn yn cynnwys ystyried cwynion a materion cynulleidfaoedd o dan y Cod Darlledu a chodau perthnasol eraill. | Tony Close | Yn parhau |
| **Gwreiddio ein dyletswyddau newydd ar gyfer ystyried cwynion am y BBC sy'n cael eu cyfeirio at Ofcom yn ein rhaglen barhaus o waith ar safonau cynnwys:** eleni, am y tro cyntaf, byddwn ni'n gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn diwallu holl safonau cynnwys gofynnol y Cod Darlledu, gan gynnwys didueddrwydd, cywirdeb a chyfeiriadau masnachol. | Tony Close | Yn parhau |

### Sicrhau bod cwsmeriaid llinell dir yn unig yn cael gwerth am arian gan wasanaethau llais

| | | |
|---|---|---|
| **Gwella'r canlyniadau ar gyfer cwsmeriaid llinell dir yn unig:** byddwn yn ystyried ymatebion priodol i bryderon am y farchnad llinell dir adwerthu band cul yn unig. Bydd unrhyw gamau a fabwysiedir yn ceisio sicrhau bod cwsmeriaid llinell dir yn unig (nifer ohonynt yn gwsmeriaid oedrannus) yn elwa o ddewis a gwerth am arian. | Markham Sivak | Cyhoeddi datganiad: Ch3 2017/18 |

## Mynd i'r afael â galwadau niwsans

| | | |
|---|---|---|
| **Monitro a blocio traffig galwadau problemus:** byddwn yn gweithio gyda darparwyr cyfathrebiadau'r DU i fonitro a blocio traffig galwadau problemus o dan y memorandwm cyd-ddealltwriaeth y cytunwyd arno ym mis Tachwedd 2015 a chyda phartneriaid rhyngwladol ar orfodi a dilysu gwasanaeth adnabod y galwr. | Huw Saunders | Parhaus; cyhoeddi ymgynghoriad ar ganllawiau Gwasanaethau Adnabod y Galwr: Ch2 2017/18 |

## Prosiectau eraill i ddiogelu defnyddwyr rhag niwed

| | | |
|---|---|---|
| **Ymateb i faterion wrth iddynt godi:** fel rhan o'n rhaglen barhaus o ymchwiliadau, bydd Ofcom yn parhau i ymateb i faterion defnyddwyr wrth iddynt godi yn ystod y flwyddyn. | Lynn Parker | Yn parhau |
| **Adroddiad ar agweddau cynulleidfaoedd at y cyfryngau darlledu:** byddwn yn cyhoeddi adroddiad sy'n edrych ar agweddau cynulleidfaoedd at gynnwys ar deledu a radio, gan gynnwys lefelau tybiedig o niwed a thramgwydd. | Vanessa Hyland | Cyhoeddi adroddiad: Ch1 2017/18 |
| **Ystyried yr offer i ddiogelu plant rhag cynnwys amhriodol:** byddwn yn ystyried a yw'n briodol diweddaru rheolau yn y Cod Darlledu sy'n ymwneud â diogelu plant. Yn benodol, byddwn yn ystyried a yw'n briodol caniatáu i ddarlledwyr ddangos cynnwys sy'n fwy addas i oedolion yn ystod y dydd, cyhyd â bod trefniadau mynediad cadarn ar gael fel amddiffyniad PIN gorfodol. Fel rhan o hyn, byddwn yn archwilio effeithiolrwydd yr offer hyn, ochr yn ochr â'r buddion posibl i ddarlledwyr a chynulleidfaoedd. | Tony Close | Cyhoeddi ymgynghoriad: Ch2/3 2017/18; cyhoeddi datganiad: Ch4 2017/18 |
| **Adolygu'r Amodau Hawliau Cyffredinol:** Rydym yn adolygu'r Amodau Hawliau Cyffredinol, yr amodau rheoleiddio mae'n rhaid i bob darparwr gwasanaeth a rhwydwaith cyfathrebu electronig yn y DU gydymffurfio â nhw er mwyn cael gweithredu. Ein nod ydy llunio cyfres resymegol o amodau rheoleiddio sy'n gliriach ac yn fwy ymarferol, yn haws cydymffurfio â nhw ac yn symlach i'w gorfodi. | Robert Wells | Ch2 2017/2018 |

| | | |
|---|---|---|
| **Cynnal adolygiad o Gynlluniau Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod:** byddwn yn cynnal adolygiad o effeithiolrwydd y cynlluniau Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod a gymeradwywyd gan Ofcom o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod ar gyfer Rheoliadau Anghydfod Defnyddwyr 2015. | Alan Pridmore | Cyhoeddi datganiad: Ch3 2017/18 |
| **Adolygu'r drefn reoleiddio ar gyfer blychau ffonio cyhoeddus:** byddwn yn adolygu'r gofynion ar gyfer blychau ffonio cyhoeddus, gan gynnwys y rheolau y dylid eu gweithredu pan ddylid cynnal blychau ffonio, a'r rheolau ar gyfer asesu a oes modd tynnu blychau ffonio, a'r prosesau ar gyfer eu tynnu. | Alan Pridmore | Cyhoeddi ymgynghoriad: Ch3 2017/18 |

Atodiad 2

# Ymatebion i'r Cynllun Blynyddol Arfaethedig

A2.1 Cawsom 32 o ymatebion ysgrifenedig i'n Cynllun Blynyddol Arfaethedig gan gwmnïau sy'n gweithio mewn amrywiaeth o farchnadoedd cyfathrebu, yn ogystal â chyrff masnach, sefydliadau budd defnyddwyr, ac unigolion.

A2.2 Ym mis Ionawr a Chwefror 2016, gwnaethom gynnal digwyddiadau poblogaidd yng Nghaerdydd, Belfast, Caeredin a Llundain. Roedd hyn yn gyfle i ni ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid a chlywed safbwyntiau amrywiol ar flaenoriaethau Ofcom o bob cwr o'r DU.

A2.3 Rydym wedi ystyried pob cyflwyniad wrth lunio ein Cynllun Blynyddol terfynol, ac rydym wedi cyhoeddi pob cyflwyniad nad oedd yn gyfrinachol yn llawn ar ein gwefan.[17] Isod rydym wedi darparu crynodeb o'r ymatebion a gafwyd ynghyd â'n hymatebion i'r prif bwyntiau a godwyd (mewn ffont italig).

A2.4 Cawsom ymateb Llywodraeth yr Alban ar 9 Mawrth 2017. Ni roddodd hyn ddigon o amser i ni cyn cyhoeddi'r Cynllun Blynyddol i ddarparu atebion penodol i'r materion a godwyd yn ei chyfraniad. Serch hynny, mae Ofcom yn ymgysylltu'n rheolaidd ac yn gadarnhaol â Gweinidogion yr Alban a swyddogion Llywodraeth yr Alban; er enghraifft, daeth nifer o weision sifil Llywodraeth yr Alban i'n digwyddiad Cynllun Blynyddol yng Nghaeredin.  Rydym yn edrych ymlaen at barhau â'r ymgysylltu hwn dros y flwyddyn nesaf, a hynny yng nghyswllt yr amrywiaeth o faterion (darlledu, cysylltedd digidol, sbectrwm, cystadleuaeth a materion defnyddwyr) a nodwyd yn ymateb Llywodraeth yr Alban.

## Hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol i ddefnyddwyr

### Buddsoddi mewn seilwaith a rheolaethau prisiau ar gyfer cynnyrch sy'n cael ei reoleiddio

A2.5 Dywedodd **TalkTalk** mai'r ffordd bwysicaf y gall Ofcom gefnogi buddsoddiad cystadleuol mewn seilwaith ffibr yn y flwyddyn nesaf yw gorfodi terfyn pris ar gynnyrch VULA (Rhith-Fynediad Lleol wedi'i Ddadfwndelu) BT, a sicrhau bod prisiau yn adlewyrchu amcangyfrif Ofcom o gostau Openreach wrth ddarparu FTTC (Ffibr i'r Cabinet). Ym marn TalkTalk, byddai gwneud hyn yn galluogi Ofcom i sicrhau chwarae teg i bob Darparwr Gwasanaethau Rhyngrwyd yn y DU.[18] Roedd TalkTalk hefyd yn poeni ynghylch yr oedi o ran adolygiad o'r farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol Ofcom, a phwysleisiodd y byddai niwed i ddefnyddwyr ac i gystadleuaeth pe nai bai Ofcom yn gorfodi rheolaethau prisiau yn brydlon[19].

*Mae'r cwestiwn ynghylch y dull priodol ar gyfer rheoleiddio prisiau cynnyrch cyfanwerthol BT sy'n sail i ddarpariaeth gwasanaethau band eang adwerthol yn*

---

[17] Ofcom, Ymatebion i'r Ymgynghoriad ar y Cynllun Blynyddol Arfaethedig.
[18] TalkTalk, tt. 3-4.
[19] TalkTalk, t. 2.

*cael ei ystyried yn yr adolygiad o'r farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol. Cyhoeddon ni ein cynigion ar gyfer y materion hyn ym mis Mawrth 2017.*

A2.6 Dywedodd **TalkTalk** y dylai Cynllun Blynyddol Ofcom fynd i'r afael â'r mater bod elw BT yn uwch na'i gost cyfalaf, yn enwedig yng nghyswllt cynnyrch ISDN2/ISDN30.[20]

*Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae elw BT wedi bod yn uwch na'i gost cyfalaf ar draws ei farchnadoedd cyfanwerthol sy'n cael eu rheoleiddio. Mae hyn yn rhannol oherwydd ein penderfyniadau polisi (ee annog buddsoddiadau mewn technoleg newydd neu annog cwsmeriaid i fudo i wasanaethau newydd) ac yn rhannol oherwydd bod y galw'n uwch a/neu gostau'n is i BT nag y rhagwelwyd. Rydym o'r farn fod prisiau cyfanwerthol yn y gorffennol wedi hwyluso cystadleuaeth effeithiol, a hynny heb gyfyngu ar y cymhellion i fuddsoddi (gan BT neu gan ddarparwyr telegyfathrebiadau eraill â'u rhwydweithiau eu hunain). Wrth symud ymlaen, byddwn yn ystyried yn ofalus y cydbwysedd priodol o adfer costau rhwng marchnadoedd sy'n cael eu rheoleiddio yn ein hadolygiadau o'r farchnad yn y dyfodol. Er enghraifft, mae rheoleiddio ISDN2 ac ISDN30 yn cael ei ystyried yn ein hadolygiad o'r farchnad band cul.*[21]

Dywedodd **Three** y dylai Ofcom ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag achosion sylfaenol prisiau adwerthu uwch – yn rhannau arbennig o'r farchnad gyfanwerthol lle nad yw cystadleuaeth yn gweithio. Yn benodol, dadleuodd y dylai Ofcom fabwysiadu agwedd ragweithiol at weithredu ei Ateb Mynediad Ffibr Tywyll.[22]A1.1

*Fel rhan o'n hadolygiadau o'r farchnad, rydym yn gwneud gwaith dadansoddi gofalus i ddeall y rhesymau sylfaenol dros lefel y prisiau rydym yn arsylwi arnynt yn y marchnadoedd cyfanwerthol. Mae'r gwaith dadansoddi hwn fel arfer yn cynnwys asesiad o gystadleuaeth mewn ardal ddaearyddol, gan asesu'r dewisiadau gwahanol ar gyfer darparu gwasanaethau a, lle bo'n briodol, cael gafael ar wybodaeth am gostau'r cydrannau a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau cyfanwerthol.*

*Rydym yn monitro ymgysylltiad Openreach â'r diwydiant wrth weithredu'r ateb mynediad ffibr tywyll.*

A2.7 Yng nghyd-destun agwedd yr UE at gystadleuaeth ym maes telegyfathrebiadau, dywedodd **Three** na ddylai rheoleiddwyr cenedlaethol orfod ysgwyddo'r baich o gyflawni'r dasg gymhleth o ddangos pŵer y farchnad mewn marchnadoedd cyfanwerthol, ac y dylent allu ymyrryd er mwyn rhwystro effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth. Dadleuodd Three fod prosesau rheoleiddio sydd o blaid ymestyn rhwydweithiau yn hytrach na chynyddu cystadleuaeth yn debygol o arwain at gynnydd mewn crynhoad a niwed i ddefnyddwyr. Roedd Three yn honni y byddai mynediad yn yr haen gyfanwerthol yn darparu cyfleoedd gwell ar gyfer ymestyn rhwydwaith yn gost-effeithiol.[23]

---

[20] TalkTalk, t. 2.
[21] Gweler Ofcom, Adolygiad o'r Farchnad Band Cul, ymgynghoriad, Rhagfyr 2016.
[22] Three, t. 6.
[23] Three, t. 7.

*Rydym yn gweithio gyda BEREC a sefydliadau'r UE i gyfrannu at y ddadl barhaus ar newidiadau i'r Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd.*

### Annibyniaeth Openreach

A2.8 Mynegodd rhai rhanddeiliaid bryderon ynglŷn â chynnig Ofcom i wahanu Openreach a BT Group yn gyfreithiol. Dywedodd **BT** y byddai'r newid yn arwain at gostau anghymesur ar BT a'i rhanddeiliaid; y byddai'n cymryd peth amser i'w weithredu; ac na fyddai'n sicrhau buddion ychwanegol o'i gymharu â'r model presennol.[24] Dywedodd **Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu (CWU)** y gallai cynnig Ofcom beryglu'r gwaith o gyflwyno band eang ansawdd uchel, a thanseilio ymrwymiad BT i gyfrannu at y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol.[25] Dadleuodd CWU hefyd y byddai'r cynnig hwn yn cael effaith negyddol ar safonau adnoddau a llafur ac, o ganlyniad, ar ansawdd gwasanaethau.[26]

A2.9 Dadleuodd rhanddeiliaid eraill dros fesurau cryfach na'r rheini a gynigiwyd gan Ofcom. Dadleuodd **Three** y dylai Ofcom orfodi gwahanu strwythurol llawn er mwyn tynnu cymhellion BT i wahaniaethu yn erbyn cystadleuwyr.[27] Roedd **TalkTalk** hefyd o blaid gwahanu strwythurol llawn, ond dywedodd bod y dewis yr oedd Ofcom yn ei ffafrio, sef gwahanu cyfreithiol, yn ymarferol ar yr amod ei fod yn cael ei orfodi'n rhagweithiol ac effeithiol.[28]

*Ar 10 Mawrth 2017, rhoddodd BT wybod i Ofcom am ymrwymiadau gwirfoddol i ddiwygio Openreach ymhellach. Mae hyn yn golygu y bydd Openreach yn dod yn gwmni ar wahân, gyda'i staff, ei reolwyr, ei bwrpas a'i strategaeth ei hun. Rydym o'r farn fod Hysbysiad mis Mawrth BT yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r pryderon o ran cystadleuaeth a nodwyd yn ein Hadolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol. Yn ein hymgynghoriad dyddiedig 17 Mawrth 2017, aethom ati i egluro pam ein bod ni o'r farn bod Hysbysiad BT yn mynd i'r afael yn ddigonol â'n pryderon o ran cystadleuaeth, sut y byddwn yn monitro cydymffurfiad â'r trefniadau newydd ac, yn y pen draw, yn asesu a ydynt yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i gwsmeriaid a busnesau[29].*

### Cystadleuaeth y farchnad symudol

Dywedodd **O2** y dylai Ofcom fynd ati i asesu lefel y gystadleuaeth yn y farchnad symudol pedwar darparwr, yn enwedig o ystyried datblygiadau yn y farchnad fel BT yn prynu EE, cynnig gweithredwr rhith rwydwaith symudol Sky, a chais 21st Century Fox i brynu Sky.[30]

*Yr un fath â phob marchnad, rydym yn parhau i fonitro datblygiadau yn y farchnad, gan gynnwys natur a lefel y gystadleuaeth mewn gwasanaethau symudol. Er nad oes cynlluniau gennym i gynnal adolygiad ar wahân o'r farchnad symudol yn dilyn datblygiadau diweddar yn y farchnad, bydd y materion hyn yn cael eu hystyried yn rhai o'n prif brosiectau, fel yr arwerthiant sbectrwm sydd gennym ar y gweill ar gyfer y sbectrwm 2.3 a 3.4 GHz (Rhaglen Rhyddhau Sbectrwm Cyhoeddus).*

[24] BT, t. 3.
[25] CWU, t. 2.
[26] CWU, t. 5.
[27] Three, tt. 5-6.
[28] TalkTalk, t. 4.
[29] Ofcom, Delivering a more independent Openreach, 17 Mawrth 2017.
[30] O2, t. 1.

## Newid a gwybodaeth i ddefnyddwyr

A2.10 Pwysleisiodd y **Panel Defnyddwyr Cyfathrebu** bwysigrwydd sicrhau bod gan y broses newid rwydi diogelwch i liniaru yn erbyn colli gwasanaeth, a dadleuodd y dylai Ofcom ganolbwyntio ar ddefnyddwyr hŷn, anabl a bregus, yn ogystal â microfusnesau.[31] Nododd **SSE** ei fod yn cefnogi'r broses newid Dan Arweiniad y Darparwr sy’n Ennill y Cwsmer (GPL), ac anogodd Ofcom i edrych ar enghreifftiau o brosesau llywodraethu newid ar gyfer gwasanaethau hanfodol eraill, fel ynni a'r farchnad ddŵr yn Lloegr.[32] Dywedodd **Three** fod y broses Dan Arweiniad y Darparwr sy'n Colli'r Cwsmer yn faich ar gwsmeriaid, ac anogodd Ofcom i ddilyn ei uchelgais i ddiwygio'r prosesau newid heb oedi.[33]

*Fel rhan o’n gwaith yn edrych ar brofiadau defnyddwyr o newid rhwng gwasanaethau llinell dir, band eang a/neu wasanaethau teledu drwy dalu rhwng llwyfannau, aethom ati ym mis Gorffennaf 2016 i ymgynghori[34] ynghylch dewisiadau i leihau anawsterau, gan gynnwys colli gwasanaeth a thalu dwbl - nodwyd gennym mai proses newid GPL oedd yn well gennym ar y pryd. Yn y ddogfen ymgynghori, roeddem hefyd wedi croesawu safbwyntiau rhanddeiliaid ynghylch a fyddai modd cael synergedd rhwng costau cyn gweithredu cynnig GPL ar gyfer newid rhwng llwyfannau a newid rhwng gwasanaethau symudol - rydym yn gweithio ein ffordd drwy'r safbwyntiau hyn, a sylwadau eraill, er mwyn penderfynu ar y camau nesaf. Yn fwy cyffredinol, fel rhan o'n gwaith rydym wedi edrych i weld beth gallwn ei ddysgu gan ddulliau mewn gwledydd a sectorau eraill (gan gynnwys ynni).*

*Byddwn hefyd yn cyhoeddi ymgynghoriad pellach ar brosesau newid rhwng gwasanaethau symudol yn ystod gwanwyn 2017. Bydd hyn yn gyfle i randdeiliaid adolygu'r dystiolaeth ddiweddaraf a gasglwyd a gwneud sylwadau arni er mwyn ein helpu ni i werthuso'r achos dros ddiwygio'r broses newid rhwng gwasanaethau symudol. Dilynir hyn gan Ddatganiad yn nes ymlaen yn y flwyddyn.*

Fe wnaeth **O2**, **BT** a **Three** gwestiynu gwerth a chymesuredd cynigion Ofcom ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth well a manylach. Dadleuodd **O2** nad oes tystiolaeth bod defnyddwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon, neu eisiau ei defnyddio, nac y byddai ei chyhoeddi yn arwain at benderfyniadau prynu gwell, wrth ystyried bod cyfyngiad ar faint o wybodaeth gall defnyddwyr ei llyncu.[35] Yn yr un modd, dadleuodd **BT** y dylai Ofcom ganolbwyntio ar gyhoeddi gwybodaeth well, fwy defnyddiol gan fod 'gormod o ddewis' yn gallu lleihau gallu cwsmeriaid i wneud penderfyniadau gwybodus; yn benodol, dadleuodd **BT**, yng nghyswllt ansawdd gwasanaethau, y dylai Ofcom werthuso pa fetrigau sydd fwyaf defnyddiol i gwsmeriaid.[36] Dadleuodd **Three** y gallai cynlluniau Ofcom i gyhoeddi gwybodaeth well a manylach gael eu defnyddio gan drydydd partïon i gefnogi dadansoddi camarweiniol, yn arbennig os oes gan wahanol weithredwyr fetrigau perfformio na ellir eu cymharu.[37]

*Mae Ofcom bob amser yn gwneud ei orau i wella’r wybodaeth y mae’n ei darparu i ddefnyddwyr, a bob amser wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid i gyhoeddi gwybodaeth*

[31] Panel Defnyddwyr Cyfathrebu, t. 3.
[32] SSE, t. 2.
[33] Three, t. 14.
[34] Ofcom, Defnyddwyr yn newid rhwng Darparwyr: Rhagor o gynigion i ddiwygio'r prosesau newid ar gyfer gwasanaethau symudol, 29 Gorffennaf 2016.
[35] O2, tt 2-3.
[36] BT, t. 3.
[37] Three, t. 18.

*sy’n ddefnyddiol ac yn adlewyrchu profiadau defnyddwyr. Rydym yn credu bod cwsmeriaid yn elwa o wybodaeth gywir, hygyrch y gellir ei chymharu am y gwasanaethau cyfathrebiadau sydd ar gael mewn lleoliadau sy'n bwysig iddyn nhw. Yn ychwanegol, rydym yn credu bod cyhoeddi'r wybodaeth hon yn cymell darparwyr cyfathrebiadau i gystadlu ar sail ansawdd gwasanaethau. Rydym wedi gwneud cynnydd o ran darparu gwybodaeth well (ee drwy ein hapiau a'n hadnoddau ar-lein) a byddwn yn parhau i archwilio ffyrdd o wella eto. Pan fyddwn yn cyhoeddi data y gellir ei ddefnyddio i gymharu, byddwn yn parhau i ymgysylltu â gweithredwyr ynghylch y methodolegau a'r metrigau perfformio a ddefnyddir.*

## Hysbysebu camarweiniol / monitro patrymau prisio

A2.11 Dywedodd **Three** nad oedd yn credu bod gwaith Ofcom gyda'r Awdurdod Safonau Hysbysebu i orfodi darparwyr sefydlog i farchnata gwasanaethau ar sail prisiau sy'n cynnwys rhent llinell wedi mynd yn ddigon pell. Roedd **Three** yn croesawu ymrwymiad Ofcom i fonitro patrymau prisio, a dadleuodd y dylai Ofcom fynd ati i gymharu prisiau yn ehangach, gan gynnwys patrymau prisio heb fod yn rhy ragnodol ynghylch tariffau a mesuriadau prisiau.[38]

*Fel rhan o’n gwaith yn hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio’n effeithiol i ddefnyddwyr, rydym yn anelu at sicrhau bod y farchnad yn darparu canlyniadau da, gan gynnwys o ran prisiau. Yn 2017/18 , byddwn yn cyhoeddi data ar batrymau mewn prisio, a byddwn yn asesu newidiadau mewn tariffau cyfathrebu, sut mae’r rhain yn cael eu hysbysebu, a sut maent yn effeithio ar ddefnyddwyr gwahanol.*

## Rheoleiddio cystadleuaeth y BBC

A2.12 Dywedodd **Pact** y dylai Ofcom ymrwymo i adolygu BBC Studios yn 2017/18, a chraffu ar unrhyw arwyddion posibl o gomisiynu ffafriol.[39] Dadleuodd **Pact** hefyd na ddylai Ofcom ddefnyddio’r egwyddorion a’r fframwaith presennol yng nghanllawiau Masnachu Teg y BBC fel ei sail ar gyfer rheoleiddio gweithgareddau masnachol y BBC.[40] Dywedodd **COBA** ei bod yn hollbwysig bod Ofcom yn goruchwylio effaith y BBC ar y farchnad yn gadarn.[41]

A2.13 *Yn ddiweddar mae Ofcom wedi ymgynghori ar gyfres o ofynion yr ydym yn bwriadu eu rhoi ar y BBC i sicrhau, ymysg pethau eraill, bod ei is-gwmnïau ddim yn ystumio'r farchnad neu'n creu mantais gystadleuol annheg. Rydym yn ystyried yr ymatebion a gawsom a byddwn yn cyhoeddi'r gofynion terfynol a chanllawiau erbyn 3 Ebrill 2017. O dan y Cytundeb rhwng y Llywodraeth a'r BBC, mae'n rhaid i Ofcom ystyried a ddylid cynnal adolygiad o BBC Studios cyn pen dwy flynedd.*

*Mae Ofcom wrthi'n datblygu ystod o reoliadau a chanllawiau sydd wedi'u dylunio i fynd i'r afael â'r risgiau y gallai'r BBC wthio cystadleuaeth i ffwrdd neu atal cwmnïau eraill rhag buddsoddi neu arloesi. Byddwn yn edrych ar yr effeithiau posibl ar y farchnad ochr yn ochr ag unrhyw fanteision cyhoeddus, gan ystyried angen y BBC i gyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus, a’r gofyniad i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol.*

[38] Three, t. 12.
[39] Pact, t. 4.
[40] Pact, t. 5.
[41] COBA, t. 3.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru am ragor o fanylion am fanylder daearyddol asesiadau Ofcom o effaith cystadleuaeth y BBC, gan ddadlau y gallai gwasanaethau newydd posibl y BBC, a allai gael effaith gystadleuol andwyol ar wasanaethau masnachol mewn dinasoedd mawr yn Lloegr, fynd i'r afael ar un pryd ag angen dwfn mewn rhannau o Gymru lle mae darpariaeth y farchnad yn annigonol ar hyn o bryd.[42]A1.1

*Yn ein hymgynghoriad "Asesu effaith y newidiadau arfaethedig i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC", nodwyd gennym sut rydym yn disgwyl asesu effeithiau andwyol posibl ar gystadleuaeth deg ac effeithiol o ganlyniad i gynigion y BBC. Nodwyd gennym y byddai Ofcom yn nodi'r ystod o wasanaethau a chynnyrch yr oedd cynnig y BBC yn debygol o effeithio arnynt. Mewn rhai achosion, os yw'n briodol, efallai y byddwn yn ystyried y sail ddaearyddol y dylai'r effaith ar y farchnad fod yn seiliedig arni. Ar ben hynny, fel rhan o'n cyfrifoldebau rheoleiddio newydd, byddwn yn sicrhau bod allbwn y BBC yn adlewyrchu, yn cynrychioli ac yn gwasanaethu cymunedau amrywiol gwledydd a rhanbarthau'r DU.*

## Problemau eraill

A2.14 Awgrymodd **Cymdeithas Telegyfathrebiadau Cystadleuol y DU (UKCTA)** y dylai Ofcom roi rhagor o ystyriaeth i gwsmeriaid busnes a darparwyr B2B. Dylai ystyried er enghraifft bod yr adolygiad diweddaraf o'r farchnad band cul yn canolbwyntio ar gystadleuaeth breswyl a dewisiadau yn lle Rhentu Llinell Cyfanwerthol sydd, ym marn UKCTA, yn amhosibl i ddarparwyr B2B eu defnyddio i bob pwrpas.[43] Anogodd **ACNI** Ofcom i ganolbwyntio'n fwy ar gefnogi a mynd i'r afael ag anghenion cysylltedd busnesau bach a chanolig.[44]

*Byddwn yn ystyried pob ymateb gan randdeiliaid yn ein hymgynghoriad ar yr Adolygiad o'r Farchnad Band Cul,[45] gan gynnwys unrhyw dystiolaeth a gyflwynir o ran a yw'r amodau cystadleuol yn wahanol i ddefnyddwyr busnes a phreswyl, neu i ddarparwyr sy'n arbenigo mewn grŵp penodol o gwsmeriaid. Yn fwy cyffredinol, mae ein hadolygiadau o'r marchnadoedd mynediad lleol cyfanwerthol, mynediad band eang cyfanwerthol a band cul i gyd yn ystyried anghenion defnyddwyr busnes a phreswyl yn ofalus er mwyn nodi pa reoliad fyddai'n briodol i fynd i'r afael â'r pryderon o ran y marchnadoedd hyn. Yn ogystal â hyn, yn dilyn cyhoeddiad Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes y llynedd, cyflwynwyd gennym reolau llym newydd i wella perfformiad BT o ran gosod llinellau busnes cyflym, gan leihau'r prisiau cyfanwerthol mae BT yn eu codi ar gyfer y llinellau hyn ar yr un pryd. Yn olaf, ym mis Ionawr 2017 cyhoeddwyd gennym adroddiad ymchwil[46] yn mesur defnydd, profiad ac agweddau yng nghyswllt gwasanaethau cyfathrebiadau a darparwyr gwasanaethau ymysg busnesau bach a chanolig yn y DU.*

A1.1 Cododd ymatebwr dienw bryderon ynglŷn â'r dryswch ynghylch rhai **ystodau rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol, codau byr symudol, a ffioedd ar gyfer galwadau nas atebir**, a'r camddefnydd o'r rhain. Nododd yr ymatebwr fod rheoli'r gwaith o gau'r ystod 0500, a fwriedir ar gyfer mis Mehefin 2017, ar goll o'r Cynllun Blynyddol; ac nad oedd sôn yn y Cynllun Blynyddol am ymgyngoriadau ar yr ystodau 055, 056, 070 na 076 yn y dyfodol.

---

[42] Llywodraeth Cymru, t. 2.
[43] UKCTA, t. 3.
[44] ACNI, t. 1.
[45] Ofcom, Ymgynghoriad ar yr Adolygiad o'r Farchnad Band Cul 1 Rhagfyr 2016.
[46] Ofcom, The SME experience of communications services: adroddiad ymchwil, Ionawr 2017.

*Rydym wedi gosod rheoliadau prisio newydd yng nghyswllt ystodau Rhadffôn ac ystodau rhannu refeniw (084/087/09/118) er mwyn gwella tryloywder i gwsmeriaid ac ennyn eu hyder. Daeth y rheoliadau hyn i rym ym mis Gorffennaf 2015. Rydym yn monitro effaith y newidiadau hyn ar ddefnydd a gwariant cwsmeriaid yng nghyswllt yr ystodau hyn a'r ystod 03, a byddwn yn ystyried a oes gofyn am ymyriadau ychwanegol.*

*Nid ydym yn rheoleiddio ffioedd symudol ar gyfer codau byr, ond rydym yn gofyn i weithredwyr symudol ddarparu gwybodaeth sydd ar gael yn hwylus am brisiau. Nid oes unrhyw ffioedd cyfreithlon ar gyfer galwadau nas atebir. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gwmni sy'n codi ffioedd o'r fath. Isel iawn yw'r defnydd o'r ystod 0500, ac rydym o'r farn ei fod yn well cwblhau'r gwaith o reoli tynnu'r ystod honno fesul rhif gan gwmnïau yr effeithiwyd arnynt. Mae amseriad adolygiadau o'r ystodau 055/056 a 070/076 yn amodol ar benderfyniadau ar flaenoriaethau gweinyddol.*

Dywedodd Llywodraeth Cymru y dylai Ofcom fabwysiadau dull mwy manwl a **daearyddol o reoleiddio cystadleuaeth ym maes telegyfathrebiadau** - gan ystyried ffactorau fel daearyddiaeth a'r dwysedd poblogaeth - yn enwedig wrth ystyried a ddylid cynyddu neu leihau prosesau rheoleiddio.[47]

*Mewn rhai marchnadoedd, rydym yn cydnabod bod gwahaniaeth o ran argaeledd a chystadleuaeth mewn gwahanol ardaloedd daearyddol. Fel y nodwyd gennym yng Nghasgliadau Cychwynnol ein Hadolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol ym mis Chwefror 2016, pan fydd diffyg argaeledd gwasanaeth yn cael ei achosi gan resymau daearyddol, byddwn yn ymyrryd gyda phrosesau rheoleiddio effeithiol wedi'u targedu, er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid yn yr ardaloedd hyn yn gallu defnyddio'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. O ran rheoleiddio cystadleuaeth, mae asesu bodolaeth gwahanol farchnadoedd daearyddol yn rhan safonol o'n hadolygiadau o'r farchnad. Yn ein hadolygiad blaenorol o'r farchnad mynediad band eang cyfanwerthol, rydym wedi diffinio atebion yn benodol ar gyfer ardaloedd gwledig ar y cyfan, lle nad oes digon o gystadleuaeth gan ddarparwyr telegyfathrebiadau ar sail cyfnewidfa na chan ddarparwyr teledu cebl. Mewn achosion eraill, lle mae'r marchnadoedd yr ydym yn eu hadolygu yn genedlaethol eu natur, rydym yn gweithredu atebion ar y lefel genedlaethol, gan gynnwys defnyddio rheoliadau ffioedd sy'n gosod prisiau ar y gost genedlaethol gyfartalog. Byddwn yn parhau i ystyried bodolaeth gwahanol farchnadoedd daearyddol yn ein hadolygiadau o'r farchnad.*

A2.15 Dywedodd **Three** fod angen **chwarae teg rheoleiddiol rhwng darparwyr traddodiadol a darparwyr dros y rhyngrwyd (OTT)**, gan ddadlau y dylai'r gwaith o reoleiddio gwasanaethau sy'n cael eu darparu dros y rhyngrwyd sicrhau digon o amddiffyniad i ddefnyddwyr, heb roi darparwyr gwasanaethau traddodiadol dan anfantais gystadleuol.[48]

*Mae rheoleiddio 'darparwyr cyfathrebiadau OTT' yn briodol yn un o brif faterion adolygiad y Comisiwn Ewropeaidd o Fframwaith Telegyfathrebiadau yr UE. I baratoi ar gyfer yr adolygiad, bu Ofcom yn gweithio gyda BEREC ar adolygiad o brosesau rheoleiddio gwasanaethau OTT, ac ymatebodd i ymgynghoriad y Comisiwn. Yn ein hymateb, roeddem o'r farn ei bod yn "anghymesur ymestyn cwmpas y Fframwaith*

[47] Llywodraeth Cymru, t. 3.
[48] Three, t. 8.

*yn awtomatig er mwyn cynnwys pob gwasanaeth OTT." Yn hytrach, dylai rheoleiddwyr ystyried "y ddadl o blaid ymestyn rhwymedigaethau rheoleiddiol unigol i fathau o wasanaeth neu wasanaethau OTT unigol". Dyma'n safiad ni o hyd: nid ydym o'r farn y dylai'r holl reoliadau tebyg fod yn berthnasol i bob darparwr OTT fel y maent i ddarparwyr cyfathrebiadau traddodiadol; ond y gallai rhai rheolau sy'n berthnasol i gyfathrebiadau traddodiadol fod yn berthnasol i rai darparwyr OTT. O ystyried hyn, rydym yn cefnogi dull gweithredu mesur arfaethedig y Comisiwn yn gyffredinol.*

## Sicrhau safonau a gwella ansawdd

### Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol Band Eang

A2.16 Dadleuodd **Three** mai rhwymedigaeth ar weithredwyr sefydlog yn unig yw Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol Band Eang (USO), ac na ddylai hynny newid. Pwysleisiodd Three fod angen i Ofcom sicrhau nad yw unrhyw gyllid ar gyfer gweithredwr USO dynodedig yn effeithio ar dirwedd gystadleuol marchnad symudol y DU.[49]

A2.17 Dywedodd **MG Alba** y dylid blaenoriaethu rhoi'r USO ar waith yn yr Alban, gan fod band eang cyflym iawn mewn ardaloedd gwledig yn hanfodol ar gyfer sicrhau bod cynnwys cyfryngau Gaeleg ar gael yn hwylus, a bod gan grewyr cynnwys cyfryngau Gaeleg alluoedd gwell o ran llwytho i lawr a llwytho i fyny.[50] Dywedodd **Llywodraeth Cymru** y dylai Ofcom ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod y rheoliad USO yn adlewyrchu anghenion Cymru ac yn cefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i gynnig band eang cyflym iawn dibynadwy a chyflym (30Mbps) i bob eiddo yng Nghymru.[51]

*Darparodd Ofcom gyngor technegol ar ddyluniad USO band eang i Lywodraeth y DU ym mis Rhagfyr. Nodwyd ystod o ddewisiadau i'r Llywodraeth yn ein hadroddiad[52]. Y Llywodraeth fydd yn gwneud nifer o'r penderfyniadau terfynol ar bolisi USO (gan gynnwys y fanyleb dechnegol), a gweithredu polisi'r Llywodraeth fydd rôl Ofcom. Rydym yn aros am benderfyniad y Llywodraeth ar ei pholisi USO. Os datblygir hyn o dan y gyfarwyddeb gwasanaeth cyffredinol, byddwn yn ymgynghori ar ein cynigion ar gyfer gweithredu. Byddwn yn ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) ar yr adeg briodol.*

### Capasiti a darpariaeth symudol

A2.18 Cododd nifer o randdeiliaid bryderon o ran ein cynlluniau ar gyfer **capasiti a darpariaeth symudol**. Dywedodd **Three** fod yn rhaid i Ofcom fod yn fwy eglur ynglŷn â'i uchelgais ar gyfer rhwymedigaeth i ddarparu, a sut mae'n bwriadu cynnwys yr uchelgais hon yn y dyfarniad 700 MHz.[53] Dywedodd **Which?** fod angen i Ofcom gymryd rhagor o gamau i sicrhau gwell darpariaeth a chapasiti o ran gwasanaethau symudol, yn enwedig o ran data symudol, i gefnogi anghenion defnyddwyr yn y DU.[54] Dywedodd **Llywodraeth Cymru** fod y dyfarniad 700 MHz yn

[49] Three, t. 10.
[50] MG ALBA, t. 3.
[51] Llywodraeth Cymru, t. 4.
[52] Ofcom, Achieving decent broadband connectivity for everyone: Technical Advice to UK Government on broadband universal service, 16 Rhagfyr 2016.
[53] Three, t. 9.
[54] Which?, t. 1.

cynnig cyfle gwych i sicrhau darpariaeth symudol mewn ardaloedd gwledig, a gofynnodd i Ofcom ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill yng Nghymru i ddylunio'r arwerthiant, a sicrhau bod unrhyw rwymedigaethau darpariaeth daearyddol yn addas i Gymru.[55] Dywedodd y **Panel Defnyddwyr Cyfathrebu** y dylai Ofcom ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau rhwydwaith symudol ddatblygu cynlluniau wrth gefn ychwanegol i fynd i'r afael ag ardaloedd lle mae'r ddarpariaeth yn wael neu ddim yn bodoli, er enghraifft drwy orfodi cwmnïau rhwydwaith symudol i gyrraedd targedau darlledu, neu ragori arnynt, a'u cosbi'n ariannol os ydynt yn methu gwneud hynny. Argymhellodd y Panel y dylai arwerthiannau sbectrwm yn y dyfodol gael eu dylunio i orfodi cwmnïau rhwydweithiau symudol i ddarparu ar gyfer ardaloedd anodd eu cyrraedd o ddechrau'r broses.[56] Yn olaf, gofynnodd **Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon** am ragor o wybodaeth am gynlluniau Ofcom ar gyfer cyfarpar mwyhau symudol.

*Rydym yn dal i weld rôl ar gyfer rhwymedigaethau darpariaeth, ac yn gobeithio cynnwys rhwymedigaethau o'r fath mewn dyfarniadau sbectrwm addas yn y dyfodol. Byddwn yn ceisio cynnwys rhwymedigaeth darpariaeth yn y dyfarniad 700 MHz, sydd i'w ddisgwyl diwedd 2018 neu ddechrau 2019.*

*Rydym bellach wedi dechrau ar raglen waith i ystyried, lle bo cynlluniau cyflwyno presennol cwmnïau rhwydwaith symudol yn debygol o gymryd darpariaeth, beth gallai'r uchelgeisiau priodol ar gyfer darpariaeth y tu hwnt i hynny fod, a sut gellid sicrhau'r rhain, gan gynnwys drwy ddefnyddio rhwymedigaethau darpariaeth newydd. Rydym yn disgwyl i'r gwaith hwn bara tan ail hanner 2017/18, ac wedi hynny byddwn yn llunio cynigion penodol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus cyn y dyfarniad 700 MHz.*

*Yn ddiweddar rydym wedi lansio ymgynghoriad[57] ar ddefnyddio sbectrwm sydd wedi'i eithrio o drwydded ar gyfer ceisiadau sy'n cynnwys cyfarpar mwyhau symudol.*

## Ansawdd Gwasanaeth yng nghyswllt gwasanaethau cyfathrebiadau

A2.19 O ran ein cynigion ar gyfer iawndal awtomatig, mynegodd **Three** bryderon ynglŷn â'r anawsterau technegol sy'n rhan annatod o wasanaethau a rhwydweithiau symudol, gan awgrymu efallai y bydd yn anodd gweithredu cynllun sy'n mynd i'r afael â phrofiadau cwsmeriaid.[58] Dadleuodd **SSE** y dylai Ofcom fabwysiadu egwyddor 'y llygrydd sy'n talu', lle mae'n ymddangos fod y taliadau am fethiannau a achosir gan gyfranogwyr ymhellach i fyny yn dod gan y cwmnïau hyn, hyd yn oed os yw'r adwerthwr yn rhan o drosglwyddo'r taliad i'r defnyddiwr.[59] Dywedodd **Gwasanaethau'r Ombwdsmon** y dylid ystyried iawndal awtomatig yn isafswm, nid yn uchafswm, o ran gwneud iawn pan na fydd safonau gwasanaethau yn cael eu cyrraedd; ac y dylai defnyddwyr allu mynd â'u cwynion ymhellach, gyda mynediad at ADR, hyd yn oed pan fydd iawndal awtomatig wedi cael ei dalu.[60] Dadleuodd y **Panel Defnyddwyr Cyfathrebu** o blaid bilio cynrychioladol hefyd, lle byddai

[55] Llywodraeth Cymru, t. 4.
[56] Panel Defnyddwyr Cyfathrebu, t. 6.
[57] Ofcom, Notice of proposal to make Wireless Telegraphy Exemption Regulations 2017, consultation on Regulations and proposed technical parameters, 9 Mawrth 2017.
[58] Three, t. 11.
[59] SSE, t. 3.
[60] Gwasanaethau'r Ombwdsmon, t. 4.

darparwyr yn addasu tariffau pan fydd ansawdd gwasanaethau yn methu cyrraedd disgwyliadau ac nad oes modd cywiro hynny.[61]

*Yn ddiweddar, amlinellodd Ofcom gynigion manwl ar gyfer iawndal awtomatig mewn ymgynghoriad a gyhoeddwyd ar 24 Mawrth 2017.[62]Mae'r ymgynghoriad yn ymdrin â'r pwyntiau a godir uchod. Byddem yn croesawu unrhyw ymateb pellach i'n cynigion. Y dyddiad olaf ar gyfer ymateb yw 5 Mehefin 2017.*

A2.20 Dywedodd **Gwasanaethau'r Ombwdsmon** y dylai Ofcom gyhoeddi data perfformio ar gyfer gwasanaeth i gwsmeriaid a delio â chwynion, gan gynnwys metrig sy'n dangos pa mor effeithiol mae cyflenwyr yn datrys cwynion / yn defnyddio dulliau amgen o ddatrys anghydfod (ADR)[63]. Anogon nhw Ofcom i fabwysiadu strategaeth ragweithiol ar gyfer codi ymwybyddiaeth er mwyn annog defnyddwyr i ddefnyddio'r data sydd ar gael iddynt.

*Bydd Ofcom yn cyhoeddi data perfformio ar gyfer gwasanaeth i gwsmeriaid a delio â chwynion yn ei adroddiad Ansawdd Gwasanaethau blynyddol cyntaf, gan gynnwys data a gesglir gan ddarparwyr ac ymchwil ymysg defnyddwyr. Byddwn hefyd yn cyhoeddi data a ddarperir gan y ddau gynllun ADR sydd wedi'u cymeradwyo gan Ofcom. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau y gellir cymharu unrhyw ddata ansawdd gwasanaethau a gyhoeddir gennym. Ni fyddwn yn cyhoeddi data sy'n benodol i ddarparwr yn ein hadroddiad ansawdd gwasanaethau blynyddol oni bai ein bod yn fodlon y gellir ei gymharu'n ddigonol i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth well, a bod darparwyr yn cael eu trin yn deg. Yn ogystal â'i gwneud yn haws i gael gafael ar ddata sy'n berthnasol i ddefnyddwyr ar ein gwefan, byddwn yn cymryd camau i sicrhau bod y wybodaeth yn yr adroddiad ar gael mewn modd mor hwylus â phosibl i ddefnyddwyr, drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ynghyd â chyfryngau traddodiadol.*

Dadleuodd y **Panel Defnyddwyr Cyfathrebu** dros gyswllt mwy uniongyrchol rhwng perfformiad Openreach a phrofiad defnyddwyr, gan gynnwys targedau eglur sy'n seiliedig ar ddefnyddwyr y bydd Openreach yn gwbl atebol drostynt, a system i gyd-fynd sy'n cynnwys cymhellion a chosbau i atal perfformiad gwael.[64]A1.1

*Yn 2014, gorfodwyd safonau ansawdd gwasanaethau ar Openreach gennym, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo, dros amser, gwblhau cyfran gynyddol o waith trwsio o fewn 1-2 ddiwrnod, neu wynebu dirwyon sylweddol fel arall. Drwy gyfrwng ein hymgynghoriad ar yr adolygiad o'r farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol, byddwn yn ymgynghori ynghylch safonau ansawdd gwasanaeth mwy llym a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i Openreach ddatrys cyfran uwch o ddiffygion ar amser, gan adlewyrchu anghenion uwch ddefnyddwyr a busnesau.*

A2.21 Hefyd, anogodd y **Panel** Ofcom i ddarparu manylion am beth sy'n cael ei ystyried yn 'wasanaeth o ansawdd da i gwsmeriaid', er mwyn gallu mesur canlyniadau llwyddiannus yn well. Ym marn y Panel, dylai hyn gynnwys pris, argaeledd, ansawdd gwasanaethau, amddiffyn rhag niwed, a thargedau cynhwysedd.

[61] Panel Defnyddwyr Cyfathrebu, t. 4.
[62] Ofcom, Iawndal Awtomatig, ymgynghoriad, 24 Mawrth 2017.
[63] Gwasanaethau'r Ombwdsmon, t. 2.
[64] Panel Defnyddwyr Cyfathrebu, t. 6.

*Ym mis Mawrth, cyhoeddwyd ymchwil[65] gennym ynghylch y lefel o wasanaeth mae defnyddwyr yn ei ddisgwyl gan eu darparwyr, gan gynnwys, er enghraifft, faint o amser sydd, yn eu barn nhw, yn dderbyniol i'w aros i gael gosod neu drwsio gwasanaeth.*

A2.22 Mynegodd **UKCTA** bryderon ynglŷn â'r hyn mae'n ei ystyried yn ddiffyg dull cydlynol i ansawdd gwasanaethau ar draws y marchnadoedd y mae Ofcom yn eu rheoleiddio. Dywedodd fod gwaith Ofcom ar ansawdd gwasanaethau ar hyn o bryd yn lledaenu ar draws sawl adolygiad o'r farchnad a dogfennau eraill, sy'n ei gwneud yn anodd olrhain a chraffu. Dywedodd UKCTA y dylid cael prosiect cyffredinol ar ansawdd gwasanaethau, sy'n cynnwys pob cynnyrch a gwasanaeth.

*Fel y nodir yn ein Cynllun Blynyddol, rydym yn gweithio i wella ansawdd gwasanaethau drwy amrywiol brosiectau. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith ein bod yn ddefnyddio gwahanol lifrau ar draws ein pwerau i wella canlyniadau i bobl a busnesau. Mae'r ymdrechion hyn yn amrywio o ddarparu gwybodaeth drwy ein hadroddiad Ansawdd Gwasanaethau, i weithredu a gorfodi targedau a lefelau gwasanaeth sylfaenol newydd ar Openreach, a thalu iawndal i ddefnyddwyr pan fydd pethau'n mynd o chwith. Rydym yn cytuno ag UKCTA y dylid cydlynu'r ymdrechion hyn yn ofalus a'u gwneud yn unol â'n strategaeth gyffredinol, fel y nodir yn yr Adolygiad o Gyfathrebiadau Digidol. Yn y flwyddyn nesaf, byddwn yn cydlynu ein hymdrechion ar draws y prosiectau hyn; fodd bynnag nid ydym yn rhag-weld y byddwn yn eu cyfuno mewn prosiect newydd.*

## Clirio a dyrannu sbectrwm

A2.23 Dadleuodd **Grŵp Radio Diwydiant Adloniant Prydain (BEIRG)** y dylai Ofcom weithio tuag at **gysoni'r band 960-1164 MHz** yn ehangach yn rhyngwladol drwy hyrwyddo ei ddefnydd ar gyfer Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig (PMSE) dramor. Dywedodd BEIRG hefyd y dylai Ofcom ryddhau mapiau sbectrwm terfynol ar gyfer y band 470-694 MHz cyn gynted ag y bo modd ar ôl cwblhau'r gwaith clirio 700 MHz, gan barhau ar yr un pryd i fonitro'r datblygiadau yn y Gynhadledd Ewropeaidd ar Weinyddiaethau Post a Thelegyfathrebiadau (CEPT) yng nghyswllt bandiau amledd eraill sy'n cael eu hargymell ar gyfer eu defnyddio gan ddyfeisiau PMSE sain.[66] Dywedodd BEIRG hefyd y dylai'r broses clirio 700 MHz roi defnyddwyr PMSE dan gyn lleied o anfantais â phosibl.[67]

- *Roedd ein datganiad ym mis Hydref 2016 ar Sicrhau'r manteision gorau posib yn sgil clirio 700MHz[68] yn cydnabod yr effaith ar y gymuned PSME, ac yn nodi'r rhesymeg wrth wraidd ein penderfyniad clirio. Rydym yn parhau i ymgysylltu â rheoleiddwyr sbectrwm mewn gwledydd eraill i rannu ein dadansoddiad a'n casgliad fod y band yn adnodd sbectrwm da ar gyfer PMSE. Byddwn yn llawn gefnogi'r gwaith a wneir yn CEPT ar rannu astudiaethau rhwng PMSE a gwasanaethau awyrenegol yn y band.*

- *O ran y bandiau amledd eraill a nodir gan BEIRG yn Argymhellion 70-03 a 25-10 y Pwyllgor Cyfathrebiadau Electronig, a'r bandiau hynny sydd ar gael yn sgil Penderfyniad Gweithredu EC 2016/687, mae pob un namyn un ar gael ar gyfer PMSE yn y DU.*

[65] Ofcom, Iawndal Awtomatig, ymgynghoriad, 24 Mawrth 2017, Atodiad 10: Ymchwil Jigsaw.
[66] BEIRG, t. 1.
[67] BEIRG, t. 2.
Ofcom, Datganiad: Maximising the benefits of 700 MHz clearance, Hydref 2016, tt. 6, 13-14.

- *Disgwylir cwblhau'r cynllun amleddau teledu daearol digidol ar ôl cwblhau'r gwaith clirio 700 MHz erbyn canol 2017. Byddwn yn darparu'r mapiau argaeledd sbectrwm wedi hynny.*

- *Rydym hefyd yn disgwyl ymgynghori maes o law ar gynigion ar gyfer sut gallai cynllun i ddarparu cyllid Llywodraeth weithio.*

A2.24 Mynegodd **the Voice of the Listener and Viewer** bryderon ynglŷn â'r cynnydd mewn defnydd o ddata symudol, a'r galw ar sbectrwm yn sgil hynny, gan annog Ofcom i fonitro'r gwaith o adleoli trawsyriadau teledu daearol digidol o'r band 700 MHz i sicrhau cyn lleied o **amhariad ar wylwyr teledu** â phosibl.[69]

*Fel y cadarnhawyd yn ein datganiad ym mis Hydref 2016[70], lleihau'r amhariad ar wylwyr yw un o brif amcanion y rhaglen glirio 700 MHz. Efallai y bydd angen i nifer fach o wylwyr newid eu herial ar y to. Mae Ofcom yn gweithio gyda'r Llywodraeth i sicrhau bod y gwaith o leihau'r amhariad ar wylwyr yn cael ei reoli'n briodol.*

## Cyfathrebu M2M a'r Rhyngrwyd Pethau

Dywedodd y **Joint Radio Company (JRC)** y bydd angen mudo gwasanaethau seilwaith hollbwysig i'r systemau Grid Clyfar, a fydd o reidrwydd yn golygu cynnydd sylweddol mewn cyfraddau data a rhagor o fynediad at sbectrwm. Roedd JCR yn rhag-weld y byddai hyn yn gofyn am 2 x 3 MHz o sbectrwm preifat y band 400MHz. [71] Gofynnodd JCR hefyd am wneud systemau fideo band llydan 150 kHz a systemau band eang 1.25 MHz ar gael yn y Band 400 MHz ar gyfer diogelwch ar y safle ac at ddibenion eraill.[72]A1.1

*Rydym yn nodi y bydd defnyddwyr Radio Symudol Proffesiynol (PMR) yn dal i fod angen mynediad at y sbectrwm UHF, gan gynnwys i ddefnyddio technolegau newydd arloesol. Rydym yn credu bod ein trefn awdurdodi bresennol ar gyfer Radio Busnes yn gallu delio â cheisiadau M2M/y Rhyngrwyd Pethau sydd angen mynediad i'r ystod UHF. Mae'r trwyddedau Radio Busnes hyn wedi'u dylunio i fod yn niwtral o ran gwasanaeth a thechnoleg. Mae ein safbwynt polisi ar gyfer rhwydweithiau PMR wedi'i adlewyrchu ym Marn y Grŵp Polisi Sbectrwm Radio[73]*A1.1 *ar y Rhyngrwyd Pethau, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2016.*

*O ran diogelwch ar y safle, mae llawer o ddyraniadau fideo sydd wedi'u heithrio o drwydded eisoes ar gael i'w defnyddio yn y DU. Gellir dod o hyd i'r rhain yn ein Gofyniad Rhyngwyneb IR2030. Nid yw Ofcom yn credu bod angen dyblygu'r ceisiadau diogelwch ar y safle hwn o fewn y bandiau 400 MHz.*

A2.25 Dywedodd **Thingitude** nad yw marchnad y Rhyngrwyd Pethau yn y DU yn gwneud cystal â marchnadoedd Ewropeaidd eraill, yn rhannol oherwydd dryswch ac **ansicrwydd ynghylch rheolau presennol**, yn enwedig o ran y rhwymedigaethau ynghylch preifatrwydd a diogelu data. Anogodd Thingitude Ofcom i adolygu'r rheolau presennol, a diweddaru ac egluro'r rhwymedigaethau a'r dyletswyddau a

---

[69] Voice of the Listener and Viewer, tt. 3, 6-8.
Ofcom, Datganiad: Maximising the benefits of 700 MHz clearance, Hydref 2016, tt. 6, 13-14.
[71] Voice of the Listener and Viewer, tt. 3, 6-8.
[72] Ibid.
[73] Y Comisiwn Ewropeaidd, RSPG17-006 Final, 9 Tachwedd 2016, tt. 9-10.

roddir ar wahanol randdeiliaid yn y gadwyn gwerth, a hynny fel mater o frys yn y flwyddyn nesaf.[74]

*Bydd y Rhyngrwyd Pethau yn cynhyrchu llawer iawn o ddata a gesglir o synwyryddion a dyfeisiau eraill, a bydd llawer o'r data hwn yn cael ei storio a'i brosesu yn y cwmwl. Mae'r pryderon ynglŷn â'r materion preifatrwydd a ddaw yn sgil casglu, rhannu a defnyddio'r data hwn yn berthnasol i bron bob sector. Nid yw preifatrwydd data yn rhan uniongyrchol o gylch gwaith Ofcom. Serch hynny, rydym yn cydnabod bod materion preifatrwydd data yn gallu effeithio'n sylweddol ar ddefnyddwyr ac, os na ddelir â nhw'n briodol, gallant atal twf y Rhyngrwyd Pethau yn y dyfodol. O ystyried hyn, bydd Ofcom yn parhau i chwarae rôl, ochr yn ochr â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, yn codi ymwybyddiaeth defnyddwyr o'r materion preifatrwydd sy'n gysylltiedig â defnyddio'r Rhyngrwyd Pethau.*

## Darlledu

A2.26 Dadleuodd **MG Alba** y dylai Trwydded Weithredu nesaf Ofcom ar gyfer y BBC ymdrin â heriau economaidd yn ogystal â'r rheini sy'n gysylltiedig â chynrychioli a phortreadu. Aeth ymlaen i ddadlau y dylai'r Cynllun Blynyddol "gwmpasu'r gwaith o sefydlu'r mesurau a fydd yn dal y BBC i gyfrif" ar gyfer paragraff 40 yng Nghytundeb y BBC (sy'n ymwneud â darpariaeth Gaeleg).[75]

*Yn ddiweddar, rydym wedi agor ymgynghoriad ar ein dull arfaethedig ar gyfer dal y BBC i gyfrif wrth iddo gyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus, gan gynnwys yng nghyswllt ei berfformiad yn y Gwledydd a'r Rhanbarthau.[76] Bydd y Drwydded Weithredu yr ydym wedi'i rhoi mewn lle ar gyfer y BBC yn egluro'n glir yr amodau rheoleiddio yr ydym wedi'u rhoi ar y BBC yn yr Alban. Byddwn yn mesur yn flynyddol sut mae'r BBC yn perfformio yn erbyn y gofynion hyn, ac i ba raddau mae'n bodloni disgwyliadau talwyr ffi'r drwydded ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig.*

*Ochr yn ochr â'r gofynion newydd hyn, yn 2017/18 byddwn yn lansio adolygiad o'n canllawiau ar gynhyrchu rhaglenni y tu allan i Lundain, er mwyn sicrhau bod y rhaglenni a wneir y tu allan i Lundain, ym marn y BBC a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, yn gwneud cyfraniad go iawn at economïau creadigol y gwledydd a'r rhanbarthau.*

Dywedodd y **Grŵp Ewropeaidd ar gyfer Technoleg ac Iechyd** fod y BBC wedi colli llawer o'i **safonau hygyrchedd ISO** a dderbynnir o'r blaen o ran lliwiau, siapiau, ffurfiau, a sut mae'r materion hyn yn effeithio ar bobl ag anableddau. Dadleuodd y dylai Ofcom ystyried y materion hyn.[77]

*Mae Ofcom yn cyhoeddi canllawiau[78] ar ddarpariaeth gwasanaethau mynediad teledu, ond nid yw'n mandadu safonau technegol. Rydym wrthi'n ymgynghori ar y Cod a fydd yn berthnasol i holl wasanaethau cyhoeddus y BBC o ran hygyrchedd, ac rydym yn croesawu unrhyw sylwadau gan randdeiliaid sydd â diddordeb.[79]*

A2.27 Anogodd **The Voice of the Listener and Viewer** Ofcom i weithio gyda'r Llywodraeth a darlledwyr i gildroi'r broses o golled barhaus o **fuddsoddiad mewn**

---

[74] Thingitude, t. 1.
[75] MG ALBA, t. 3.
[76] Ofcom, Dal y BBC i gyfrif am gyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus, 29 Mawrth 2017.
[77] EKTG, t. 1.
[78] Atodiad 3 y Cod ar Wasanaethau Mynediad Teledu.
[79] Ofcom, Dal y BBC i gyfrif am gyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus, 29 Mawrth 2017.

**allbwn darlledu gwasanaeth cyhoeddus**, yn enwedig rhaglenni plant, rhaglenni ar y celfyddydau a cherddoriaeth glasurol, a rhaglenni crefyddol yn y DU.[80]

*Amlygodd Ofcom amrywiaeth o heriau posibl o ran darparu rhai genres yn ei Adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn 2015. Mater i'r Llywodraeth yw unrhyw benderfyniad ynglŷn â'r posibilrwydd o ddiwygio'r system i fynd i'r afael â hyn. Ein ffocws eleni o ran darlledu gwasanaeth cyhoeddus yw ein hadolygiad blynyddol o berfformiad Corfforaeth Channel 4, a gweithredu ein dyletswyddau newydd yng nghyswllt y BBC.*

A2.28 Dywedodd y **Panel Defnyddwyr Cyfathrebu** ei fod yn siomedig â'r "diffyg cynnydd yn ddiweddar ym maes Gwasanaethau Mynediad - yn enwedig mewn perthynas ag isdeitlo a Chyfeiryddion Rhaglenni Electronig llafar." Dadleuodd ymhellach y dylai Ofcom fesur a deall anghenion defnyddwyr, gyda'r nod o sicrhau mynediad cyfartal.

*Mae Ofcom yn credu'n gryf y dylai defnyddwyr â nam ar eu clyw a/neu eu golwg gael mynediad i ystod eang o wasanaethau teledu, boed hynny yn rhai darlledu neu'n rhai ar-alwad. Rydym wedi bod yn gweithio gyda darparwyr gwasanaethau ar-alwad a grwpiau defnyddwyr i annog gwell hygyrchedd o ran gwasanaethau ar-alwad.*

*Yn 2016, cynhaliwyd gennym raglen ymgysylltu â'r prif ddarparwyr gwasanaethau ar-alwad, ac aethom ati i ymgynghori ar y ffordd rydym yn adrodd ar hygyrchedd gwasanaethau o'r fath i alluogi'r diwydiant i ddefnyddio mwy ar y wybodaeth hon, a hynny i fonitro cynnydd, yn ogystal â galluogi defnyddwyr i ddefnyddio mwy arni, a hynny i ddewis gwasanaethau hygyrch.*

*Ar hyn o bryd, nid oes gan Ofcom bwerau statudol sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y gwasanaethau ar-alwad yr ydym yn eu rheoleiddio yn hygyrch. Rydym wedi datgan wrth y Llywodraeth a'r Senedd y byddem yn croesawu pwerau cryfach yn y maes hwn er mwyn sbarduno rhagor o gynnydd. Mae mesurau rheoleiddio wedi'u cynnwys yn y Bil Economi Ddigidol yn awr, sydd wrthi'n symud drwy'r Senedd. Mae'r mesurau hyn yn rhoi pwerau newydd i Ofcom er mwyn creu Cod Ymarfer ar gyfer y gwasanaethau hygyrchedd a ddarperir gan ddarlledwyr fideo ar-alwad. Os bydd y fersiwn hwn o'r Bil yn dod i rym, bydd gennym bwerau newydd i reoleiddio hygyrchedd gwasanaethau ar-alwad yn y dyfodol.*

A2.29 Yn ôl **Llywodraeth Cymru**, pan fydd trwyddedau teledu a radio yn cael eu hadolygu a'u dyfarnu i orsafoedd yng Nghymru, dylai Ofcom ystyried **natur ddwyieithog Cymru, a'i gwneud yn ofynnol fel amod trwydded** bod hyn a hyn o oriau yn cael eu darlledu'n Gymraeg.[81]

*Mae Ofcom yn trwyddedu nifer o orsafoedd teledu a radio yng Nghymru. Mae Ofcom yn asesu'r ceisiadau am y trwyddedau hyn (a newidiadau dilynol i'r trwyddedau) yn erbyn meini prawf statudol penodol. Nid yw'r rhain yn cynnwys ystyriaethau'n ymwneud â'r iaith Gymraeg yn benodol, er gall ceiswyr gynnig cynnwys yr iaith Gymraeg yn eu gwasanaethau, a byddai hynny'n cael ei gynnwys yn eu trwyddedau. Byddai newidiadau i'r meini prawf statudol yn gofyn am ddiwygio deddfwriaethol.*

---

[80] Voice of the Listener and Viewer, t. 4.
[81] Llywodraeth Cymru, tt. 2-3.

A2.30 Dywedodd **Llywodraeth Cymru** na ddylid **newid i radio digidol** nes bod modd gwarantu o leiaf 97% o ddarpariaeth DAB drwy Gymru gyfan, yn seiliedig ar y ffaith na ddylai'r ddarpariaeth DAB fod yn waeth na'r ddarpariaeth AM/FM yng Nghymru ar hyn o bryd.[82]

*Mae newid i radio digidol, ac ar ba ffurf y byddai unrhyw newid o'r fath, yn fater polisi i Lywodraeth y DU benderfynu arno. Mae'r Llywodraeth wedi nodi y bydd yn ystyried dyddiad posibl ar gyfer newid pan fydd meini prawf penodol yn ymwneud â lefelau'r ddarpariaeth DAB a'r nifer sy'n gwrando wedi cael eu bodloni. Y disgwyl ar hyn o bryd yw y caiff y meini prawf hyn eu bodloni tua diwedd 2017, neu'n gynnar yn 2018, a phan fydd hynny'n digwydd rydym yn rhag-weld y gallai'r Llywodraeth fod yn awyddus i gynnal adolygiad cyn gwneud unrhyw benderfyniadau am newid. Fel rhan o'r adolygiad hwn, efallai y gofynnir i Ofcom am gyngor technegol ar faterion fel lefelau'r ddarpariaeth DAB yng ngwledydd y DU.*

## Llythrennedd yn y cyfryngau

A2.31 Dywedodd y Gymdeithas ar gyfer Addysg y Cyfryngau yn yr Alban (AMES) fod angen rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd am rolau Ofcom, yn enwedig o ystyried bod Ofcom ar fin ysgwyddo cyfrifoldebau rheoleiddio mewn perthynas â'r BBC, yn ogystal â'r pryderon ynglŷn â 'newyddion ffug' ar hyn o bryd. Awgrymodd AMES y byddai cylch gwaith Ofcom yng nghyswllt llythrennedd yn y cyfryngau ar ei ennill drwy gysylltu â thîm Addysgu a Dysgu Digidol Education Scotland, gyda'r bwriad o ddatblygu adnoddau ar-lein a fyddai'n cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd.[83]

*Rydym yn cytuno bod darparu gwybodaeth glir am ddatblygiadau cyfathrebiadau yn bwysig. Mae gennym ystod o ganllawiau i ddefnyddwyr ar ein gwefan er cymorth yn y cyswllt hwn, ac rydym yn cyfathrebu gyda defnyddwyr drwy gyfryngau cymdeithasol. Rydym wedi datblygu adnoddau addysgol gan ddefnyddio ein data ymchwil llythrennedd plant yn y cyfryngau, a lansiwyd gennym yn 2016 a'u diweddaru ym mis Chwefror 2017 fel rhan o'r Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel. Rydym yn cysylltu'n rheolaidd ag ystod o randdeiliaid ynghylch ein hymchwil llythrennedd yn y cyfryngau, ac yn eistedd ar amrywiol grwpiau llywio i roi cyngor ac i hyrwyddo'r ymarfer gorau ym maes llythrennedd yn y cyfryngau, gan gynnwys MediaSmart, sy'n datblygu adnoddau i'r ystafell ddosbarth.*

## Fframwaith rheoleiddio y Post Brenhinol

A2.32 Dywedodd **John Knowles** y dylai Ofcom astudio strwythur costau pob agwedd ar waith y Post Brenhinol, ac nid ar gyfer danfon yn unig, ond hefyd i fodloni ei hun fod y cyhoedd yn talu'n briodol am bob gwasanaeth, yn arbennig o ran prisiau postio gwahanol bwysau a meintiau.[84] Amlygodd Uned Ffi'r Drwydded y BBC bwysigrwydd adolygiad o'r broses o reoleiddio'r Post Brenhinol ar gyfer creu fframwaith rheoleiddio sy'n hwyluso cystadleuaeth.[85]

A2.33 Pwysleisiodd **Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon** bwysigrwydd sicrhau rhagor o dryloywder ynghylch effeithlonrwydd rhwydwaith danfon y Post Brenhinol.[86] Mynegodd y **Panel Defnyddwyr Cyfathrebu** bryderon nad oedd y

[82] Llywodraeth Cymru, t. 3.
[83] AMES, t. 1.
[84] John Knowles, t. 1.
[85] Uned Ffi'r Drwydded y BBC, t. 2.
[86] Cyngor Defnyddwyr, t. 2.

Post Brenhinol wedi cyrraedd yr ansawdd sylfaenol o safonau gwasanaethau sy'n ofynnol arno o dan ei rwymedigaethau rheoleiddio.[87] Gofynnodd y **CWU** i Ofcom beidio â gosod safonau effeithlonrwydd afresymol ar y Post Brenhinol, ac i ddarparu fframwaith rheoleiddio sy'n cefnogi buddsoddi.[88]

Dywedodd **Cyngor ar Bopeth yr Alban** fod angen talu sylw arbennig i fonitro cystadleuaeth mewn gwasanaethau danfon parseli a llythyrau mewn ardaloedd gwledig.[89] Anogodd **y Post Brenhinol** Ofcom i ailystyried y mesurau y mae wedi'u cynnig o ran cynaliadwyedd yr USO, gan nodi pwysigrwydd cynnal y cronfeydd refeniw sydd eu hangen i dalu am yr USO.[90]

*Yn ddiweddar, mae Ofcom wedi cwblhau ei adolygiad o'r broses o reoleiddio'r Post Brenhinol.[91] Yn hyn o beth, daethom i'r casgliad fod y dull presennol ar gyfer rheoleiddio'r Post Brenhinol (gan gynnwys hyblygrwydd prisiau) yn dal yn briodol er mwyn sicrhau darpariaeth gwasanaeth post cyffredinol sy'n effeithlon ac yn gynaliadwy'n ariannol, ac mai'r ffordd orau o ofalu am fuddion defnyddwyr yn y sector parseli yw drwy gystadleuaeth. Mae Ofcom yn credu bod ansawdd gwasanaethau'r gwasanaeth post cyffredinol yn bwysig iawn. Byddwn yn parhau i fonitro perfformiad y Post Brenhinol ac, os bydd angen, yn cymryd rhagor o gamau gorfodi. Yn ogystal â hyn, yn ystod 2017-18 bydd Ofcom yn adolygu'r rheoliadau ansawdd gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn dal yn briodol.*

A2.34 Dywedodd **y Post Brenhinol** fod gwaith Ofcom yn rhoi baich sylweddol arnynt, gan gynnwys rhwymedigaeth i'r gwasanaethau Mynediad ac USO gynnal ymgyngoriadau a chyhoeddi newidiadau ymlaen llaw, ac i gynhyrchu 170 o adroddiadau i Ofcom bob blwyddyn. Aeth y Post Brenhinol ymlaen i grybwyll achosion o orgyffwrdd rhwng cynlluniau gwaith Ofcom a chyrff eiriolaeth defnyddwyr, sy'n dyblygu gwaith ac yn codi costau rheoleiddio'r diwydiant. Dywedodd y Post Brenhinol hefyd fod angen brys am ragor o dryloywder a dosbarthiad teg o ran ffioedd rheoleiddio gwasanaethau post.[92]

*Ers ysgwyddo cyfrifoldeb am reoleiddio gwasanaethau post yn 2011, mae Ofcom wedi lleihau cost rheoleiddio yn y sector post dros 50% mewn termau real. Ar gyfer 2017/18, mae'r ffi arfaethedig ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau post, sef £2.86m, yn ostyngiad sylweddol pellach. Mae hyn ar ôl i ni gwblhau ein hadolygiad cynhwysfawr o'r broses o reoleiddio'r Post Brenhinol yn 2017. Felly, mae ein gwaith arfaethedig o ran rheoleiddio gwasanaethau post yn llai o lawer ar gyfer 2017/18 nag y bu yn y blynyddoedd blaenorol. Serch hynny, efallai na fydd tariffiau yn y dyfodol yn parhau ar y lefel isel hon, gan y byddant yn cael eu pennu gan y gwaith yr ydym yn bwriadu/angen ei wneud o un flwyddyn i'r llall.*

*Y Post Brenhinol yw'r darparwr gwasanaeth cyffredinol dynodedig yn y DU, a'r cwmni parseli mwyaf yn y DU, gyda monopoli ar ddanfon llythyrau fwy neu lai. Mae'n gwbl briodol mai'r Post Brenhinol yw'r canolbwynt ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau post. Serch hynny, ers 2011 mae Ofcom wedi lleihau'r rheoliadau ar y Post Brenhinol yn sylweddol. Er enghraifft, yn 2011 roedd tua 80% o refeniw'r Post Brenhinol dan reolaeth prisiau; 5% yw'r ffigur hwnnw bellach. Cafodd y*

[87] Panel Defnyddwyr Cyfathrebu, t. 8.
[88] CWU, tt. 3-5.
[89] Citizen's Advice Scotland, t. 3.
[90] Y Post Brenhinol, tt. 7, 11.
[91] Ofcom, Adolygu'r broses o Reoleiddio'r Post Brenhinol, 1 Mawrth 2017.
[92] Y Post Brenhinol, tt. 3-8.

*gofynion hysbysu ar y Post Brenhinol eu lleihau ymhellach gan yr Adolygiad o'r Broses o Reoleiddio'r Post Brenhinol[93], a gwblhawyd yn ddiweddar. O ran adroddiadau rheoleiddiol, rydym yn dadlau â haeriad y Post Brenhinol fod gofyn iddo gynhyrchu 170 o adroddiadau i Ofcom bob blwyddyn. Pa un bynnag, byddwn yn cyhoeddi ein Hadolygiad o Adroddiadau Ariannol Rheoleiddiol maes o law, ac ynddo byddwn yn cynnig lleihau cost a swm rhwymedigaethau adrodd y Post Brenhinol ymhellach.*

*Yn ogystal â hynny, ategu yw bwriad gwaith Ofcom gyda chyrff eiriolaeth defnyddwyr. Er enghraifft, o ran codi tâl ychwanegol am barseli, mae Ofcom wedi dadansoddi rhai o'r materion ar yr ochr gyflenwi (ee costau danfon parseli), ac mae cyrff eiriolaeth defnyddwyr wedi ymchwilio i faterion ar yr ochr galw (ee profiad defnyddwyr). Yn 2017/18, nid oes achos o ddyblygu gwaith rhwng Ofcom a'r cyrff eiriolaeth defnyddwyr. Yn olaf, yn 2017/18 bydd Ofcom yn adolygu ei ddull o adennill costau rheoleiddio gwasanaethau post ac eiriolaeth defnyddwyr, gyda'r nod o roi trefniadau newydd ar waith ar gyfer 2018/19.*

## Hawliau gweithwyr post a negeseuon e-bost sgam

A2.35 Cododd **Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu (CWU)** bryderon ynglŷn â hunangyflogaeth ffug yn y sector parseli. [94] Anogodd **Cyngor ar Bopeth yr Alban** Ofcom i ystyried y problemau a godir yn sgil sgamiau post.[95]

*Nid oes gan Ofcom rôl yng nghyswllt arferion cyflogi cwmnïau. Cyfrifoldeb cwmnïau unigol yw sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chyfreithiau llafur, a chyfrifoldeb yr asiantaethau priodol yw gorfodi'r gyfraith. O ran sgamiau post, bydd Ofcom yn parhau i gefnogi'r cwmnïau post a'r asiantaethau gorfodi priodol.*

## Materion eraill sy'n ymwneud â phost

A2.36 Dadleuodd **y Post Brenhinol** y dylai Ofcom roi rheoliadau mewn lle a gweithredu set o **safonau sylfaenol i bob prif weithredwr parseli**, gan gynnwys gofynion ar gyfer diogelwch eitemau post a delio â chwynion.[96] Dywedodd y **CWU** fod cystadleuaeth parseli heb ei rheoleiddio, a sbardunir gan dwf masnach ar-lein, yn tanseilio’r gwaith o reoleiddio’r gwasanaeth post cyffredinol a’i gynaliadwyedd economaidd ac ariannol, a dadleuodd y dylai Ofcom fod wedi cyflwyno safonau ansawdd sylfaenol.[97].

*Mae Ofcom wedi ystyried y dadleuon hyn fel rhan o'r ymgynghoriad ar yr Adolygiad o'r Broses o Reoleiddio’r Post Brenhinol. Casglodd Ofcom wybodaeth gan y diwydiant a chynnal ei ddadansoddiad ei hun o ddiogelwch eitemau post yn y sector parseli. Daethom i'r casgliad fod defnyddwyr yn cael eu hamddiffyn gan gystadleuaeth, gwasanaethau tracio gan y rhan fwyaf o wasanaethau parseli a chyfraith defnyddwyr wrth siopa ar-lein. Felly, penderfynwyd gennym nad oedd rhaid cynyddu'r rheoliadau ar gwmnïau parsel cystadleuol.*

A2.37 Dywedodd **y Post Brenhinol** fod **rheoliad drafft y Comisiwn Ewropeaidd ar wasanaethau danfon parseli ar draws ffiniau** yn ddiangen, gan fod y farchnad yn gystadleuol iawn, gyda rhwystrau isel o ran ymuno, costau newid isel, a

[93] Ofcom, Adolygu’r broses o Reoleiddio'r Post Brenhinol, 1 Mawrth 2017.
[94] CWU, tt. 3-5.
[95] Citizen’s Advice Scotland, t. 3.
[96] Y Post Brenhinol, t.11.
[97] CWU, t. 3.

lluosogrwydd o weithredwyr. Dadleuodd y Post Brenhinol na ddylai rheoliadau ychwanegol gael effaith niweidiol ar wasanaethau danfon Ewrop a chwsmeriaid yn anfwriadol.[98]

*Mae Ofcom yn nodi pryderon y Post Brenhinol ynglŷn ag angenrheidrwydd mesurau'r Comisiwn Ewropeaidd yn ei reoliad drafft ar wasanaethau danfon ar draws ffiniau  Rydym yn darparu cyngor technegol i'r Llywodraeth ynghylch manylion y rheoliad arfaethedig sydd wrthi'n cael ei ystyried gan Senedd Ewrop a Chyngor Ewrop. Er ein bod yn croesawu'r bwriad sydd wrth wraidd y mesurau hyn a ddylunnir i ehangu tryloywder prisiau a chynyddu'r oruchwyliaeth reoleiddiol ar wasanaethau danfon parseli ar draws ffiniau yn yr UE, byddem yn cytuno bod y farchnad hon yn gystadleuol iawn, ac mae gennym hefyd nifer o bryderon ynglŷn â rhannau penodol o'r Rheoliad drafft a'u cymesuredd, eu heglurder a'r gallu i'w gorfodi. Mae'r pryderon hyn yn cynnwys y baich rheoleiddiol y byddai'r cynigion yn debygol o'i roi ar nifer fawr o weithredwyr parseli bach yn DU, yn ogystal â beichiau arfaethedig newydd ar awdurdodau rheoleiddio cenedlaethol, sy'n cynnwys gofyniad i gynnal asesiadau fforddiadwyedd ar ystod eang o gynnyrch, a hynny o fewn amserlenni tyn. Ar ben hynny, rydym o'r farn nad yw asesiadau fforddiadwyedd o'r fath wedi cael eu diffinio'n ddigonol yng nghynigion y Comisiwn ar hyn o bryd.*

*Bydd Ofcom yn parhau i godi'r materion hyn a rhai eraill yn uniongyrchol a, lle bo'n briodol, drwy'r Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Post (ERGP), gyda'r nod o ddylanwadu ar destun unrhyw reoliad terfynol.*[99]

## Problemau eraill

A2.38 Dywedodd **BT** nad yw'r **broses o reoleiddio ffonau talu** wedi newid ers dros ddeng mlynedd, er newidiadau mawr i fforddiadwyedd gwasanaethau symudol, eu hygyrchedd a'u darpariaeth yn ystod y cyfnod hwn. Dywedodd BT er ei fod yn disgwyl i systemau IP gymryd lle hen dechnolegau Rhwydweithiau Ffôn Cyfnewidfa Gyhoeddus, ni ellir, ar hyn o bryd, cyfiawnhau costau'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno ateb IP ar gyfer ffonau talu yn erbyn y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol rheoleiddiol presennol. Anogodd BT Ofcom i gymryd camau yn awr i sicrhau bod unrhyw reoliad sy'n aros yn ei le yn briodol, yn amddiffynadwy ac yn gynaliadwy yn y tymor hwy.[100]

*Bydd Ofcom yn adolygu'r gofynion ar gyfer blychau ffonio cyhoeddus, gan gynnwys y rheolau y dylid eu gweithredu pan ddylid cynnal blychau ffonio, a'r rheolau ar gyfer asesu a oes modd tynnu blychau ffonio, a'r prosesau ar gyfer eu tynnu. Rydym yn disgwyl ymgynghori ar hyn erbyn Ch3 2017/18.*

A2.39 Cododd **UKCTA** bryderon ynglŷn ag Ofcom yn defnyddio tybiaethau wedi'u symleiddio o rwydweithiau a defnyddwyr wrth ddelio ag atebion sy'n effeithio ar yr ystod o gadwyni gwerth cymhleth sydd wedi datblygu yn y DU. Dadleuodd y gall hyn arwain at ganlyniadau anfwriadol ac achosi niwed. Nododd farn Ofcom ar y gadwyn gwerth symudol yn yr ymgyngoriadau newid presennol fel enghraifft.

*Rydym yn cytuno ag UKCTA ei bod yn bwysig deall cadwyn gwerth unrhyw farchnad yr ydym yn ymyrryd ynddi, a rhoi ystyriaeth ofalus i effaith bosibl ein*

---

98 Y Post Brenhinol, t. 10.
99 Edrychwch er enghraifft ar ERGP, Rhaglen Waith 2017.
100 BT, t. 4.

*hatebion ar y chwaraewyr dan sylw. Rydym yn annog rhanddeiliaid i ymateb i'n hymgyngoriadau â gwybodaeth am y farchnad berthnasol, yn enwedig os ydynt yn poeni am effeithiau posibl yr atebion y byddwn efallai'n eu rhoi ar waith.*

## Diogelu defnyddwyr rhag niwed

### Defnyddwyr llinell dir yn unig

A2.40 Amlygodd **Cyngor ar Bopeth yr Alban** y ffioedd anghymesur o ddrud a godir ar ddefnyddwyr llinell dir yn unig, gan ddadlau bod y diffyg cystadleuaeth yn y farchnad hon a phrisiau rhentu llinell uwch yn arbennig o niweidiol i sefyllfa ariannol defnyddwyr incwm isel a defnyddwyr bregus.[101]

A2.41 Cwestiynodd y **Grŵp Ewropeaidd ar gyfer Technoleg ac Iechyd** ymrwymiad Ofcom i wella canlyniadau i gwsmeriaid llinell dir yn unig, yn enwedig mewn perthynas â phobl sy'n dibynnu arnynt. Dadleuodd fod BT yn arbennig heb gynnig unrhyw daliadau iawndal mewn ymateb i gyfnodau segur parhaus gwasanaethau.[102]

*Fel yr ydym yn nodi yn adran 3.21 ein Cynllun Blynyddol, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod defnyddwyr llinell dir yn unig yn cael eu diogelu rhag prisiau uchel, ac yn elwa o ddewis a chystadleuaeth yn y farchnad. Bydd ein hadolygiadau o'r farchnad llinell dir adwerthu band cul yn unig, ac o'r farchnad band cul cyfanwerthol, yn allweddol i adnabod materion penodol y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw.*

*Ar 24 Mawrth 2017, cyhoeddon ni ein hymgynghoriad ar iawndal awtomatig.*[103] *Mae hwn yn cynnwys cynigion i dalu iawndal i gwsmeriaid sy'n colli gwasanaethau llais a/neu fand eang sefydlog. Gwahoddwn chi i ddarllen yr ymgynghoriad a byddem yn croesawu unrhyw ymateb sydd gennych chi. Y dyddiad olaf ar gyfer ymateb yw 5 Mehefin 2017.*

### Defnyddwyr band eang ar incwm isel

A2.42 Dywedodd **Cyngor ar Bopeth yr Alban** fod defnyddwyr gwasanaethau band eang sydd ar incwm isel mewn perygl o niwed ariannol yn sgil prisiau rhentu llinell uwch. Anogodd Ofcom i ystyried sut gallai manteision mwy o gystadleuaeth mewn gwasanaethau llinell sefydlog gael eu pasio ymlaen i ddefnyddwyr ar incwm isel.[104]

*Rydym yn parhau i fonitro prisiau gwasanaethau i bob defnyddiwr, gan gynnwys rhai bregus. Mae gennym bryderon ynglŷn â chanlyniadau i ddefnyddwyr llais yn unig annibynnol, ac rydym wedi dechrau adolygiad. Mae gwasanaethau wedi'u bwndelu yn dal i fod yn eithaf cystadleuol, ond rydym wedi gweithio gyda'r Awdurdod Safonau Hysbysebu ynghylch hysbysebu prisiau band eang. Ar ben hynny, ym mis Rhagfyr 2016 rhoddon ni gyngor technegol ar ddyluniad y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol Band Eang i Lywodraeth y DU, gan gynnwys yng nghyswllt tariff cymdeithasol i sicrhau bod pawb yn gallu fforddio band eang. Yn olaf, rydym yn nodi bod pecyn Sylfaenol a Band Eang BT ar gael i ddefnyddwyr incwm isel ar sail prawf modd.*

---

[101] Cyngor ar Bopeth yr Alban, tt. 3-4.
[102] EKTG, t. 1.
[103] Ofcom, Iawndal Awtomatig, ymgynghoriad, 24 Mawrth 2017.
[104] Cyngor ar Bopeth yr Alban, tt. 3-4.

## Galwadau niwsans

A2.43 Anogodd **y Panel Defnyddwyr Cyfathrebu** Ofcom i weithredu'r cynnig o ddarparu gwasanaeth adnabod y galwr am ddim fel mater o drefn i ddefnyddwyr, ac i adnabod a chymryd camau yn erbyn y rheini sy'n gwneud galwadau niwsans.[105] Mynegodd **ACNI** bryderon ynglŷn â'r amser mae'n ei gymryd i leihau Galwadau Niwsans yn sylweddol, a nododd y byddai'n fuddiol i ddefnyddwyr weld yr amserlenni ynghlwm wrth yr amcan hwn.[106] Dywedodd **Three** y dylai Ofcom ategu atebion technegol fel rhwystro â mesurau eraill fel rhoi gwybod i ddefnyddwyr sut i ddelio â chyswllt niwsans, yn debyg i'r gwaith y mae Ofcom wedi'i wneud â'r TPS.[107] Gofynnodd **Which?** am weld camau cadarn yn cael eu cymryd cyn gynted ac mor effeithiol â phosibl, gyda chanlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr yn cael eu nodi, eu mesur a'u monitro'n glir.[108]

*Mae sawl agwedd ar ddull Ofcom ar gyfer galwadau niwsans, ac maent yn cynnwys:*

- *gweithio gyda darparwyr cyfathrebiadau i weithredu atebion technegol, fel rhwystro neu atal galwadau. Rydym eisoes wedi gweld nifer o ddarparwyr cyfathrebiadau yn lansio systemau rhwystro neu ddargyfeirio galwadau i leihau niwed galwadau niwsans.*

- *ffurfioli proses i Ofcom gyhoeddi cyfarwyddiadau rhwystro o dan Amod Cyffredinol 20.3. Bydd hyn yn galluogi Ofcom i gyhoeddi cyfarwyddiadau o'r fath yn fwy effeithlon yn y dyfodol, lle bo hynny'n briodol. Disgwylir i'r datganiad terfynol gael ei gwblhau yn ystod gwanwyn 2017.*

- *Rydym yn cryfhau'r gofynion ar ddarparwyr cyfathrebiadau yng nghyswllt Gwasanaethau Adnabod y Galwr, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu'r gwasanaeth hwn am ddim.*

- *cymryd camau gorfodi ffurfiol lle bo hynny'n briodol ac yn angenrheidiol, yn gyson â'i ddatganiad polisi diwygiedig ar gamddefnyddio cyson, a gyhoeddwyd ar 20 Rhagfyr 2016.*

- *cyhoeddi diweddariad blynyddol ar Gynllun Gweithredu Ofcom ar y cyd â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Roedd ein cyhoeddiad diweddaraf[109] hefyd yn cynnwys dadansoddiad o gwynion ac ymchwil defnyddwyr a oedd yn awgrymu bod defnyddwyr yn dechrau cael llai o alwadau niwsans.*

## Cynlluniau Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod (ADR)

A2.44 Argymhellodd **Gwasanaethau'r Ombwdsmon** fod Ofcom, fel rhan o'i adolygiad o gynlluniau ADR, yn ystyried y rôl y gall ombwdsmon ei chwarae drwy ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd yn sgil cwynion unigol i atal niwed ehangach i ddefnyddwyr.[110] Gofynnodd **Llywodraeth Cymru** am fwy o wybodaeth am i ba raddau y byddai

[105] Panel Defnyddwyr Cyfathrebu, t. 7.
[106] ACNI, t. 2.
[107] Three, t. 14.
[108] Which?, tt. 3-5.
[109] Ofcom, Tackling nuisance calls and messages: update on the ICO and Ofcom Joint Action Plan, Rhagfyr 2016.
[110] Gwasanaethau'r Ombwdsmon, tt. 4-5.

gwasanaeth ADR ar gael yn Gymraeg.[111] Galwodd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebu am gyhoeddi data cwynion o gynlluniau ADR, lleihau'r cyfnod atgyfeirio wyth wythnos presennol a rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i gynlluniau ADR.[112]

*Mae gennym raglen gorfodi barhaus i sbarduno gwelliannau yn y ffordd mae darparwyr cyfathrebiadau yn delio â chwynion, gan gynnwys sicrhau eu bod yn rhoi gwybod i ddefnyddwyr am fecanweithiau ADR. Rydym hefyd wedi gosod cynigion ar gyfer cryfhau'r rheolau rheoleiddio ar ddelio â chwynion fel rhan o'n hadolygiad ehangach o'r Amodau Cyffredinol. Mae Ofcom yn gweithio'n agos gyda'r cynlluniau ADR sydd wedi'u cymeradwyo i ddeall y materion y mae defnyddwyr yn defnyddio ADR ar eu cyfer. Rydym hefyd yn bwriadu dechrau cyhoeddi data eleni ynghylch yr achosion y mae'r cynlluniau yn eu derbyn. Er ein bod yn gweithio gyda darparwyr cynlluniau ADR, nid ydym yn rhedeg cynlluniau o'r fath ac nid ydym wedi'u cynnwys yn ein gofynion yng nghyswllt yr iaith Gymraeg. Mater i'r darparwr a Chomisiynydd y Gymraeg fyddai gwneud penderfyniad ynghylch gwneud cynllun ADR ar gael yn Gymraeg.*

## Safonau golygyddol y BBC

A2.45 Anogodd **the Voice of the Listener and Viewer** Ofcom i ddarparu rhagor o eglurder ynghylch sut bydd yn rheoleiddio safonau golygyddol, cywirdeb a didueddrwydd cynnwys y BBC, gan gynnwys drwy sicrhau bod proses apeliadau effeithiol yn ei lle. Argymhellodd the Voice of the Listener and Viewer fod Ofcom yn gweithredu fel ôl-stop rheoleiddiol allanol ar gyfer holl gynnwys y BBC ar draws pob llwyfan (fel y mae Ymddiriedolaeth y BBC yn ei wneud ar hyn o bryd), er enghraifft gan gynnwys y World Service a gwasanaethau masnachol dramor.[113]

*O dan Siarter a Chytundeb newydd y BBC, mae'n rhaid i Ofcom wneud rheolau ei God Darlledu yn berthnasol i gynnwys darlledu'r BBC ac, fel y bo'n briodol, i gynnwys ar-alwad y BBC. Mae Datganiad Ofcom yn dilyn ein hadolygiad diweddar o'r rheolau ar ddidueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy, etholiadau a refferenda yn nodi sut byddwn yn gwneud yr adrannau penodol hyn o'r Cod yn berthnasol i'r BBC.[114] Rydym wedi nodi mewn Datganiad ar wahân sut mae rhannau eraill o'r Cod wedi cael eu diwygio i fod yn berthnasol i'r BBC.[115] Bydd y rhai sy'n achwyn am y BBC hefyd yn gallu cael barn annibynnol gan Ofcom ynghylch a yw'r BBC wedi glynu wrth ganllawiau golygyddol perthnasol yn ei ddeunydd ar-lein. Bydd Ofcom yn gosod ac yn cyhoeddi trefniadau cwyno tryloyw a hygyrch ar gyfer delio â chwynion am safonau cynnwys y BBC, a fydd yn egluro sut bydd Ofcom yn ystyried cwynion a fydd yn cael eu cyfeirio ar sail 'BBC yn Gyntaf' a sut y bydd Ofcom yn delio ag ymchwiliadau i safonau cynnwys (gan gynnwys achosion tegwch a phreifatrwydd).[116]*

[111] Llywodraeth Cymru, t. 5.
[112] Panel Defnyddwyr Cyfathrebu, t. 3.
[113] Voice of the Listener and Viewer, t. 5.
[114] Ofcom, Rheolau Ofcom ar ddidueddrwydd dyladwy, cywirdeb dyladwy, etholiadau a refferenda, 9 Mawrth 2017
[115] Ofcom, Adolygiad o'r Cod Darlledu: Paratoi ar gyfer cyfrifoldebau newydd Ofcom yn rheoleiddio'r BBC, 29 Mawrth 2017.
[116] Ofcom, Gweithdrefnau newydd ar gyfer delio â chwynion am safonau cynnwys, ymchwiliadau a sancsiynau ar gyfer rhaglenni'r BBC, 29 Mawrth 2017.

### Amddiffyniad PIN

A2.46 Dywedodd y Gymdeithas Darlledwyr Masnachol (COBA) fod angen i Ofcom adolygu amddiffyniad PIN ar draws gwahanol lwyfannau oherwydd, ym marn COBA, mae'r rhan fwyaf o wasanaethau llinol yn cael eu cyfyngu gan lefel o reoleiddio sy'n dyddio mwy a mwy.[117]

*Rydym yn pwyso a mesur a yw rheolau'r Cod Darlledu ar gyfer amddiffyn plant yn dal yn briodol, gan ystyried y newid mewn arferion gwylio a datblygiadau technolegol. Y llynedd, gofynnon ni am farn y diwydiant drwy Gais am Fewnbwn ar y risgiau a'r manteision posibl o adael i ddarlledwyr ddangos ystod ehangach o gynnwys sy'n fwy addas i oedolion cyn y trothwy, ar yr amod bod system PIN orfodol ar waith. Rydym hefyd wedi cynnal gwaith ymchwil ymysg defnyddwyr i edrych ar y ffordd mae cynulleidfaoedd yn defnyddio systemau amddiffyniad PIN, faint o hyder sydd ganddynt yn y systemau hyn, a'r archwaeth am newidiadau posibl o'r fath. Bydd y Cais am Fewnbwn a'r ymchwil defnyddwyr (a gaiff ei gyhoeddi gennym hefyd) yn helpu i lunio cynigion y bydd Ofcom yn ymgynghori arnynt yn nes ymlaen yn 2017, fel y nodir yn Atodiad 1 y Cynllun Gwaith ar gyfer 2017/18 o dan y pennawd "Prosiectau eraill i ddiogelu defnyddwyr rhag niwed" uchod.*

## Sylwadau eraill sy'n ymwneud â'n nodau

### Agwedd Ofcom at reoleiddio

A2.47 Dadleuodd **O2** y dylai man cychwyn Ofcom bob amser ogwyddo yn erbyn ymyrryd, a thuag at leihau beichiau rheoleiddiol yn gyffredinol. Aeth **O2** ymlaen i awgrymu y dylai Ofcom sicrhau ei fod yn ystyried materion â meddwl agored, ei fod yn fodlon cyfaddawdu â phryderon dilys rhanddeiliaid, a'i fod yn llawn ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynir gan y diwydiant.[118]

*Mae Ofcom yn bodoli er mwyn sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb. Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn rhoi dyletswydd statudol ar Ofcom i adolygu prosesau rheoleiddiol sy'n bodoli eisoes ac sy'n cael eu cynnig, er mwyn sicrhau nad ydym yn a) gorfodi beichiau diangen; neu b) yn cadw beichiau rheoleiddiol a orfodwyd yn y gorffennol sydd bellach yn ddiangen. Mae'r dyletswyddau hyn yn sail i ystod lawn ein gwaith rheoleiddio, gan gynnwys ein rhaglen o adolygiadau marchnad. Yn unol â hynny, mae adrannau 3.23-3.28 o'r Cynllun Blynyddol yn nodi nifer o feysydd lle rydym o'r farn fod dadreoleiddio yn bosibl, gan gynnwys adolygu ein "Amodau Hawliau Cyffredinol".[119]*

### Llywodraethu Ofcom

A2.48 Argymhellodd **Jason Whalley** ac **Ewan Sutherland** fod Ofcom yn llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda rhanbarthau dinasoedd datganoledig, yn arbennig yng ngogledd Lloegr, er mwyn sicrhau bod polisi Ofcom yn addas ar gyfer anghenion datblygu'r ardaloedd hyn.[120] Aethant ymlaen i ddweud y dylai Ofcom

[117] COBA, t. 3.
[118] O2, t. 2.
[119] Ofcom, Review of the General Conditions of Entitlement, 20 Rhagfyr 2016
[120] Jason Whalley ac Ewan Sutherland, t. 3.

gynnal cyfarfodydd ei fwrdd yn gyhoeddus, gwe-ddarlledu ei gyfarfodydd, a chyhoeddi cofnodion manwl o'r cyfarfodydd hyn yn brydlon.[121]

*Mae Ofcom yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu â'r holl wledydd a phob rhan o wledydd y DU yn gyfartal. Dylai hyn ystyried cyd-destun gwleidyddol a chymdeithasol arbennig y gwledydd hyn, a dylai geisio deall unrhyw nodweddion unigryw yn yr ardaloedd hyn. O ran gogledd Lloegr, mae Ofcom yn gwerthfawrogi mewnbwn ei Bwyllgor Cynghori Lloegr – sy'n cynnwys aelodau o ranbarthau Lloegr, gan gynnwys o leiaf tri aelod o'r gogledd. Mae cadeirydd y Pwyllgor hwn hefyd yn eistedd ar y Pwyllgor Gwledydd, sy'n cael ei gadeirio gan aelod o Fwrdd Ofcom.*

*Gan fod Bwrdd a Phwyllgorau Cynghori Ofcom yn trafod gwybodaeth gyfrinachol, nid yw'n bosibl gwe-ddarlledu eu cyfarfodydd yn anffodus. Byddwn yn parhau i adolygu'r mater hwn. Mae cofnodion ac agendâu cyfarfodydd Bwrdd Ofcom yn ogystal â'r Pwyllgorau Cynghori yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd ar wefan Ofcom.*

## Rhaglen Waith a Chynllun Blynyddol Ofcom

A2.49 Nododd **BT** enghreifftiau o ddyblygu rhwng y cynllun gwaith yn y Cynllun Blynyddol a 'Rhaglen Waith' Ofcom, gan awgrymu bod hyn yn arwain at ddryswch y gellid ei osgoi drwy gyfuno. Aeth ymlaen i ddweud pan fydd y 'rhaglen waith' yn cael ei diweddaru, y dylid amlygu'r newidiadau yn benodol; ac y byddai'n ddefnyddiol hefyd pe bai Ofcom yn cadw rhaglen waith 'fyw' gwbl gyfoes y gellir cyfeirio ato ar unrhyw adeg.

*Rydym yn cyhoeddi ein rhaglen waith ochr yn ochr â'n cynllun blynyddol. Fodd bynnag, gan ein bod yn diweddaru'r rhaglen waith bob chwarter, ac yn cyhoeddi'r cynllun blynyddol unwaith bob blwyddyn, nid ydym yn credu y byddai'n ymarferol cyfuno'r ddwy ddogfen yn un. Byddwn yn ystyried y pwynt a godwyd gan BT ynghylch amlygu newidiadau yn y rhaglen waith cyn ein diweddariad chwarterol nesaf.*

## Ofcom yn archwilio ei berfformiad ei hun

A2.50 Anogodd **TalkTalk** Ofcom i gyhoeddi asesiad blynyddol o'i berfformiad o ran allbynnau a chanlyniadau'r farchnad, gan ddefnyddio nodau clir y gellir eu mesur. Ym marn TalkTalk, bydd hyn yn gwella tryloywder Ofcom yn ogystal â'i atebolrwydd i randdeiliaid, ac yn annog Ofcom i osod amserlenni mwy realistig.[122]

*Mae ein Hadroddiad a Chyfrifon Blynyddol yn cynnwys Adroddiad Perfformiad. Mae hwn yn darparu crynodeb o'n cynnydd o ran cyflawni blaenoriaethau ein cynllun blynyddol. Yn hwn, rydym yn darparu trosolwg o'r hyn rydym wedi'i wneud a pha ganlyniadau yn y farchnad yr ydym yn disgwyl i ddeillio o'n camau gweithredu.*

## Sicrhau gwerth am arian

A2.51 Gofynnodd **Three** am eglurder ynghylch beth mae'r cam o symud adnoddau i swyddfeydd rhanbarthol Ofcom yn ei olygu o ran sut mae Ofcom yn sicrhau gwerth am arian.[123]

[121] Ibid.
[122] TalkTalk, t. 5.
[123] Three, t. 18.

*Yn ystod 2016/17, gwnaethon ni agor swyddfeydd newydd yn Warrington (Swydd Gaer) a Chaeredin. Fel rheoleiddiwr cenedlaethol, mae'n bwysig cael cysylltiadau cryf ym mhob rhan o'r DU, ac rydym yn credu y bydd y cam symud hwn yn cryfhau'r cysylltiadau hynny ymhellach. Yn ogystal â hynny, mae lleihau faint o le rydym yn ei ddefnyddio yn Llundain wedi sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Mae ein swyddfa yn Warrington yn Ganolfan Cyswllt Defnyddwyr, gan gyfuno ein swyddogaethau o ran Cyswllt Defnyddwyr a Thrwyddedu Sbectrwm. Rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau na fydd defnyddwyr wedi sylwi ar unrhyw wahaniaeth yn y gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu iddynt, ac nid yw ein dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer ateb galwadau wedi newid.*

A2.52 Dadleuodd **O2** y dylai Ofcom sicrhau rhagor o arbedion ac effeithlonrwydd, "yn enwedig o ystyried cynnig y Bil Economi Ddigidol i newid model cyllido Ofcom fel ei fod yn cael ei ariannu'n gyfan gwbl drwy ffioedd y diwydiant". Aeth ymlaen i ddweud "bod y ffioedd rhwydwaith a gwasanaeth sy'n daladwy gan weithredwyr rhwydwaith symudol wedi parhau i gynyddu, ac wedi cynyddu dros 40% ers 2012", er gwaethaf y gostyngiadau yng nghyllideb Ofcom.[124]

*Fel y mae O2 yn ei nodi, mae cynnig y Bil Economi Ddigidol i newid sut bydd Ofcom yn adennill costau ein gwaith rheoli sbectrwm a'n dyletswyddau llywodraethu cyffredinol eraill yn golygu y cawn ein hariannu'n gyfan gwbl drwy ffioedd y diwydiant. Bydd hyn ynddo'i hun yn arwain at fodel cyllido mwy effeithlon. Mae ein Datganiad o Egwyddorion Codi Tâl presennol yn dal yn ei le ac ni fydd newid o ran sut rydym yn gosod ffioedd ar gyfer y sectorau rhwydwaith a gwasanaeth, darlledu na phost.*

*Ers ei sefydlu, mae Ofcom wedi sicrhau arbedion mewn termau real yn gyson o ran costau rheoleiddio. Nes cyflwyno ein model cyllido newydd, mae ein costau hyd yma wedi cael eu rhannu rhwng y diwydiant a'r trethdalwr. Yn 2013/14, bu cynnydd yn ein ffioedd i'r diwydiant (gan gynnwys y rheini i'r sector rhwydwaith a gwasanaeth). Fel y dywedon ni wrth bob rhanddeiliad diwydiant ar yr adeg honno, sbardunwyd hyn gan ailrannu ein costau TG rhwng trwyddedigion masnachol a'r trethdalwr, yn hytrach na chynnydd yng nghostau cyffredinol Ofcom. Ers y flwyddyn honno, er bod Ofcom wedi gallu parhau i sicrhau arbedion mewn termau real, mae'r ffioedd penodol i'r sectorau rhwydwaith a gwasanaeth wedi cynyddu'n unol â'r rhaglen waith benodol iawn yr ydym wedi'i chyflawni bob blwyddyn, ac yn fwy diweddar yng nghyswllt yr Adolygiad o Gyfathrebiadau Digidol.*

## Adolygu'r Amodau Cyffredinol

A2.53 Anogodd **Three** Ofcom i fod yn fwy uchelgeisiol yn ei ddull, gan symleiddio'r prosesau rheoleiddio ar yr un pryd er mwyn sicrhau ei fod yn aros yn berthnasol i'r farchnad gyfathrebu sy'n newid. Ym marn Three, mae posibilrwydd newid Amodau Cyffredinol presennol i leihau'r baich rheoleiddio ar ddarparwyr a gwneud cydymffurfiad yn haws.[125]

*Mae Ofcom wedi cynnal adolygiad trylwyr a helaeth o'r Amodau Cyffredinol.[126] Roedd ein hymgynghoriad yn cynnwys nifer o gynigion a oedd wedi'u hanelu at leihau'r baich ar y diwydiant, gan wneud yr amodau'n fwy syml, yn fwy ymarferol ac yn haws cydymffurfio â nhw.*

124 O2, t. 3.
125 Three, t. 16.
126 Ofcom, Adolygu'r Amodau Hawliau Cyffredinol, 20 Rhagfyr 2016.

## Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y Gwledydd

A2.54 Mynegodd **Llywodraeth Cymru** bryderon nad oes unrhyw gynnydd o sylwedd wedi bod o ran datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.[127]

*Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i greu a chymeradwyo Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd.*

## Strategaeth gwledydd ac adnoddau Ofcom

A2.55 O ran presenoldeb uwch Ofcom yng Nghaeredin, gofynnodd **Llywodraeth Cymru** a oedd gan Ofcom unrhyw gynlluniau i ehangu mewn ffordd debyg yn y gwledydd datganoledig eraill, gan gynnwys Cymru. Mynegodd Lywodraeth Cymru bryder hefyd ynglŷn ag a oedd gan Ofcom ddigon o gapasiti i gyflawni'r cyfrifoldebau ychwanegol sy'n gysylltiedig â rheoleiddio'r BBC.[128]

*Mae Ofcom wedi agor adeiladau newydd yng Nghaeredin a Warrington fel rhan o'n strategaeth i symud rhan o'n gweithrediadau i fannau y tu allan i Lundain, ac i ddatblygu gwasgariad gweithredol mwy amrywiol ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU. Bwriad ein hamcan o greu canolfan polisi a gweithrediadau yng Nghaeredin yw helpu i sicrhau ein bod yn gallu cynrychioli buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yn effeithiol nid dim ond yn yr Alban ond ar draws y DU. Bydd y presenoldeb hwn yn sicrhau ein bod yn agosach i'r prif heriau a wynebir gan bob gwlad, gan gynnwys y rheini a ddaw yn sgil poblogaethau gwledig anghysbell a rhai sy'n wasgaredig yn ddaearyddol, a'r materion parhaus sy'n ymwneud â darpariaeth, dibynadwyedd ac argaeledd gwasanaethau cyfathrebu.*

*Er mwyn cyflawni ein cyfrifoldebau newydd yng nghyswllt y BBC, byddwn wedi recriwtio tua 40 aelod newydd o staff erbyn mis Ebrill 2017. Rydym wedi recriwtio ar draws pob disgyblaeth, ond wedi canolbwyntio'n arbennig ar weithwyr proffesiynol ym maes polisi cynnwys a fydd yn gweithio i ddal y BBC i gyfrif am gyflawni ei gyfrifoldebau i ddarparu allbwn a gwasanaethau sy'n bodloni anghenion gwledydd a rhanbarthau'r DU. Mae Ofcom yn bwriadu cyflawni ei ddyletswyddau newydd yn effeithiol ac yn effeithlon, gan sicrhau'r gwerth gorau am arian i dalwyr ffi'r drwydded, a sicrhau bod y BBC yn bodloni anghenion cynulleidfaoedd.*

## Cynllunio a cheisiadau am wybodaeth Ofcom

A2.56 Dywedodd **BT** fod y diwydiant yn cael trafferth ymdopi â nifer y ceisiadau am wybodaeth y mae'n eu cael gan Ofcom, ac awgrymodd y dylai Ofcom sicrhau bod ceisiadau yn gymesur, ac yn ystyried goblygiadau o ran adnoddau i ddarparwyr cyfathrebiadau. Mae BT yn argymell bod Ofcom yn penodi perchennog proses gyda'r cylch gwaith o weithio gyda'r diwydiant yn 2018 i wella prosesau mewnol Ofcom, ynghyd â rhai y diwydiant.[129] Mewn modd tebyg, dywedodd **TalkTalk** fod ceisiadau am wybodaeth yn dod yn amlach ac yn fwy manwl erbyn hyn, gydag amserlenni byrrach, a bod ceisiadau drafft a hysbysiadau ymlaen llaw yn fwy prin bellach. Cais TalkTalk oedd bod Ofcom un ai'n caniatáu amserlenni hirach neu rybuddion ymlaen llaw, a'i fod yn darparu trosolwg ymlaen llaw, a ddiweddarir yn

[127] Llywodraeth Cymru, t. 1.
[128] Llywodraeth Cymru, t. 1.
[129] BT, t. 4.

aml, o geisiadau am wybodaeth disgwyliedig.[130] Anogodd **Three** Ofcom hefyd i ymgynghori â rhanddeiliaid yn gynhrach a, lle bo'n briodol, yn llai ffurfiol, gan ddadlau y gellid teilwra ceisiadau ffurfiol Ofcom am wybodaeth i weithredwyr unigol er mwyn sicrhau perthnasedd.[131] Dywedodd **UKCTA** fod ceisiadau Ofcom yn gymhleth ac yn hir, a bod angen ystyried ymatebion yn fanwl, a galwodd am gael gwell syniad o'r ceisiadau sydd i ddod a rhagor o hyblygrwydd o ran dyddiadau cau.[132]

*Bydd Ofcom yn adolygu sut mae'n casglu gwybodaeth. Bydd yr adolygiad hwn yn ymwneud â'n prosesau mewnol a sut mae rhanddeiliaid yn ymateb i'n ceisiadau am wybodaeth.*

## Gwefan Ofcom

A2.57 Amlygodd **UKCTA** broblemau'n ymwneud ag ailddyluniad gwefan Ofcom, yn enwedig yng nghyswllt llywio, cyfleusterau chwilio sâl a dolenni sydd wedi torri.[133]

*Yn 2016, gwnaethon ni newidiadau sylweddol i wefan Ofcom yn sgil adborth defnyddwyr. Roedd hyn yn cynnwys ail-leoli miloedd o dudalennau gwe a dogfennau. Er y cymerwyd gofal i leihau'r dolenni sydd wedi torri, mae'n wir bod achosion o'r fath yn bodoli, ac rydym wedi rhoi teclynnau ar waith i fynd i'r afael â hyn. Yn fwy cyffredinol, byddwn yn parhau i gasglu adborth gan ddefnyddwyr, ynghyd â data ar ddefnydd o'r wefan a pherfformiad chwilio, ac yn parhau i fireinio ein gwefan yn seiliedig ar y dystiolaeth hon.*

[130] TalkTalk, t.4.
[131] Three, t. 13.
[132] UKCTA, t. 2.
[133] UKCTA, t. 3.